# Safleoedd Gwarchodedig yng Nghymru

Asesyd Interim Diogeulu'r Amgylchedd Cymru

Interim Environmental Protection Assesor, Wales

AIDAC

IEPAW



# Cynnwys

Tabl Cynnwys

Crynodeb gweithredol ........................................................................6

Argymhellion........................................................................................14

Tabl o acronymau ................................................................................18

1. Cyflwyniad .........................................................................................19

1.1 Y dull gweithredu a fabwysiadwyd ........................................................ 20

2. Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer safleoedd gwarchodedig yng Nghymru ..........................................................................................................22

2.1 Cyflwyniad .......................................................................................... 22

2.2 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ................................................. 22

2.3 Gwarchodfa Natur ................................................................................ 23

2.4 Parc Cenedlaethol ................................................................................ 24

2.5 Dynodiadau cadwraeth Ewropeaidd ........................................................ 24

2.6 Safleoedd Ramsar ................................................................................ 26

3 Cyfraith a pholisi cynllunio.....................................................................27

3.1 Polisi Cynllunio Cymru ......................................................................... 27

3.2 Nodyn Cyngor Technegol 5 Cynllunio a Chadwraeth Natur.......................... 28

4 Statws safleoedd gwarchodedig yng Nghymru.........................................29

5 Monitro safleoedd gwarchodedig ...........................................................30

5.1 Monitro Safonau Cyffredin .................................................................... 30

5.2 Dyletswydd statudol i adrodd ...............................................................32

5.2.1 Safleoedd gwarchodedig ..................................................................... 32

5.2.2 Cyflwr adnoddau naturiol .................................................................... 34

6 Dadansoddi tystiolaeth – Cyflwyniad .....................................................35

7 Monitro.................................................................................................38

7.1 Trosolwg ............................................................................................. 38

7.2 Dyletswydd statudol i fonitro safleoedd gwarchodedig ................................ 38

7.3 Dull o fonitro ... 39
7.3.1 Dull seiliedig ar nodweddion a seiliedig ar safle o fonitro ... 41
7.4 Safbwyntiau AIDAC ar fonitro ... 48
8 Targedau ar gyfer safleoedd gwarchodedig ... 53
8.1 Cyflwyniad ... 53
8.2 Tystiolaeth ynghylch targedau ... 53
8.2.1 Trosolwg ... 53
8.2.2 Cefnogaeth i dargedau statudol a phryderon amdanynt ... 54
8.2.3 Natur targedau statudol ar gyfer safleoedd gwarchodedig ... 55
8.3 Safbwyntiau AIDAC ar dargedau ... 57
9 Newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer safleoedd gwarchodedig ... 59
9.1 Cyflwyniad ... 59
9.2 Tystiolaeth ynghylch newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol presennol ... 59
9.2.1 Trosolwg ... 60
9.2.2 Hysbysu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a chael cydsyniad ... 61
9.2.3 Ymestyn gwarchodaeth Ardaloedd Cadwraeth Arbennig i ddynodiadau eraill ... 64
9.2.4 Gwarchodaeth ehangach ... 65
9.2.5 Cynllunio a datblygu ... 67
9.2.6 Defnydd effeithiol o ddeddfwriaeth bresennol ... 67
9.3 Safbwyntiau AIDAC ar newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol presennol ... 68
10 Rheoli a chytundebau rheoli ... 70
10.1 Y gyfundrefn gyfreithiol ar gyfer rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ... 70
10.2 Cytundebau rheoli ... 70
10.3 Statws cytundebau rheoli ... 72
10.4 Tystiolaeth ynghylch rheoli a chytundebau rheoli ... 72
10.4.1 Trosolwg ... 73
10.4.2 Rhwystrau i gytundebau rheoli ... 73
10.4.3 Goresgyn y rhwystrau ... 74
10.4.4 Cynnwys cytundebau rheoli ... 76
10.4.5 Pwerau Cyfoeth Naturiol Cymru ... 77
10.5 Safbwyntiau AIDAC ar reoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ... 78


11 Systemau gorfodi ........ 81
11.1 Cyflwyniad ........ 81
11.2 Tystiolaeth ynghylch systemau gorfodi ........ 83
11.2.1 Trosolwg ........ 83
11.2.2 Dull o orfodi ........ 84
11.2.3 Defnyddio sancsiynau troseddol ........ 84
11.2.4 Awgrymiadau ar gyfer gwella ........ 86
11.2.5 Pwerau newydd arfaethedig ........ 87
11.3 Safbwyntiau AIDAC ar systemau gorfodi ........ 88
12 Dull addasol o reoli safleoedd ........ 91
12.1 Cyflwyniad ........ 91
12.2 Tystiolaeth ynghylch dulliau addasol ........ 91
12.2.1 Trosolwg ........ 91
12.2.2 Beth ddylai newid ........ 92
12.2.3 Sut mae cyflwyno newid ........ 94
12.3 Safbwyntiau AIDAC ar ddulliau rheoli addasol ........ 96
13 Casgliadau ........ 101
Atodiad 1 Rôl Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC) ........ 105
Atodiad 2 Papur briffio ar gyfer Fforwm Arbenigwyr ynghylch rheoli a gwarchod safleoedd gwarchodedig ........ 107
Atodiad 3 Cofnod o'r Fforwm Arbenigwyr ynghylch rheoli a gwarchod safleoedd gwarchodedig ........ 118
Atodiad 4 Galwad am Dystiolaeth ........ 130

# Rhagair

Dynodi safleoedd gwarchodedig fu'r prif ddull o ddarparu gwarchodaeth gyfreithiol ar gyfer safleoedd pwysig o safbwynt cadwraeth natur yng Nghymru. Mae'r argyfwng bioamrywiaeth yn golygu bod y safleoedd hyn yn bwysicach fel y sylfaen ar gyfer mesurau i wrthdroi'r dirywiad. Rydym yn gwybod nad yw llawer o'r safleoedd hyn mewn cyflwr da, a bod yna lawer o rai eraill lle ceir data annigonol i allu asesu eu cyflwr. Mae'n amlwg nad yw'r sefyllfa hon yn un dderbyniol.

Cafwyd amryw fentrau'n ymwneud â safleoedd gwarchodedig yng Nghymru ers i'r gwaith hwn gychwyn, nid yn lleiaf cyhoeddi Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Ein gobaith yw y bydd yr argymhellion yn ein hadroddiad yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru ac y bydd ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r argymhellion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Bil.

Dechreuodd Nerys Llewelyn Jones, fy rhagflaenydd fel Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC), ei hymchwiliad i'r modd y caiff safleoedd gwarchodedig eu rheoli ym mis Tachwedd 2022. Cawsom dystiolaeth gan ystod eang o sefydliadau a oedd yn cynnwys y cyrff cadwraeth statudol, cyrff anllywodraethol amgylcheddol a chynrychiolwyr y diwydiant ffermio. Cafodd y gwaith o grynhoi a dadansoddi'r wybodaeth i gyd ei gyflawni'n ofalus gan Ysgrifenyddiaeth AIDAC, a chafodd adroddiad a oedd yn crynhoi'r gwaith hwnnw ei lunio ar ein cyfer gan yr Athro Victoria Jenkins. Rydym yn ddiolchgar dros ben am eu cyfraniadau. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Cyfoeth Naturiol Cymru am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni yn ystod yr ymchwiliad. Deuthum yn gyfrifol am yr adroddiad pan ymunais fel dirprwy ym mis Mai 2024. Mae ein dirprwy presennol, John Henderson, wedi bod yn fy nghynorthwyo gyda'r gwaith hwn ac wedi helpu i lunio fy meddylfryd ynghylch nifer o bwyntiau, ac mae fy nyled yn fawr iddo am hynny. Fi sy'n gyfrifol am unrhyw wallau, wrth gwrs.



Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

## Crynodeb gweithredol

Yn ystod haf 2022, cafodd Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC) ddau gyflwyniad am y modd y caiff safleoedd gwarchodedig eu rheoli a'u gwarchod yng Nghymru. Roedd a wnelont yn benodol â'r diffyg gwybodaeth am statws o ran cadwraeth Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Honnwyd bod llawer o safleoedd wedi'u difrodi neu wedi dirywio, ac nad oedd safleoedd yn cael eu rheoli'n briodol na'u gwarchod. Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r honiadau hynny yng ngoleuni'r dystiolaeth a gafwyd gan ystod eang o gyrff ynghylch y pynciau canlynol:

- gwaith monitro safleoedd gwarchodedig;
- targedau ar gyfer safleoedd gwarchodedig;
- newidiadau posibl i'r fframwaith cyfreithiol presennol;
- rhwystrau i gadarnhau cytundebau rheoli;
- systemau gorfodi; a
- dull addasol o reoli safleoedd.

Yr unig ddynodiadau y mae'r adroddiad yn eu hystyried yw dynodiadau y mae cadwraeth natur yn brif ddiben iddynt, ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Nid yw'n ymdrin ag ardaloedd morol gwarchodedig.

### Monitro

Asesiad Gwaelodlin Safleoedd Gwarchodedig 2020 Cyfoeth Naturiol Cymru oedd yr asesiad llawn cyntaf ers 2003. Ni fyddem yn ystyried bod bwlch o 17 mlynedd yn foddhaol, hyd yn oed pe bai gwybodaeth am gyflwr pob safle'n cael ei darparu. Mae'r ffaith bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn methu â phennu cyflwr tua hanner y safleoedd rhestredig oherwydd tystiolaeth annigonol yn arwydd cryf bod rhywbeth mawr o'i le ar y modd y caiff gwaith monitro ei gyflawni.

Rydym wedi dod i'r casgliad y dylai monitro safleoedd gwarchodedig fod yn un o swyddogaethau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym wedi dod i'r casgliad bod y dull Monitro Safonau Cyffredin yn parhau'n briodol. Rydym yn cydnabod bod y math hwn o waith monitro'n gofyn am lawer o adnoddau, ac wrth i'r ddyletswydd statudol gael ei phennu rydym yn credu'n gryf bod yn rhaid sicrhau cynnydd mewn cyllid hefyd

sy'n ddigonol i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i weithredu rhaglen fonitro sy'n golygu bod pob safle'n cael ei fonitro o leiaf bob chwe blynedd. Dylid adrodd bob blwyddyn ynghylch canlyniadau'r rhaglen honno.

Rydym wedi dod i'r casgliad ei bod yn bwysig gwahaniaethu'n glir rhwng gwaith monitro nodweddion a gwaith asesu safleoedd. Mae dibenion y ddau beth yn wahanol, gellir eu cyflawni gan ddilyn amserlenni gwahanol, ac mae a wnelont â thechnegau gwahanol a gyflawnir gan bobl wahanol.

## Targedau ar gyfer safleoedd gwarchodedig

Mae AIDAC o'r farn y byddai'n anodd dros ben gosod targedau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer safleoedd gwarchodedig, er enghraifft targed ar gyfer gwella cyflwr nodweddion gwarchodedig. Rydym yn teimlo y byddai'n well i rai cynigion ynghylch targedau, a ddarparwyd yn y dystiolaeth, gael eu hystyried yn ddyheadau. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi targedau ar gyfer ardaloedd gwarchodedig sy'n dargedau:

- y gellir eu diffinio'n glir;
- y mae siawns resymol y byddant yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen a ragnodwyd; ac
- y gellir eu cyrraedd gan allbynnau y mae modd eu mesur mewn rhyw ffordd.

Rydym yn credu bod angen ystyried yn ofalus sut mae diffinio targedau a fydd yn sbarduno gweithredu tuag at gyrraedd y nod cyffredinol, sef cael rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig sydd mewn cyflwr ffafriol. Bydd hynny'n cymryd amser, ac ni fyddem yn disgwyl gweld y targedau hynny'n cael eu cadarnhau yn derfynol tan rywbryd ar ôl i Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) ddod yn gyfraith. Rydym yn cytuno bod angen mynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth ar frys ac, yn ddelfrydol, y byddai targedau bioamrywiaeth wedi bod ar waith mewn pryd i helpu i fodloni'r terfyn amser, sef 2030, ond ni allwn weld bod unrhyw fantais mewn gosod targedau i fodloni'r terfyn amser hwnnw os yw hynny'n golygu bod amser annigonol yn cael ei dreulio ar ddiffinio'r targedau.

Un targed a allai gael ei gyflwyno'n gynt, fodd bynnag, yw targed ynghylch monitro Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Rydym yn credu y byddai gosod targed o'r fath yn ddefnyddiol o safbwynt dwyn Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfrif.

Ni fydd gosod targedau'n cyflawni dim oni bai bod y camau gweithredu priodol sy'n angenrheidiol i'w cyflawni yn cyd-fynd â nhw. Rydym o'r farn y bydd yn hanfodol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun gweithredu strategol wedi'i brisio yn cael ei roi ar waith, sy'n egluro'r gwaith sy'n ofynnol i sicrhau bod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig mewn cyflwr ffafriol.

## Newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer safleoedd gwarchodedig

Rydym yn cytuno bod y broses hysbysu ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gallu cymryd llawer o amser ac yn gallu gofyn am lawer o adnoddau. Mae hefyd yn broses anhyblyg ac anaddas ar gyfer mynd i'r afael â newidiadau sy'n digwydd i fioamrywiaeth o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd. Er bod y ddeddfwriaeth erbyn hyn yn cynnwys darpariaethau i wneud newidiadau i gynnwys hysbysiad ac i ychwanegu ato neu ymhelaethu arno, mae'r pethau hynny hefyd yn gofyn am broses hysbysu ffurfiol. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi y byddai'r sefyllfa yn gwella drwy gyflwyno rhagor o ddiwygiadau cyfreithiol. Mae'n bosibl, maes o law, y dylid cynnal adolygiad mwy sylfaenol o'r gyfraith ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, rydym yn credu y byddai unrhyw newidiadau i'r gyfraith er mwyn symleiddio'r gweithdrefnau hysbysu yn wrthgynhyrchiol, oherwydd mae'n debygol y byddent yn digio tirfeddianwyr.

Nodwyd bod yr anallu i reoli gweithgareddau y tu allan i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a allai gael effaith niweidiol ar y nodweddion y cafodd y safle ei hysbysu o'u herwydd, yn bryder difrifol. Parodd hynny i sawl ymatebydd gynnig y dylai Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gael yr un warchodaeth gyfreithiol ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Er y gallwn weld manteision gwneud hynny, nid ydym yn credu y byddai'n briodol ym mhob sefyllfa. Fel y nodwyd yn y dystiolaeth, gellir cael cydsyniad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gyflym, ond mae cael

cydsyniad Ardal Cadwraeth Arbennig yn cymryd tipyn mwy o amser ac mae'r broses yn fwy beichus. Cawsom ein calonogi gan y datganiadau sydd yn y rhifyn diweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru, sef bod yna ragdybiaeth yn erbyn unrhyw ddatblygiad mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig nad yw'n angenrheidiol ar gyfer rheoli'r safle ac, at hynny, bod yna ragdybiaeth yn erbyn datblygiad sydd y tu allan i'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ond sy'n debygol o'i ddifrodi. Hoffem awgrymu mai dim ond ar sail asesiad ffafriol o effeithiau amgylcheddol y dylai unrhyw benderfyniad i wrthod y rhagdybiaeth honno gael ei wneud.

Ar gyfer gweithgareddau y mae angen awdurdodiadau heblaw caniatâd cynllunio ar eu cyfer, mae'n bosibl bod yna achos dros ymestyn y darpariaethau ar gyfer asesiad priodol, ond nid ydym o'r farn y byddai hynny o reidrwydd yn gofyn am newid yn y gyfraith. Mae adran 28G y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn mynnu bod ymgymerwyr statudol yn cymryd camau rhesymol i hybu cadwraeth a gwelliannau yng nghyswllt nodweddion hysbysedig. Gallai'r ddyletswydd honno, ynghyd â'r ddyletswydd gyffredinol ar gyrff cyhoeddus dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, gael ei defnyddio i sicrhau nad yw effaith gweithgareddau y tu allan i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn achosi difrod drwy amryfusedd.

## Rheoli a chytundebau rheoli

Mae AIDAC o'r farn bod y pŵer i ymrwymo i gytundeb rheoli tir, yng nghyswllt unrhyw dir, yn rhoi i Cyfoeth Naturiol Cymru y system gyfreithiol angenrheidiol i'w alluogi i gydweithio â deiliaid tir er mwyn gwarchod a/neu adfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Fodd bynnag, rydym yn cytuno nad yw'r pwerau hynny wedi'u defnyddio mor llawn ag y mae angen iddynt gael eu defnyddio.

O'u cyfuno, gallai cytundebau rheoli tir a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyfrannu llawer mewn egwyddor at warchod ac adfer safleoedd gwarchodedig. Fodd bynnag, bydd llwyddiant yn dibynnu ar nifer o ffactorau a nodwyd yn y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, sef:

- gwybodaeth am statws presennol o ran cadwraeth y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;

- camau i ddatblygu cydberthnasau gwaith da rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a deiliaid tir fel bod modd deall manteision camau rheoli yn llawn;
- argaeledd nifer addas o staff cymwys a phrofiadol Cyfoeth Naturiol Cymru i weithio gyda deiliaid tir;
- digon o arian i sicrhau bod cytundebau rheoli tir a/neu fathau eraill o daliadau'n gallu cael eu trefnu pryd bynnag y bernir bod hynny'n angenrheidiol;
- cymhelliad digonol i ddeiliaid tir ystyried ei bod yn werth chweil iddynt ymrwymo i ryw fath o gytundeb rheoli.

Nid yw'n syndod o gwbl i ni mai prin yw'r defnydd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i wneud o'i bwerau i lunio Cynllun Rheoli, ac ni fyddem yn ei feirniadu am hynny. Gallwn weld mantais bosibl Cynllun Rheoli fel dull o berswadio deiliad tir cyndyn i fod yn rhan o drafodaethau am ddulliau rheoli arfaethedig. Byddai'r opsiwn i gyflwyno Hysbysiad Rheoli wedyn yn gymhelliad terfynol i annog y deiliad tir i gydymffurfio. Yn ein barn ni, fodd bynnag, dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y dylai'r dyfeisiau hyn gael eu defnyddio. Mae rheoli Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus os yw'r deiliad tir yn gyfranogwr bodlon. At hynny, mae'r gweithdrefnau ar gyfer Cynlluniau Rheoli ac ar gyfer Hysbysiadau Rheoli yn dilyn y gweithdrefnau ar gyfer hysbysu safle, a'r canlyniad yw y gallai gymryd misoedd iddynt gael eu cadarnhau a mwy fyth o amser pe bai'r deiliad tir yn dewis apelio yn erbyn yr Hysbysiad Rheoli.

## Systemau gorfodi

Mae AIDAC yn cytuno â Cyfoeth Naturiol Cymru mai dull wedi'i dargedu o orfodi yw'r ffordd orau o ymdrin â throseddau. Gall erlyniadau gymryd llawer o amser a bod yn gostus, a dylid eu cadw'n ôl ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol, yn enwedig achosion o aildroseddu. Y peth pwysicaf yw bod unrhyw ddifrod yn cael ei unioni os oes modd, a'i fod yn cael ei osgoi yn y dyfodol.

Rydym o'r farn mai prin yw'r cyfle sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd i ymdrin â throseddau, ac rydym yn cytuno'n gyffredinol â'i awgrymiadau ynghylch pwerau newydd. Yn benodol, rydym yn gryf o blaid y syniad o ddiwygio Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010 fel ei fod yn cynnwys troseddau dan y

Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Pe bai gan Cyfoeth Naturiol Cymru y pwerau hyn, byddai'n gallu mynnu bod deiliad tir yn unioni difrod ar safle heb fod angen ei erlyn yn llwyddiannus. Rydym hefyd yn cefnogi awgrym Cyfoeth Naturiol Cymru y dylai gael pwerau mynediad i gyflawni gwaith rheoli ar dir trydydd parti ac adennill y costau mewn achosion lle nad yw'n gallu ymrwymo i gytundeb rheoli tir.

## Dull addasol o reoli safleoedd

Mae AIDAC yn cytuno nad yw'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer safleoedd gwarchodedig yn golygu eu bod yn y sefyllfa orau i fwynhau dulliau rheoli addasol. Rydym hefyd yn cytuno bod angen i'r safleoedd gwarchodedig presennol gael eu hintegreiddio mewn rhwydwaith o safleoedd y bwriedir iddynt gynorthwyo adferiad byd natur. Does dim dwywaith na fydd hyblygrwydd yn angenrheidiol ynghyd â'r gallu i newid arferion rheoli er mwyn ymateb i amgylchiadau sy'n newid.

Rydym yn cytuno nad yw'r fframwaith cyfreithiol cyfredol ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn addas ar gyfer anghenion yn y dyfodol; yn wir mae'n gallu golygu ei bod bron yn amhosibl cyflawni canlyniadau a ddymunir. Yn gryno, rydym yn credu mai'r prif rwystrau i ddulliau addasol o reoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yw:

- dull rhagnodol o hysbysu nodweddion
- proses hysbysu sy'n seiliedig ar statws presennol yn hytrach na rhagolygon ar gyfer y dyfodol
- proses hysbysu hirfaith
- yr angen i ailhysbysu ynghylch unrhyw amrywiad i fanylion y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- dibyniaeth ar restr o weithrediadau a allai fod yn andwyol fel sail ar gyfer gofynion rheoli
- pwyslais gormodol ar atal difrod neu golled yn hytrach nag ar reoli'n gadarnhaol.

Ni chafodd y gyfres bresennol o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ei llunio er mwyn creu rhwydwaith cysylltiedig. Rydym yn cytuno y dylai safleoedd fod yn ddigon mawr i roi'r warchodaeth a ddarperir, naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn

cysylltiad â safleoedd eraill. Gallai targedau ar gyfer cysylltedd helpu i sbarduno camau i greu mwy o safleoedd, ond heb y wybodaeth angenrheidiol am statws presennol safleoedd bydd yn anodd penderfynu ble y mae'r angen mwyaf i weithredu. Mae monitro safleoedd yn hollol angenrheidiol, a bydd yn dod yn hanfodol ar gyfer llywio'r angen am ddulliau rheoli addasol yn y dyfodol. Mae'n rhaid i'r gwaith o reoli Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig fod yn gydnaws â diben y safle. Os bwriedir caniatáu i'r pwrpas hwnnw newid gydag amser, rhaid bod yna hyblygrwydd yn y modd y caiff y safle ei reoli.

Rydym yn cydnabod bod y cyrff cadwraeth natur wedi gweithredu i wella'r rhwydwaith o ardaloedd gwarchodedig. Rydym yn croesawu'r canllawiau diwygiedig, a dylent sicrhau dull mwy hyblyg o ddewis safleoedd yn y dyfodol. Yn anffodus, cafodd 97 y cant o'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd yng Nghymru eu hysbysu cyn y broses ddiwygio yn 2013. Mae rhai ohonynt hyd yn oed yn rhagflaenu Canllawiau 1989, a chawsant eu dewis ar sail arweiniad mewnol y Cyngor Gwarchod Natur.

Nid ydym yn credu bod yna arwydd y bydd newid sylfaenol yn digwydd i'r gyfundrefn gyfreithiol ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn y tymor byr. Ond mae yna obaith o hyd. Mae cael datganiad rheoli ar gyfer pob Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, sy'n egluro dyheadau'r dyfodol ar gyfer y safle, yn gam cyntaf pwysig. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau i ymrwymo i gytundeb rheoli tir yng nghyswllt unrhyw dir, a byddem yn annog Cyfoeth Naturiol Cymru i ddefnyddio'r pŵer hwnnw i warchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig rhag gweithgareddau oddi arnynt, a allai fod yn andwyol. At hynny, dylai cynnwys camau gweithredu penodol ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy alluogi dulliau rheoli gwell.

## Casgliadau

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i drawsnewid y gyfres o safleoedd gwarchodedig fel ei bod yn well, yn fwy o faint ac wedi'i chysylltu'n fwy effeithiol. Yn anffodus, nid yw'r fframwaith cyfreithiol yn addas iawn i gyflawni dyheadau'r Llywodraeth. Ni fwriadwyd i'r amryw ddynodiadau safleoedd gwarchodedig sydd ar gael yng Nghymru ategu ei gilydd, ac ni fwriadwyd i'r un ohonynt ddarparu ar gyfer adferiad yn dilyn argyfwng bioamrywiaeth. Bydd yn rhaid i unrhyw ymgais i'w defnyddio i wneud hynny

ystyried y cyfyngiadau sy'n rhan annatod o'u fframweithiau cyfreithiol a'u fframweithiau polisi.

Efallai mai'r broblem fwyaf sylfaenol yw'r ffaith nad yw'r un ohonynt yn darparu ar gyfer bioamrywiaeth yn ei chyfanrwydd. Ni fwriadwyd erioed i'r gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig fod yn system ar gyfer cadwraeth natur gynhwysfawr a hollgynhwysol. Rhoddwyd pwyslais ar y rhywogaethau prin, y rhywogaethau sy'n agored i niwed a'r rhywogaethau sydd mewn perygl ac ar gynefinoedd naturiol penodol. Caiff safleoedd eu dynodi oherwydd y nodweddion arbennig y maent yn eu cynnwys yn hytrach nag oherwydd eu cyfraniad cyffredinol i gadwraeth bioamrywiaeth. At hynny, ni chafwyd polisi erioed i warchod pob ardal ddiddorol. Caiff safleoedd sydd i'w hysbysu yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig eu dewis i fod yn enghreifftiau cynrychiadol mewn Ardal Chwilio benodol; dan gyfraith Ewropeaidd, mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig wedi'u dynodi yn gyfran gynrychiadol o gyfraniad y DU i'w rhanbarth bioddaearyddol Ewropeaidd.

Yn ddelfrydol, byddem yn hoffi gweld y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cael ei ddisodli gan ddynodiad ardal warchodedig newydd, gyda safleoedd yn cael eu dewis nid yn unig ar sail eu nodweddion cynhenid ond hefyd ar sail pa mor dda y maent yn cyd-fynd â'r jig-so o gysylltiadau a fydd yn creu'r rhwydwaith. Byddent wedyn yn destun cynlluniau rheoli parhaus sydd wedi'u teilwra yn unigol ac y bwriedir iddynt sicrhau bod y safleoedd bob amser yn addas i'w diben wrth i amodau newid yn y dyfodol. Ni fyddai yna fawr ddim angen i ddadhysbysu safleoedd.

Fodd bynnag, oni bai neu nes bod hynny'n digwydd, rydym wedi dod i'r casgliad mai'r gofyniad unigol pwysicaf yw nid newid yn y gyfraith sy'n ymwneud ag ardaloedd gwarchodedig, ond llawer mwy o barodrwydd i neilltuo digon o adnoddau i ddarparu ar gyfer rheoli safleoedd yn effeithiol yn awr ac ar gyfer eu monitro'n barhaus fel bod modd gwneud penderfyniadau ynghylch sut y dylid eu rheoli yn y dyfodol.

## Argymhellion

*Adnoddau*

**Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru asesu'r adnoddau sy'n ofynnol er mwyn i Cyfoeth Naturiol Cymru allu cyflawni ei swyddogaethau yng nghyswllt safleoedd gwarchodedig, sy'n cynnwys monitro cyflwr safleoedd ac ymrwymo i gytundebau rheoli, a dylai sicrhau bod digon o gyllid yn cael ei ddarparu'n benodol ar gyfer y gwaith hwnnw. Rydym hefyd yn argymell y dylai fod yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru roi cyfrif am y modd y caiff yr adnoddau hynny eu defnyddio.**

*Monitro*

**Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) i gyflwyno dyletswydd statudol ar Cyfoeth Naturiol Cymru i fonitro Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac adrodd ynghylch cyflwr nodweddion y caiff safle ei hysbysu o'u herwydd. Dylai'r ddyletswydd fynnu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu ac yn gweithredu rhaglen fonitro sy'n darparu ar gyfer monitro pob Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn rheolaidd. Rydym hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arweiniad ynghylch amlder gwaith monitro. Bydd hynny'n dibynnu ar natur y nodweddion sydd i'w monitro, ond rydym o'r farn y dylai ddigwydd o leiaf unwaith bob chwe blynedd.**

**Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru, ystyried cynnwys hunanfonitro safleoedd mewn unrhyw gytundeb rheoli, gan gynnwys y cytundebau a gaiff eu cadarnhau dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Gallai gwybodaeth a geir yn y modd hwn gyfrannu i'r adroddiad monitro. Byddai hefyd yn rhoi cyfle i berchnogion a deiliaid ymwneud yn fwy helaeth â sicrhau bod cyflwr nodweddion hysbysedig yn cael ei adfer a'i wella.**

**Argymhelliad 4: Fel rheol, dylai Cyfoeth Naturiol Cymru rannu data monitro â'r sawl sy'n gyfrifol am reoli'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig perthnasol.**

*Targedau*

**Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) i gyflwyno targed ar gyfer pennu cyflwr pob Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig erbyn 2030 er mwyn darparu gwaelodlin ar gyfer asesu cynnydd o ran adfer natur. Os na chaiff y targed hwnnw ei gynnwys yn y Bil sydd ar ddod, dylid rhoi blaenoriaeth iddo yn y rhestr o dargedau y bwriedir eu cynnwys mewn deddfwriaeth eilaidd.**

**Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr bod yr angen i sicrhau bod pob Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig biolegol mewn cyflwr ffafriol cyn gynted ag sy'n bosibl yn egwyddor arweiniol wrth ddatblygu targedau bioamrywiaeth penodol i'w cynnwys mewn deddfwriaeth eilaidd.**

**Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) i gyflwyno gofyniad i lunio cynllun gweithredu strategol wedi'i brisio, sy'n egluro'r gwaith sy'n ofynnol i sicrhau bod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig mewn cyflwr ffafriol. Dylai'r cynllun gweithredu hwnnw gael ei lunio gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu ar y cyd ag ef cyn pen dwy flynedd ar ôl y cam deddfu. Dylai:**

- **roi blaenoriaeth i'r nodweddion/safleoedd sy'n wynebu'r angen mwyaf am weithredu;**
- **cynnwys cerrig milltir allweddol tuag at sicrhau cyflwr ffafriol.**

**Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru, adolygu cynnydd yn rheolaidd ac yn dryloyw o ran rhoi'r cynllun gweithredu ar waith, a chymryd camau gweithredu lle bo raid i sicrhau ei fod yn cyflawni'n ôl y disgwyl. Dylai adroddiad manwl ynghylch y cynnydd a wnaed gael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru, a dylai'r modd y caiff y cynllun gweithredu ei roi ar waith fod yn ddangosydd perfformiad allweddol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.**

*Gwarchod safleoedd gwarchodedig*

**Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau nad yw gweithgareddau sydd y tu allan i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ond a allai effeithio arno, yn cael eu caniatáu os ydynt yn debygol o gael effaith andwyol ar gyflwr y safle. Yn dibynnu ar natur y gweithgareddau, gellid cyflawni hynny mewn sawl ffordd. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhinweddau'r ffyrdd posibl canlynol o gyflawni hynny:**

- **ymestyn yr angen am asesiad o effeithiau amgylcheddol i bob cais am gydsyniad cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad a allai gael effaith andwyol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig**
- **mewn sefyllfaoedd lle nad oes angen caniatâd cynllunio, ymestyn y darpariaethau ar gyfer asesiad priodol a eglurir yn Rheoliad Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 63 (1) – (4) i bob gweithgaredd ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a gyflawnir neu a awdurdodir gan ymgymerwyr statudol dan adrannau 28H a 28I y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.**

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru annog dynodi lleiniau clustogi o gwmpas Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dan adrannau 28B a 28C y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.**

**Argymhelliad 11: Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru wneud mwy o ddefnydd o'i bwerau i ymrwymo i gytundebau rheoli adran 16, nid yn unig er mwyn gwarchod nodweddion hysbysedig presennol ond hefyd er mwyn gwella gwerth safle o ran bioamrywiaeth drwy ddulliau rheoli cadarnhaol.**

**Argymhelliad 12: Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru wneud mwy o ddefnydd o'i bwerau i ymrwymo i gytundebau rheoli adran 16 â thirfeddianwyr y tu allan i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Lle bo'n briodol, gellid defnyddio cytundebau o'r fath i sicrhau y cydymffurfir ag amodau cynllunio.**

**Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ar frys i ddiwygio Nodyn Cyngor Technegol 5 Cynllunio a Chadwraeth Natur, a ddylai ddatgan yn glir na cheir hierarchaeth o safleoedd gwarchodedig.**

*Gorfodi*

**Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru fynnu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi cofrestr o gamau gorfodi.**

**Argymhelliad 15: Yn ystod tymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio pwerau mynediad Cyfoeth Naturiol Cymru dan adran 51 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad er mwyn ei alluogi i fynd ar dir i gyflawni gwaith rheoli a/neu adfer gofynnol a'i alluogi i adennill cost y gwaith hwnnw lle bo modd.**

**Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ychwanegu darpariaeth yn y ddeddfwriaeth er mwyn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i adennill costau ymateb i ddigwyddiadau ar safleoedd gwarchodedig, sy'n debyg i'r egwyddor 'y sawl sy'n llygru sy'n talu' ar gyfer troseddau'n ymwneud â llygredd dŵr dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991.**

**Argymhelliad 17: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried diwygio Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010 er mwyn cynnwys troseddau dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, nid yn lleiaf oherwydd y byddai hynny'n rhoi pŵer i Cyfoeth Naturiol Cymru ofyn am orchymyn adfer er mwyn ymateb i drosedd sy'n achosi difrod i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.**

*Rheoli addasol*

**Argymhelliad 18: Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu rhaglen ar gyfer asesu cyfraniad safleoedd gwarchodedig fel coridorau mewn rhwydwaith cysylltiedig ehangach o dir sy'n cyfrannu at adfer natur. Dylai'r rhaglen honno gael ei harwain gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Dylai'r**

**rhaglen gynnwys defnyddio technolegau newydd. Dylai cyrff trydydd parti gael eu hannog i gymryd rhan lle bo hynny'n briodol.**

**Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cychwyn adolygiad strategol o ddynodiadau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru er mwyn sicrhau bod yr hysbysiadau'n adlewyrchu yn gywir y potensial i'r safle gyfrannu at adfer natur, o ran y nodweddion sydd wedi'u cynnwys ac o ran arwynebedd y tir sydd dan sylw. Os nodir bod angen rhagor o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, dylai'r broses o ddewis safleoedd ystyried yn bennaf yr angen am gydlyniad ecolegol.**

**Argymhelliad 20: Dylai Llywodraeth Cymru, gan gydweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru, gymryd camau i sicrhau bod y broses o ddewis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cael ei defnyddio fel bod mwy o bwys yn cael ei roi ar yr angen am gydlyniad ecolegol, drwy ystyried sut y mae safle penodol yn gweithredu yn yr amgylchedd ehangach. Dylai gwerth posibl safleoedd, na fyddent fel arall yn bodloni'r meini prawf dewis efallai, gael ei ystyried am yr un rhesymau.**

## Tabl o acronymau

| | |
|---|---|
| AIDAC | Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |

## 1. Cyflwyniad

Yn ystod y 75 mlynedd diwethaf, safleoedd gwarchodedig fu'r prif ddull o warchod bioamrywiaeth. O blith y mathau niferus o ddynodiadau ardaloedd gwarchodedig statudol sydd ar gael yng Nghymru, y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sydd flaenaf. Os yw safle'n cael ei hysbysu yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, mae'n golygu bod cadwraeth y safle'n cael ei hystyried mewn penderfyniadau cynllunio. Mae hefyd yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i osod cyfyngiadau ar ddefnyddio'r tir ac i ymrwymo i gytundebau rheoli â deiliaid tir. Mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig tirol ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig hefyd yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ond mae ganddynt warchodaeth ychwanegol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau rhestredig.

Mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru wedi'u disgrifio fel trysorau mwyaf gwerthfawr bywyd gwyllt Cymru, oherwydd cânt eu dewis gan mai nhw yw'r gorau o'u math. Yn anffodus, nid ydynt bob amser yn cael y sylw disgwyliedig, o ystyried eu bod yn cael statws mor anrhydeddus.

Yn ystod haf 2022, cafodd Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC) ddau gyflwyniad am y modd y caiff safleoedd gwarchodedig eu rheoli a'u gwarchod yng Nghymru. Roedd a wnelont yn benodol â'r diffyg gwybodaeth am statws o ran cadwraeth Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Nododd Prosiect Gwerthuso Gwaelodlin 2020[1] Cyfoeth Naturiol Cymru i asesu ansawdd pob safle gwarchodedig fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi methu â phennu cyflwr tua hanner nodweddion pob safle (er enghraifft, ansawdd cynefinoedd neu nifer y rhywogaethau) oherwydd tystiolaeth annigonol. O blith y nodweddion y bu modd iddo eu hasesu, roedd 20 y cant mewn cyflwr ffafriol, roedd 30 y cant mewn cyflwr anffafriol, ac nid oedd 50 y cant mewn sefyllfa a ddymunid. Roedd y cyflwyniadau'n honni bod llawer o safleoedd wedi'u difrodi ac wedi dirywio; nad oedd safleoedd yn cael eu rheoli'n briodol na'u gwarchod; a bod natur yn parhau i ddirywio yng Nghymru. Roedd un cyflwynydd

[1] https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/protected-sites-baseline-assessment-2020/?lang=cy

hefyd o'r farn nad oedd y gyfres o bwerau sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn gwarchod safleoedd gwarchodedig tirol a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n briodol, yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial.

Mewn ymateb i'r cyflwyniadau hyn, penderfynodd AIDAC ymchwilio ymhellach gyda'r bwriad o lunio adroddiad i Weinidogion Cymru, a fyddai:

- yn asesu a yw'r fframwaith cyfreithiol presennol yn gweithio'n iawn;
- yn nodi meysydd lle nad yw'r warchodaeth gyfreithiol bresennol efallai'n esgor ar y manteision a fwriedir;
- yn nodi bylchau posibl yn y ddeddfwriaeth gyfredol; ac
- yn nodi'r ffactorau sy'n ein rhwystro rhag gweithredu'r ddeddfwriaeth yn ymarferol.

Mae'r adroddiad yn dechrau â throsolwg o'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y gyfres o ddynodiadau safleoedd gwarchodedig sydd ar gael yng Nghymru, cyn troi at fanylion penodol y gyfraith sy'n ymwneud â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Yna, ceir dadansoddiad o'r dystiolaeth a gawsom ynghyd â gwybodaeth a gafwyd gan randdeiliaid a thrwy ymchwil ehangach i'r llenyddiaeth berthnasol a oedd yn cynnwys datblygiadau diweddar o ran polisi. Rydym yn cloi drwy ddatgan ein casgliadau a'n hargymhellion.

### 1.1 Y dull gweithredu a fabwysiadwyd

I gynorthwyo i gwmpasu'r adroddiad, aeth AIDAC ati i gynnull Fforwm Arbenigwyr yng Ngwarchodfa Natur Ynys-hir ym mis Tachwedd 2022 i drafod pryderon am y modd yr oedd deddfwriaeth ynghylch safleoedd gwarchodedig yng Nghymru yn gweithredu. Yna, cafodd Galwad am Dystiolaeth ei lansio ym mis Rhagfyr 2022.

Roedd yr Alwad am Dystiolaeth yn datgan bwriad AIDAC i gyfyngu cwmpas cychwynnol yr adroddiad i'r dynodiadau y mae gwarchod bioamrywiaeth yn brif ddiben iddynt, sef Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth

Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Nid oedd yn fwriad cynnwys tirweddau gwarchodedig/dynodedig bryd hynny. Er bod rhai o’r cyflwyniadau wedi cyfeirio hefyd at Barthau Cadwraeth Morol, penderfynwyd cyfyngu’r ymchwiliad i safleoedd tirol yn unig.

# 2. Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer safleoedd gwarchodedig yng Nghymru

## 2.1 Cyflwyniad

Mae yna dros 30 o wahanol fathau o ardaloedd gwarchodedig yng Nghymru, sy'n darparu ar gyfer gwarchod bywyd gwyllt a/neu dirwedd, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt statws statudol.[2] Mae'r adran hon yn ystyried hanes y dynodiadau statudol mwyaf arwyddocaol. Mae gan y dynodiadau safleoedd gwarchodedig tirol darddiad gwahanol iawn sy'n adlewyrchu gwybodaeth wyddonol a meddylfryd economaidd-gymdeithasol adeg y cam deddfu. Er bod y fframwaith deddfwriaethol wedi'i ddiwygio ar hyd y blynyddoedd, mae yna wahaniaethau pendant o hyd rhwng y dynodiadau, o ran diben, lefel a chryfder y warchodaeth.

## 2.2 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

Mae gan y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig hanes brith.[3] Dechreuodd yn 1949[4] fel dim byd mwy na hysbysiad i awdurdodau cynllunio o bresenoldeb diddordeb gwyddonol ar safle. Yn 1981[5], cafodd ei drawsnewid gan ddiwygiadau yn y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad a'i droi'n ddynodiad safle gwarchodedig a oedd yn gosod cyfyngiadau ar berchnogion a/neu ddeiliaid[6] tir. Roedd hysbysiad y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn nodi'r nodweddion a oedd yn golygu bod y safle o ddiddordeb arbennig ac yn nodi rhestr o weithrediadau a allai fod yn andwyol, sef gweithrediadau a oedd yn debygol o ddifrodi'r nodweddion hynny. Ar ôl i'r hysbysiad gael ei gadarnhau, y bwriad oedd na fyddai'r deiliad tir yn cyflawni unrhyw un o'r gweithrediadau hynny

---

[2] I weld adolygiad o'r ystod o gategorïau ardaloedd gwarchodedig, gweler Bishop et al 1997 'Protected areas for the future: models from the past' *Journal of Environmental Planning and Management* 40(1) 81-110.

[3] Mae Galbraith C a Stroud D yn darparu llinell amser sy'n dangos cyfnodau allweddol yn esblygiad y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn Lloegr yn *Think Piece on the Effectiveness of Protected Areas in England* Adroddiad Ymchwil Natural England NECR412 (2022). Ar gael yma: https://publications.naturalengland.org.uk/publication/4937362194038784

[4] Dan adran 23 Deddf Parciau Cenedlaethol etc. 1949.

[5] Adran 28 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Cafodd y newid ei wneud er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r DU dan y Confensiwn ar Warchod Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop (Confensiwn Bern) a oedd yn mynnu bod partneriaid yn cymryd camau deddfwriaethol a gweinyddol priodol ac angenrheidiol i sicrhau bod cynefinoedd rhywogaethau gwyllt fflora a ffawna'n cael eu gwarchod.

[6] Fe'u gelwir o hyn ymlaen yn ddeiliaid tir.

heb gydsyniad y Cyngor Gwarchod Natur. Yn ymarferol, fodd bynnag, gwelwyd bod lefel y warchodaeth yr oedd y Ddeddf yn ei rhoi ymhell o fod yn foddhaol am nifer o resymau, a bu'n rhaid ei diwygio er mwyn dileu rhai o'r bylchau a oedd yn galluogi tirfeddianwyr i osgoi gorfod cydymffurfio.[7] Er gwaetha'r newidiadau hynny, roedd y gyfundrefn yn dal i ddibynnu'n helaeth ar gydweithrediad gwirfoddol y tirfeddiannwr tan 2000 pan gafodd newidiadau ysgubol eu gwneud, y bwriedid iddynt wella'r broses hysbysu ac, yn bwysicach na hynny, darparu ar gyfer rheoli safleoedd hysbysedig.[8]

Mewn sawl modd, mae'r fersiwn diwygiedig o'r dynodiad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cynnwys y mesurau cyfreithiol sy'n angenrheidiol i sicrhau bod deiliaid tir yn rheoli eu tir yn unol â'r anghenion rheoli priodol a bod trydydd partïon yn parchu'r dynodiad. Fodd bynnag, fel y nodir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, o safbwynt ymarferol mae'r system ymhell o fod yn berffaith. Dyma'r prif faterion sy'n peri pryder:

- y broses o ddewis safleoedd;
- y broses hysbysu;
- y goblygiadau o ran adnoddau;
- y ffaith bod caniatâd cynllunio'n gallu bod yn bwysicach na diddordeb gwyddonol.

### 2.3 Gwarchodfa Natur

Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Gwarchodfeydd Natur Lleol oedd y dynodiadau safleoedd gwarchodedig cyntaf.[9] Mae diben gwarchodfa natur wedi'i addasu ar hyd y blynyddoedd, ac fe'i diffinnir yn awr fel tir a reolir at ddibenion cadwraeth gyda neu heb ddiben hamdden ychwanegol.[10] Mae cadwraeth yn cynnwys galluogi neu hwyluso

[7] Diwygiadau a wnaed gan adran 2 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Diwygio) 1985.
[8] Mae adran 28J yn rhoi pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru lunio cynllun rheoli ar gyfer Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Os nad yw'r deiliad tir yn cydymffurfio ac os yw'n gwrthod ymrwymo i gytundeb rheoli, mae adran 28K yn darparu y gall Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno hysbysiad rheoli sy'n mynnu bod gwaith penodol yn cael ei gyflawni.
[9] Sefydlwyd dan adrannau 15 a 21 Deddf Parciau Cenedlaethol etc. 1949, yn eu tro.
[10] Diwygiadau a ychwanegwyd gan adran 107 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

adfer neu gynyddu nodweddion sydd o ddiddordeb arbennig.[11] Fel y rhagwelwyd yn wreiddiol, nid oedd Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Dim ond safleoedd a gâi eu rheoli at ddibenion cadwraeth allai gael eu datgan yn Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, a gellid darparu gwarchodaeth bellach os oedd raid drwy is-ddeddfau. Fodd bynnag, mae dros 95 y cant o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol yng Nghymru wedi'i hysbysu bellach yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Caiff y gwaith rheoli ei ddarparu'n uniongyrchol gan Cyfoeth Naturiol Cymru, drwy gytundebau partneriaeth ag ef neu gan gorff cymeradwy. Mae Gwarchodfeydd Natur Lleol yn warchodfeydd natur a sefydlir ac a reolir gan awdurdodau lleol.

### 2.4 Parc Cenedlaethol

Cafodd y dynodiad Parc Cenedlaethol ei greu gan Ddeddf Parciau Cenedlaethol etc. 1949. Roedd ganddo ddau ddiben, sef gwarchod a gwella harddwch naturiol ardaloedd helaeth o gefn gwlad, gan hybu mwynhad y cyhoedd o'r ardaloedd hynny a rhoi cyfleoedd i hamddena yn yr awyr agored. Cafodd cafeat ynghylch y ddau ddiben hyn ei ychwanegu gan Ddeddf Cefn Gwlad 1968, a oedd yn darparu mai cadwraeth ddylai gael blaenoriaeth pan nad oedd modd cysoni'r diben a oedd yn ymwneud â mwynhad â'r diben a oedd yn ymwneud â chadwraeth. Roedd y Ddeddf hefyd yn ymestyn y diben a oedd yn ymwneud â chadwraeth fel ei fod yn cynnwys gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol baratoi a chyhoeddi Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol sy'n egluro blaenoriaethau ar gyfer rheoli'r ardal yn y dyfodol. Yng Nghymru, rhaid i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol roi sylw i'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ac i'r Datganiadau Ardaloedd perthnasol.

### 2.5 Dynodiadau cadwraeth Ewropeaidd

Dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewrop, rhaid i aelod-wladwriaethau gyflwyno cynigion ynghylch Ardaloedd Cadwraeth Arbennig er mwyn cyfrannu'n gymesur i rwydwaith o

[11] Darpariaeth a gyflwynwyd gan Reoliad 25 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) 2012 OS 2012/1927.

safleoedd sy'n cynnal cynefinoedd a/neu rywogaethau rhestredig o bwys Ewropeaidd (Natura 2000). Rhaid i aelod-wladwriaethau gymryd camau i atal cynefinoedd rhag dirywio ac atal unrhyw darfu ar rywogaethau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Rhaid i unrhyw gynllun neu brosiect nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gwaith rheoli safle neu nad yw'n angenrheidiol ar gyfer gwaith o'r fath, sy'n debygol o gael effaith sylweddol arno naill ai'n unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, fod yn destun asesiad priodol o'i oblygiadau ar gyfer y safle yng ngoleuni amcanion y safle o ran cadwraeth. Dim ond os dangosir na fydd yna unrhyw effaith andwyol ar integriti'r safle y gellir rhoi cymeradwyaeth. Yr unig eithriad yw os yw'r cynllun neu'r prosiect yn gorfod cael ei gyflawni am resymau hanfodol, sef er budd cyhoeddus tra phwysig. Os felly, gall fynd yn ei flaen cyhyd â bod mesurau digolledu'n cael eu cymryd i warchod cydlyniad cyffredinol Natura 2000. Nid yw'r rhesymau hynny wedi'u cyfyngu i bryderon am iechyd pobl a diogelwch y cyhoedd; maent hefyd yn cynnwys rhesymau eraill o natur gymdeithasol neu economaidd. Roedd y Gyfarwyddeb yn diwygio'r Gyfarwyddeb Adar fel bod yr un eithriadau ehangach hyn yn cael eu caniatáu yng nghyswllt Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Os ceir cynefinoedd â blaenoriaeth, y mae'r Gyfarwyddeb yn eu diffinio fel rhai sydd mewn perygl o ddiflannu, nid yw'r eithriad cymdeithasol ac economaidd yn berthnasol.

Mae darpariaethau ar gyfer gwarchod Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau fel y'u diwygiwyd ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE).[12] Yn gyffredinol, caiff Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig tirol eu hysbysu'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac o leiaf am y tro maent hefyd yn mwynhau gwarchodaeth drwy broses yr asesiad priodol.

Yn awr, mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn rhan o Rwydwaith Safleoedd Cenedlaethol y DU.[13] Er nad ydynt bellach yn rhan o Natura 2000, maent yn rhan o'r Rhwydwaith Emrallt o Ardaloedd o Ddiddordeb

[12] Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 OS 2017/1012 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 OS 2019/579.
[13] I gael crynodeb o'r safleoedd sydd yn y rhwydwaith, gweler https://hub.jncc.gov.uk/assets/a3d9da1e-dedc-4539-a574-84287636c898.

Arbennig o ran Cadwraeth, a sefydlwyd dan Gonfensiwn Bern. Amcan y rhwydwaith hwnnw yw sicrhau parhad hirdymor y rhywogaethau a'r cynefinoedd y mae arnynt angen mesurau gwarchod penodol dan y Confensiwn.[14]

### 2.6 Safleoedd Ramsar

Mae'r DU yn Barti Contractio i Gonfensiwn Ramsar.[15] Gwlyptiroedd o bwys rhyngwladol yw safleoedd Ramsar, sydd wedi'u dynodi oherwydd eu bod yn cynnwys mathau cynrychiadol, prin neu unigryw o wlyptiroedd neu oherwydd eu gwerth o ran gwarchod bioamrywiaeth. Mae'r rhan fwyaf o safleoedd Ramsar y DU wedi'u hysbysu yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi cyhoeddi datganiadau polisi ynghylch safleoedd Ramsar, sy'n rhoi iddynt yr un lefel o warchodaeth ag a roddir i Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, ac mewn gwirionedd mae llawer ohonynt wedi'u dynodi yn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.

[14] I gael rhagor o wybodaeth, gweler https://www.coe.int/en/web/bern-convention/emerald-network.
[15] Confensiwn ar Wlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol, yn enwedig Cynefinoedd Adar Dŵr.

## 3 Cyfraith a pholisi cynllunio

Nid yw dynodi safle'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yn Ardal Cadwraeth Arbennig neu'n Ardal Gwarchodaeth Arbennig yn gwarantu'n awtomatig na fydd y safle hwnnw'n cael ei ddifrodi gan waith datblygu yn y dyfodol. Mae cydsyniad cynllunio'n golygu nad oes angen i ddeiliad tir ofyn am ganiatâd i gyflawni gweithgareddau andwyol. Yn achos Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi caniatâd cynllunio'n cael ei wneud yng ngoleuni gwybodaeth am y safle dan sylw. Yn achos Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, ceir proses fwy beichus ar gyfer cael cydsyniad, a allai arwain at wrthod rhoi cydsyniad neu at roi cydsyniad yn amodol ar fesurau digolledu.

### 3.1 Polisi Cynllunio Cymru

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn egluro polisïau Llywodraeth Cymru ynghylch safleoedd gwarchodedig.[16] Mae rhifyn diweddaraf y polisi, sef rhifyn 12, yn rhoi llawer o bwys ar yr angen i osgoi difrodi safleoedd gwarchodedig, sy'n adlewyrchu'r sylw mwy manwl a roddir i'r angen i ymdrin â'r argyfwng bioamrywiaeth.

O ran Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, mae adran 28G y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn rhoi dyletswydd ar bob corff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau cynllunio, i gymryd camau rhesymol sy'n gyson â chyflawni eu swyddogaethau'n briodol er mwyn hybu'r gwaith o warchod a gwella'r nodweddion y cafodd Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ei hysbysu o'u herwydd.

Pwysleisir y ffaith bod difrod i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gallu cael ei achosi gan waith datblygu y tu mewn iddo, wrth ei ymyl neu hyd yn oed rywfaint o bellter oddi wrtho. Mae'n ddatganiad pwysig o gofio bod y polisi'n mynd yn ei flaen i ddatgan bod yna ragdybiaeth yn erbyn unrhyw waith datblygu mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, nad yw'n angenrheidiol i reoli'r safle, a bod yna

[16] Polisi Cynllunio Cymru 12, paragraffau 6.4.2 – 6.4.31. Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-07/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-12.pdf.

ragdybiaeth hefyd yn erbyn gwaith datblygu nad yw y tu mewn i'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ond sy'n debygol o'i ddifrodi.

Mae polisi Polisi Cynllunio Cymru ynghylch Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn ailadrodd y gofynion a eglurir yn y Rheoliadau Cynefinoedd, ac mae hefyd yn gwneud y pwynt y dylai safleoedd Ramsar gael eu trin fel pe bai'r Rheoliadau yn berthnasol iddynt.

## 3.2 Nodyn Cyngor Technegol 5 Cynllunio a Chadwraeth Natur

Diben Nodiadau Cyngor Technegol yw ategu Polisi Cynllunio Cymru. Mae Nodyn Cyngor Technegol 5[17] yn nodi gwybodaeth am safleoedd gwarchodedig yng Nghymru ac yn esbonio'r polisi y mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw iddo wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio unigol. Yn anffodus, nid yw wedi'i ddiweddaru ers 2009 ac mae'n cyfeirio at rifyn 2 Polisi Cynllunio Cymru, a gyhoeddwyd yn 2002.

[17] Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-5-cynllunio-chadwraeth-natur.

## 4 Statws safleoedd gwarchodedig yng Nghymru

Ceir dros 1000 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru, sy'n gorchuddio tua 12 y cant o'r tir. Ceir 95 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a 21 o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yng Nghymru, sy'n cynnwys safleoedd morol a thrawsffiniol.

Diben Asesiad Gwerthuso Gwaelodlin 2020[18] Cyfoeth Naturiol Cymru oedd asesu ansawdd y sylfaen dystiolaeth ynghylch safleoedd gwarchodedig a nodi iechyd cymharol y rhywogaethau a'r cynefinoedd allweddol. Hwn oedd y tro cyntaf i ymarfer gael ei gynnal ar y raddfa hon ers 2003. Bu'r adolygiad yn canolbwyntio ar fonitro nodweddion ar safleoedd gwarchodedig tirol a safleoedd gwarchodedig dŵr croyw.

Cafodd y dystiolaeth ynghylch pob nodwedd ei hadolygu a, lle bo modd, rhoddwyd categori dangosol asesu cyflwr iddi. Dangosodd y canlyniadau fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru dystiolaeth annigonol ar hyn o bryd i bennu cyflwr tua hanner y nodweddion ar y safleoedd hyn (barnwyd bod eu cyflwr yn anhysbys). O blith y nodweddion a aseswyd, roedd sefyllfa eu cyflwr fel a ganlyn:

- nid oedd 50 y cant mewn sefyllfa a ddymunid
- roedd 30 y cant mewn cyflwr anffafriol
- roedd 20 y cant mewn cyflwr ffafriol.

Mae asesiad o sefyllfa byd natur yng Nghymru wedi'i gynnal ers 2013 gan gyrff anllywodraethol. Mae eu hadroddiad diweddaraf ar sefyllfa byd natur[19] yn datgan bod 18 y cant o rywogaethau (663 allan o 3897) mewn perygl o ddiflannu. At hynny, gwelwyd 20 y cant o ostyngiad ers 1994 yn helaethrwydd 380 o rywogaethau tirol a rhywogaethau dŵr croyw sydd wedi'u monitro yn ofalus yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae dosbarthiad rhywogaethau wedi newid hefyd. Gwelwyd lleihad yn nosbarthiad 42 y cant o blanhigion blodeuol, ac ar yr un pryd gwelwyd cynnydd yn nosbarthiad 40 y cant o rai gwahanol.

[18] Gweler nodyn 1 uchod.
[19] State of Nature Wales 2023 TP26053-SoN-Wales-summary-report-v10.pdf

## 5 Monitro safleoedd gwarchodedig

Roedd y modd y caiff safleoedd gwarchodedig eu monitro yn un o'r agweddau ar eu rheoli y bu AIDAC yn ymchwilio iddynt. Mae'r adran hon yn egluro'r gofynion ar gyfer gwaith monitro a'r modd y caiff ei gyflawni, ac mae'n symud ymlaen wedyn i ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd ynghylch y pwnc hwn.

### 5.1 Monitro Safonau Cyffredin

Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur sy'n arwain y gwaith o adnabod safonau ar gyfer monitro safleoedd gwarchodedig, yn unol â'i ddyletswydd statudol i:

> sefydlu safonau cyffredin ledled y Deyrnas Unedig ar gyfer monitro cadwraeth natur ac ar gyfer ymchwilio i gadwraeth natur a dadansoddi'r wybodaeth a geir yn sgil hynny.[20]

Barnwyd bod dull cyffredin o asesu cyflwr nodweddion yn angenrheidiol er mwyn gallu cymharu ac er mwyn hwyluso crynhoi asesiadau o gyflwr ar draws ardaloedd gwarchodedig i ddarparu asesiadau ar lefel gwledydd cyfan ac ar lefel y DU. Mae hynny'n ofynnol at ddibenion adrodd, er enghraifft yng nghyswllt asesiadau gwledydd, Dangosyddion Bioamrywiaeth y DU, rhwymedigaethau rhyngwladol a'r gwaith o asesu cynnydd tuag at dargedau sy'n amrywio o rai lleol i rai byd-eang.

Cafodd y dull Monitro Safonau Cyffredin ei ddatblygu gan weithgor rhyngasiantaethol a oedd yn cynnwys y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a chyrff cadwraeth natur y pedair gwlad, er mwyn darparu dull wedi'i gytuno o asesu cyflwr ar safleoedd statudol sydd wedi'u dynodi drwy ddeddfwriaeth y DU a chytundebau rhyngwladol. Mae'r dull Monitro Safonau Cyffredin wedi'i ddefnyddio ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a safleoedd Ramsar.

[20] Adran 34 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

Cafodd y datganiad cyntaf ynghylch Monitro Safonau Cyffredin ei wneud gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn 1998, a daeth y system yn weithredol yn 1999. Yn wreiddiol, roedd y safonau'n cynnwys gofyniad a oedd yn mynnu y dylid adrodd ynghylch cyflwr pob Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig bob chwe blynedd, ac y dylid llunio adroddiad interim rhwng yr adroddiadau llawn. Cafodd y datganiad gwreiddiol ynghylch Monitro Safonau Cyffredin ei ddisodli yn 2019 a'i ddiwygio yn 2022.[21]

Mae'r Safonau Cyffredin wedi'u rhannu i'r categorïau canlynol a ddefnyddir i asesu nodweddion gwarchodedig mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig:

**Ffafriol:** Mae'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cael ei warchod yn ddigonol ac mae'n bodloni ei amcanion cadwraeth, ond mae yna le i wella'r safleoedd hyn.

**Anffafriol ond yn ymadfer:** Nid yw'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn bodloni'r amcanion cadwraeth yn llawn eto ond mae'r holl fesurau rheoli angenrheidiol ar waith. Cyhyd â bod y gwaith adfer yn cael ei gynnal, bydd y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cyrraedd cyflwr ffafriol gydag amser.

**Anffafriol heb unrhyw newid:** Nid yw'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn bodloni'r amcanion cadwraeth ac ni fydd yn cyrraedd cyflwr ffafriol oni bai bod pwysau allanol neu'r modd y caiff y safle ei reoli yn newid. Po hiraf y bydd y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn parhau yn y cyflwr gwael hwn, yr anoddaf fydd hi'n gyffredinol i sicrhau adferiad.

**Anffafriol ac yn dirywio:** Nid yw'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn bodloni'r amcanion cadwraeth ac ni fydd yn cyrraedd cyflwr ffafriol oni bai bod pwysau allanol neu'r modd y caiff y safle ei reoli yn newid. Mae cyflwr y safle'n gwaethygu fwyfwy.

**Wedi'i ddinistrio yn rhannol:** Mae difrod parhaol wedi digwydd i ran o ddiddordeb arbennig o ran cadwraeth Safle o Ddiddordeb Gwyddonol

[21] https://jncc.gov.uk/our-work/common-standards-monitoring/.

Arbennig, a hynny i'r graddau bod y rhan honno wedi'i cholli am byth ac na fydd byth yn ymadfer. Mae'n bosibl y bydd angen gwaith cadwraeth o hyd ar y diddordeb sy'n weddill o ran y tir.

**Wedi'i ddinistrio:** Mae difrod parhaol wedi digwydd i holl ddiddordeb arbennig o ran cadwraeth y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a hynny i'r graddau ei fod wedi'i golli am byth. Ni fydd y tir byth yn ymadfer.

Mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi cyhoeddi Canllaw i Fonitro Safonau Cyffredin ar gyfer pob un o'r gwahanol fathau penodol o gynefinoedd a'r nodweddion perthnasol y byddant fel rheol wedi'u dynodi yn safleoedd gwarchodedig o'u herwydd.[22]

Adroddodd adroddiad yr adolygiad chwe blynedd cyntaf o'r dull Monitro Safonau Cyffredin[23] ynghylch 57 y cant o'r holl nodweddion mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Er bod hynny'n golygu nad adroddwyd ynghylch pob Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, hwn oedd yr arolwg mwyaf o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a oedd wedi'i gynnal ar y pryd. Yn ôl y gofyniad i gynnal adolygiad bob chwe blynedd, dylai adolygiadau pellach fod wedi'u cynnal yn 2011 ac yn 2017, ond ni ddigwyddodd hynny. Mae'n drawiadol nad yw fersiwn presennol y dull Monitro Safonau Cyffredin bellach yn cynnwys darpariaethau manwl ynghylch trefniadau adrodd, ac nad yw'n ofynnol mwyach cynnal adolygiad bob chwe blynedd.

## 5.2 Dyletswydd statudol i adrodd

### 5.2.1 Safleoedd gwarchodedig

Mae'r Gyfarwyddeb Adar yn mynnu bod aelod-wladwriaethau yn adrodd bob chwe blynedd ynghylch y modd y caiff mesurau eu gweithredu.[24] Canlyniadau'r dull Monitro Safonau Cyffredin yng nghyswllt Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig oedd y sail ar gyfer asesiad ledled y DU o statws a thueddiadau adar y caiff y safleoedd hynny eu

[22] https://jncc.gov.uk/our-work/common-standards-monitoring-guidance/.

[23] https://hub.jncc.gov.uk/assets/15967de5-9da9-4d1f-b067-a8e76549bdca.

[24] Erthygl 12 y Gyfarwyddeb Adar fel y'i diwygiwyd.

gwarchod o'u herwydd. Cafodd yr adroddiad olaf i'r UE ei gyflwyno yn 2019.[25] At hynny, cafwyd tri adolygiad o rwydwaith y DU o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, a gynhaliwyd bob degawd yn fras, a oedd yn ymdrin yn eu tro â data o'r 1980au, yr 1990au a'r 2000au.[26]

Mae gofynion tebyg ar gyfer adrodd yn berthnasol i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig[27] ac, unwaith eto, caiff y dull Monitro Safonau Cyffredin ei ddefnyddio i lunio'r asesiadau o gyflwr cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig.[28] Rhaid o hyd i adroddiadau gael eu cyhoeddi bob chwe blynedd yn dilyn Brexit.[29]

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd i sicrhau bod statws cynefinoedd a rhywogaethau o ran cadwraeth yn cael ei oruchwylio fel y bo raid yn barhaus. Cafodd dull strategol o gyflawni'r oruchwyliaeth honno ei lunio gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur gan ymgynghori â'r cyrff cadwraeth natur datganoledig.[30] Mae dyletswydd Cyfoeth Naturiol Cymru o ran goruchwylio Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn mynnu ei fod:

a) yn asesu sut ac i ba raddau y dylid goruchwylio statws o ran cadwraeth pob math perthnasol o gynefin a phob rhywogaeth berthnasol, gan ystyried:
    i. a yw cynefin neu rywogaeth yn fath o gynefin naturiol â blaenoriaeth neu'n rhywogaeth â blaenoriaeth; a
    ii. statws y cynefin neu'r rhywogaeth o ran cadwraeth; a

---

[25] Mae'r adroddiadau ar gael yma: https://jncc.gov.uk/our-work/article-12-and-17-reports/.
[26] https://hub.jncc.gov.uk/assets/d1b21876-d5a4-42b9-9505-4c399fe47d7e. Mae AIDAC ynghyd â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a Safonau Amgylchedd yr Alban wrthi'n ymchwilio i gyflwyniad sy'n honni bod yna fethiant i weithredu'n llawn ganlyniad yr adolygiadau hyn, na fyddant felly'n cael eu hystyried ymhellach yn yr adroddiad hwn.
[27] Erthygl 17 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.
[28] Cafodd 4[ydd] Adroddiad Erthygl 17 y DU ei gyflwyno yn 2019 ac mae ar gael yma: https://jncc.gov.uk/our-work/article-12-and-17-reports/.
[29] Rheoliad (9A) Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (2017/1012) a fewnosodwyd gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019/579.
[30] *The UK Terrestrial Biodiversity Surveillance Strategy: UK Habitats Directive Surveillance Approach*. Yn 2020, cyflwynodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur strategaeth wedi'i diweddaru yn lle'r strategaeth hon, sef *Terrestrial Biodiversity Evidence Strategy*. I gael rhagor o fanylion, gweler: https://jncc.gov.uk/our-work/the-uk-terrestrial-biodiversity-surveillance-strategy/.

b) yn cynghori'r awdurdod priodol (Gweinidogion Cymru) ynghylch yr angen am oruchwyliaeth o'r fath.[31]

Caiff y ddyletswydd statudol hon ei diffinio gan statws cynefinoedd a rhywogaethau o ran cadwraeth ar draws eu holl gynefin, ac nid yw'n ddyletswydd sy'n gysylltiedig yn benodol â safleoedd gwarchodedig.[32] At hynny, nid yw'r ddyletswydd i oruchwylio'n gyfystyr â dyletswydd i fonitro graddau neu gyflwr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.

Ni cheir unrhyw ofyniad cyfreithiol tebyg i fonitro statws Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac adrodd yn ei gylch. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau i fynd i mewn i dir i asesu cyflwr nodweddion hysbysedig[33] ond nid oes ganddo swyddogaeth statudol benodol i fonitro Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'n cyflawni'r dull Monitro Safonau Cyffredin yng nghyswllt safleoedd gwarchodedig yn unol ag arweiniad a ddarperir gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ond nid oes rheidrwydd arno i wneud hynny.[34]

### 5.2.2 Cyflwr adnoddau naturiol

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i adrodd ynghylch cyflwr adnoddau naturiol yng Nghymru, gan gynnwys y mathau pwysicaf o gynefinoedd.[35] Unwaith eto, fodd bynnag, nid yw'n mynnu yn benodol bod safleoedd gwarchodedig yn cael eu monitro. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gwrs gynnal asesiadau sy'n berthnasol i'w waith, ac mae wedi gwneud hynny wrth ddarparu'r asesiad gwerthuso gwaelodlin diweddar.

[31] Rheoliad 50(4) Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau.
[32] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
[33] Adran 51 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.
[34] Gweler nodyn 23 uchod. Fodd bynnag, mae cynnal rhyw fath o asesiad o safle yn ofyniad ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.
[35] Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

## 6 Dadansoddi tystiolaeth – Cyflwyniad

Cafodd Fforwm Arbenigwyr ei gynnal ym mis Tachwedd 2022 er mwyn meithrin dealltwriaeth gychwynnol o'r materion a oedd yn ymwneud â chwmpas yr ymchwiliad.[36] Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ystyried y pwyntiau canlynol:

- y rhesymau pam y canfuwyd nad oedd 80 y cant o'r nodweddion a aseswyd yn Asesiad Gwerthuso Gwaelodlin 2020 mewn cyflwr ffafriol;
- a oes yna newidiadau deddfwriaethol y gellid eu gwneud i wella cyflwr safleoedd gwarchodedig? Os oes, pa newidiadau?
- nid oedd Asesiad Gwerthuso Gwaelodlin 2020 yn medru pennu cyflwr tua hanner nodweddion y safleoedd, oherwydd tystiolaeth annigonol. A fyddai unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn gwella'r gallu i bennu cyflwr safleoedd gwarchodedig? Os felly, pa newidiadau?
- a oes angen gwella'r canllawiau neu'r prosesau ar gyfer safleoedd gwarchodedig? Os felly, sut?
- a oes angen gwella trefniadau gorfodi? Os felly, sut?

Yn dilyn y Fforwm Arbenigwyr a gan adeiladu ar adroddiad y drafodaeth honno, cafodd Galwad am Dystiolaeth ei chyhoeddi ar 9 Rhagfyr 2022 a gofynnwyd am ymatebion erbyn 20 Ionawr 2023.[37] Roedd yr Alwad yn gofyn am safbwyntiau a thystiolaeth ynghylch y canlynol:

- gwaith monitro safleoedd gwarchodedig;
- targedau ar gyfer safleoedd gwarchodedig;
- newidiadau posibl i'r fframwaith cyfreithiol presennol;
- rhwystrau i gadarnhau cytundebau rheoli;
- systemau gorfodi; a
- dull addasol o reoli safleoedd.

[36] Mae papur briffio ar gyfer y Fforwm Arbenigwyr a chofnod o drafodaethau yn y Fforwm i'w gweld yn Atodiadau 2 a 3.
[37] Mae llythyr AIDAC yn cyhoeddi'r Alwad am Dystiolaeth i'w weld yn Atodiad 4.

Cafodd AIDAC dystiolaeth gan yr ymatebwyr canlynol:

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Coed Cadw
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU
- Cymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon
- Cyswllt Amgylchedd Cymru
- Plantlife Cymru
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
- Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
- Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
- Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur
- Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
- Ymddiriedolaethau Natur Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Roedd fformat yr ymatebion yn amrywio. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn rhoi sylw i'r cwestiynau uchod gyda neu heb sylwadau pellach, ond roedd rhai ohonynt wedi'u cyfyngu i gwmpas arfaethedig yr adroddiad, fel yr oedd wedi'i nodi yn yr Alwad am Dystiolaeth, sef:

- asesu a yw'r fframwaith cyfreithiol presennol yn gweithio'n iawn;
- nodi meysydd lle nad yw'r warchodaeth gyfreithiol bresennol efallai'n esgor ar y manteision a fwriedir;
- nodi bylchau posibl yn y ddeddfwriaeth bresennol; a
- nodi'r ffactorau sy'n ein rhwystro rhag gweithredu'r ddeddfwriaeth yn ymarferol.

Mae'r holl dystiolaeth a gafwyd wedi'i hystyried yn y dadansoddiad hwn ond mae wedi'i threfnu yn adrannau sy'n rhoi sylw i bob un o'r cwestiynau a ofynnwyd.

Roedd yr Alwad am Dystiolaeth wedi gofyn am ymatebion ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Roedd rhai o'r ymatebion yn ein hannog i ystyried dynodiadau statudol eraill hefyd, yn enwedig Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Gwarchodfeydd Natur Lleol ynghyd â safleoedd bywyd gwyllt lleol anstatudol neu Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur. Felly, cyfeirir at y rheini hefyd yn yr adroddiad. Er na roddir ystyriaeth fanwl i warchod tirweddau, sonnir hefyd am rôl y dynodiad Parc Cenedlaethol o ran gwarchod bioamrywiaeth.

# 7 Monitro

Dyma'r cwestiwn a ofynnwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth:

*A ddylid gwneud monitro safleoedd gwarchodedig yn ddyletswydd statudol? Os felly, gan fod adnoddau'n gyfyngedig, beth yw'r ffordd orau o ennyn cyfranogiad gan chwaraewyr allweddol mewn strategaeth fonitro integredig, a hybu ymagwedd 'tîm Cymru'? Ai canolbwyntio ar nodweddion monitro yw'r dull cywir, neu a ddylid rhoi mwy o sylw i ddulliau seiliedig ar safle a methodoleg fwy cytbwys?*

## 7.1 Trosolwg

Yn gryno, roedd y dystiolaeth a gafwyd:

- yn dangos cefnogaeth gref, ond nid gan bawb, dros gyflwyno dyletswydd statudol i fonitro safleoedd gwarchodedig;
- yn dangos safbwyntiau gwahanol ar fanteision ac anfanteision cymharol monitro ar sail nodweddion a monitro ar sail safleoedd;
- yn dangos cefnogaeth dros gael Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad arweiniol ar gyfer monitro, ond gydag awgrymiadau y dylid ymgysylltu'n ehangach â chyrff eraill a/neu ddeiliaid tir;
- yn mynegi pryderon am yr adnoddau sy'n ofynnol i fonitro;
- yn cyfeirio at ddefnyddio technolegau newydd a gweithio mewn partneriaeth wrth fonitro; ac
- yn cynnwys sylwadau ar yr angen am ddulliau integredig o fonitro ac adrodd, a'r posibiliadau o ran hynny.

## 7.2 Dyletswydd statudol i fonitro safleoedd gwarchodedig

Roedd yna lawer o gefnogaeth dros gyflwyno dyletswydd statudol i fonitro safleoedd.[38] Fodd bynnag, roedd gan rai ymatebwyr amheuon. Nodwyd, o ran y Prosiect

[38] Trafodaeth yn y Fforwm Arbenigwyr; tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ymddiriedolaethau Natur Cymru, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Cymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon, Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol, Coed Cadw, Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gwerthuso Gwaelodlin, bod diffyg adnoddau o ran staff wedi'i roi fel rheswm dros fod â thystiolaeth annigonol i asesu statws safleoedd mewn 40 y cant o achosion.[39] Ar y naill law, teimlid na fyddai monitro statudol yn llwyddiannus oni bai bod adnoddau digonol ar gael iddo gael ei weithredu'n gywir.[40] Ar y llaw arall, awgrymodd eraill fod diffyg gofynion monitro statudol yn arwain at neilltuo adnoddau annigonol i fonitro (gan gynnwys pobl).[41]

Nid oedd yr undebau amaethwyr[42] o blaid monitro statudol. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn teimlo, o ystyried yr angen i adfer cynefinoedd ar frys, y dylid rhoi blaenoriaeth i weithredu yn hytrach na chynnal arolygon. Roedd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur hefyd yn gwrthwynebu monitro statudol, oherwydd ni fyddai'n galluogi'r hyblygrwydd i ymateb i sefyllfaoedd sy'n codi'n sydyn ac i ddatblygiadau technolegol, yn enwedig gan fod y newid yn yr hinsawdd yn fygythiad parhaus. O ran amseru, awgrymwyd y dylai Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gael eu monitro o leiaf bob pum mlynedd.[43]

Fel opsiwn amgen posibl yn lle dyletswydd statudol i fonitro, nodwyd y gallai fod ffyrdd eraill o sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni gwaith monitro priodol. Er enghraifft, gallai Cyfoeth Naturiol Cymru gael ei ddwyn yn atebol am fonitro cyflwr safleoedd gwarchodedig drwy reoli perfformiad. Nodwyd bod cyflwr safleoedd gwarchodedig wedi'i gynnwys ar un adeg yn y mesurau a gâi eu defnyddio i farnu perfformiad, ond ei fod wedi'i dynnu allan o'r mesurau wedyn.

### 7.3 Dull o fonitro

Roedd yr ymatebion ynghylch y fethodoleg y dylid ei defnyddio i fonitro yn ymdrin â beth y dylid ei fonitro, sut y dylid gwneud hynny, pwy ddylai wneud hynny a beth ddylai'r amserlen fod. Cafodd diben monitro ei drafod yn y Fforwm Arbenigwyr, a nodwyd yr angen i ddeall yn glir beth sy'n cael ei fonitro a pham. Bu'r drafodaeth yn

[39] Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU.
[40] Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol, Cyfoeth Naturiol Cymru.
[41] Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
[42] Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru.
[43] Coed Cadw, Cyswllt Amgylchedd Cymru.

canolbwyntio ar y gwahaniaeth rhwng monitro nodweddion a/neu ystyriaethau ehangach megis cysylltedd, a phwysigrwydd gwneud hynny.

Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod ei ddull presennol o fonitro safleoedd gwarchodedig yn canolbwyntio ar gyflwr nodweddion safleoedd gwarchodedig. Mae ei raglen ar gyfer monitro safleoedd gwarchodedig tirol yng nghyswllt Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn darparu dull cyffyrddiad ysgafn, wedi'i dargedu, o asesu 4000 o nodweddion sy'n cynnwys nodweddion Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. O'r blaen, dim ond 300 o nodweddion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yr oedd y rhaglen yn ymdrin â nhw. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod ei ddull gweithredu'n ei alluogi i dargedu'r adnoddau sydd ar gael yn y modd mwyaf effeithlon, ond cydnabu y bydd o leiaf 70 y cant o rywogaethau a chynefinoedd heb eu monitro o hyd mewn cylch rhaglen bum mlynedd, a hynny oherwydd adnoddau cyfyngedig.

Roedd rhai o'r ymatebion yn cynnwys sylwadau ar y dull Monitro Safonau Cyffredin. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru mai'r dull hwnnw, i bob pwrpas, oedd ei safon ofynnol genedlaethol ar gyfer monitro. Mae'r dull Monitro Safonau Cyffredin yn darparu asesiad o gyflwr y nodweddion unigol ar lefel y safle cyfan. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn credu bod Monitro Safonau Cyffredin yn darparu dull addas o fonitro a all ddarparu safonau ynghylch beth y gellir ei gyflawni'n rhanbarthol. Fodd bynnag, awgrymwyd bod angen cynyddu nifer y lleiniau monitro ar gyfer pob safle.[44] Dywedodd Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru mai gwendid amlwg y dull Monitro Safonau Cyffredin yw bod sylw annigonol yn cael ei roi i ffactorau sy'n dylanwadu, neu a allai ddylanwadu, ar nodwedd. Mae Monitro Safonau Cyffredin yn rhoi darlun sydyn o gyflwr nodwedd ar adeg benodol. At hynny, nododd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar fod angen ystyried graddfa'r monitro o ran lle ac amser, os yw'r nodwedd ddynodedig sydd i'w monitro yn cynnwys rhywogaeth.

[44] Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Ni wnaeth neb a gyfrannodd dystiolaeth i'r adroddiad amau'r angen i fonitro safleoedd gwarchodedig. Mae monitro yn offeryn rheoli pwysig. Fodd bynnag, ymddengys fod yna rywfaint o ddryswch ynghylch diben monitro. Cawsom negeseuon cymysg yn yr ymateb i'n Galwad am Dystiolaeth ynghylch a ddylai'r ymdrech i fonitro ganolbwyntio ar asesu statws nodweddion dynodedig ar safle hysbysedig ynteu a ddylid asesu'n ehangach rôl y safle cyfan yn rhan o rwydwaith. Ar y naill law, roedd yna bryderon na fyddai asesiadau o safleoedd ehangach yn rhoi digon o sylw i'r nodweddion dynodedig – byddai'n debycach i waith goruchwylio na gwaith monitro. Ar y llaw arall, teimlid bod cyfraniad Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i gysylltedd yn un o swyddogaethau hanfodol y rhwydwaith, a ddylai gael ei hasesu.

### 7.3.1 Dull seiliedig ar nodweddion a seiliedig ar safle o fonitro

Nododd nifer o ymatebwyr[45] yn glir mai dull seiliedig ar nodweddion o fonitro safleoedd gwarchodedig yw'r fethodoleg gywir i hybu adferiad natur, sy'n ychwanegu gwerth sylweddol at y rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig ledled Cymru. Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn teimlo na all dulliau seiliedig ar safle, yn absenoldeb gwaith monitro nodweddion, fod yn sail i strategaeth fonitro.[46] Er mwyn i waith rheoli addasol fod yn ymatebol ac yn llwyddiannus, nododd Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru fod dull seiliedig ar nodweddion yn hollbwysig er mwyn rhoi'r ffocws mwyaf priodol i waith rheoli safle. At hynny, nododd yr Ymddiriedolaeth fod y nodwedd yn aml yn gallu cynnwys y safle cyfan. Aeth yn ei blaen i ddatgan, os yw'r prif nodweddion cynefin ar safle mewn cyflwr ffafriol, ei bod wedyn yn ddiogel tybio bod y safle cyffredinol mewn cyflwr ffafriol a'i fod yn cael ei reoli'n gywir. Roedd barn Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn wahanol. O brofiad yr undeb, gellir asesu bod safleoedd a ddynodwyd ar sail amryw nodweddion yn safleoedd sydd mewn cyflwr anffafriol er bod nodweddion eraill mewn cyflwr da. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr

[45] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur.

[46] Er bod y geiriau 'arolygu', 'goruchwylio' a 'monitro' yn cael eu defnyddio fel pe baent yn gyfystyr â'i gilydd mewn iaith pob dydd, nododd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fod gan y gair 'monitro' ystyr penodol. Cafodd 'monitro' ei ddisgrifio fel cyfres o arsylwadau i brofi a yw nodwedd yn cyrraedd safon a bennwyd ymlaen llaw. Roedd hynny'n wahanol i 'arolygu' (sef arsylwadau heb ystyried unrhyw safon) neu 'goruchwylio' (sef cyfres o arolygon).

eraill[47] yn pryderu bod asesu safle ar sail ei nodwedd hysbysedig yn unig yn golygu nad yw cyflwr nodweddion eraill yn cael ei ystyried. Felly, gellid asesu bod safleoedd mewn cyflwr ffafriol er anfantais i'r nodweddion eraill hynny a allai gael eu gwella â rheolaeth addas. Roedd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU yn teimlo bod canolbwyntio, wrth fonitro, ar y nodweddion y cafodd safle ei hysbysu o'u herwydd yn gallu amharu ar y dull mwy holistaidd o reoli safle. Nododd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, er mai dull seiliedig ar nodweddion yw'r fethodoleg fwyaf effeithiol ar gyfer monitro, fod cysylltiad annatod rhwng nodweddion a'r cynefin a nodweddion eraill. Gan gofio hynny, pwysleisiodd y Gymdeithas y ffaith y dylai'r ffactorau hynny gael eu hymgorffori yn amcanion cadwraeth cyffredinol y safle a chyfrannu i'r rhaglen gyffredinol ar gyfer monitro'r safle.

Er bod yr ymatebwyr yn gadarnhaol yn gyffredinol ynghylch y dull seiliedig ar nodweddion o fonitro safle, nododd nifer o ymatebwyr[48] hefyd fod yna rai gwendidau yn y fethodoleg gyffredinol. Nododd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, er ei fod yn deall pam y caiff y dull seiliedig ar nodweddion ei ddefnyddio, ei fod yn gofyn am lawer iawn o adnoddau a'i fod yn aml yn gallu arwain at ddealltwriaeth wedi'i llesteirio o gyflwr cyffredinol safle. Mynegodd y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol y farn y dylai dull seiliedig ar nodweddion fod yn safon ofynnol, ac yn ddelfrydol y dylai gwaith monitro seiliedig ar safle fod yn digwydd hefyd lle bo'n angenrheidiol ac yn berthnasol. Nododd y Gymdeithas hefyd, os yw'r data ar gael, y dylid ystyried ystyriaethau sy'n ymwneud â monitro ar sail tirweddau (e.e. cydnerthedd ecosystemau).

Mynegodd sawl ymatebydd[49] y farn y dylai gwaith monitro seiliedig ar safle gael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau lle mae'n cynnig mantais amlwg dros ddull seiliedig ar nodweddion, neu y dylai gael ei ddefnyddio ar y cyd â dull seiliedig ar nodweddion

---

[47] Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

[48] Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol.

[49] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur.

er mwyn cyflawni'r canlyniad gorau ar gyfer safleoedd gwarchodedig. Roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o'r farn y gallai dull seiliedig ar safle fod yn fwy addas os oes angen darparu asesiad sydyn i wirio bod gwaith rheoli yn gweithredu'n foddhaol. Awgrymodd yr Awdurdod y byddai ailgyflwyno trefniadau Monitro Integriti Safle ar gyfer pob safle efallai'n galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ddefnyddio'r dull Monitro Safonau Cyffredin yn fwy effeithiol. Cafodd hwn ei ddisgrifio fel dull asesu sydyn i wirio bod y rhagnodiadau rheoli a ddymunir ac a gytunwyd ar waith a bod adeiledd ffisegol safle yn addas (yn hytrach na chanolbwyntio ar ganlyniadau ecolegol).

Awgrymwyd bod cofnodi seiliedig ar safle ochr yn ochr â monitro nodweddion yn gallu bod yn ddefnyddiol ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig mawr, os yw nodwedd warchodedig yn ymestyn ar draws sawl deiliadaeth tir. Os caiff data monitro ei gofnodi yng nghyswllt deiliaid tir unigol, mae'n haws nodi ble y mae angen cymryd camau gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fethiannau.[50]

Roedd un ymatebydd yn teimlo'n arbennig o gryf ynghylch cyflwyno protocolau monitro seiliedig ar safle, a dywedodd y byddai cyflwyno rhaglenni monitro penodol i safle yn lle protocolau Monitro Safonau Cyffredin yn fanteisiol am nifer o resymau.[51] Mynegodd y farn bod y fethodoleg Monitro Safonau Cyffredin yn rhy gaeth ac yn atal y broses o asesu safleoedd cymhleth yn gywir. Yn hytrach, awgrymodd fod rhaglenni monitro wedi'u teilwra yn gallu cael eu gweithredu gan dîm monitro presennol Cyfoeth Naturiol Cymru, ac y dylent gael eu gweithredu gan y tîm hwnnw. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod y dull hwn o weithredu'n gofyn am gynnydd cychwynnol mewn adnoddau o ran staff. Aeth yn ei flaen i awgrymu y gallai'r modd y caiff gwaith monitro seiliedig ar safle ei gyflawni ar hyn o bryd gael ei wella gan dargedau penodol i safle, sy'n seiliedig ar holl nodweddion y safle dynodedig, yn hytrach na bod y safle'n cael ei asesu ar sail ei nodwedd bennaf yn unig.

[50] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.
[51] Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Ar y llaw arall, nododd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol nad yw dulliau seiliedig ar safle, yn absenoldeb gwaith monitro nodweddion (sy'n ystyried priodweddau a ffactorau pwysig) yn gallu – drwy ddiffiniad – fod yn sail i strategaeth fonitro. Roedd Plantlife Cymru hefyd yn bryderus iawn ynghylch cefnu ar waith monitro nodweddion, ac roedd yn credu bod corff cryf o dystiolaeth ar gael i ddangos bod dull seiliedig ar nodweddion yn gweithio i warchod rhywogaethau. Nododd hefyd fod angen i'r gwaith o fonitro safleoedd gwarchodedig gael ei gyflawni ar wahanol raddfeydd. Dylai cyflwr nodwedd gael ei fonitro o leiaf ar draws y safle cyfan ac ar lefel pob deiliadaeth tir. Byddai hynny'n nodi'r angen i gyflwyno opsiynau ar y lefel reoli, ac yn pennu cyfrifoldeb am gyflwyno'r opsiynau hynny. Un broblem benodol a nodwyd, oherwydd bod llawer o safleoedd gwarchodedig yn cael eu dynodi ar sail amryw nodweddion, oedd bod asesiad yn nodi bod y safle cyfan mewn cyflwr anffafriol os canfyddir bod un nodwedd yn ddiffygiol. Awgrymwyd, felly, y dylid canolbwyntio yn hytrach ar newid i fand asesu ar gyfer pob nodwedd.

Awgrymodd rhai cyfranogwyr yn y Fforwm Arbenigwyr y dylai'r gwaith o fonitro nodweddion gael ei gyflawni o fewn llain glustogi o amgylch y safle, tra aeth eraill ymhellach ac awgrymu y dylai cysylltedd fod yn ffactor wrth fonitro/goruchwylio. Yn benodol, nodwyd bod yr ymateb i'r argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd yn gofyn am dystiolaeth drwy fonitro er mwyn llywio camau gweithredu ar ystod o raddfeydd gofodol, h.y. ar raddfa safleoedd, rhwydweithiau a rhanbarthau ac ar raddfa genedlaethol.

Cafodd pwysigrwydd technoleg wrth fonitro, gan gynnwys er enghraifft DNA amgylcheddol, Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol, awyrluniau eglur iawn a gwaith monitro o bell gan ddefnyddio delweddau o'r awyr neu o loerennau, ei grybwyll yn y dystiolaeth. [52] Fodd bynnag, teimlid mai'r unig beth y dylai defnyddio datblygiadau digidol ei wneud yw ategu gwaith monitro ar lawr gwlad.[53] Roedd y dulliau ar

---

[52] Awgrymwyd gan Plantlife Cymru a oedd yn teimlo y dylai defnyddio technoleg gael ei gynnwys yn amlwg mewn deddfwriaeth.
[53] Ymddiriedolaethau Natur Cymru. Dywedodd fod awyrluniau'n benodol yn gallu bod yn eithriadol o ddefnyddiol er mwyn gweld ymlediad planhigion, a chyfeiriodd hefyd at y ffaith bod ymgorffori DNA

safleoedd, y cyfeiriwyd atynt, yn cynnwys monitro at ddibenion goruchwyliaeth gymharol, gan ddefnyddio methodolegau safonol a samplu safleoedd mewn modd cynrychiadol.

Roedd Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru yn sylweddoli ei bod yn anochel bod yn rhaid i unrhyw ddull o fonitro neu oruchwylio ddibynnu ar dystiolaeth a gyfyngir gan yr adnoddau sydd ar gael, sy’n cynnwys amser a gwybodaeth wyddonol. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn credu, ar safleoedd sydd wedi’u dynodi oherwydd rhai o’n rhywogaethau pwysicaf ar lefel fyd-eang, bod gwaith monitro trylwyr a drud yn hanfodol er mwyn sicrhau gwarchodaeth barhaus. Fodd bynnag, yn achos y rhan fwyaf o nodweddion, dylai fod yn bosibl mabwysiadu dulliau gweithredu symlach, er enghraifft ymweliadau rheolaidd gan arbenigwr cymwys a phrofiadol, a ddarperir efallai gan un o’r Ymddiriedolaethau Natur neu gyrff anllywodraethol cymwys eraill ond a ariennir gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu’r Llywodraeth.

Roedd nifer o’r ymatebwyr yn teimlo bod yna botensial i gael strategaeth fwy cydgysylltiedig ac iddi fwy o ffocws ar gyfer cwmpasu a chyflawni gwaith cynllunio rheolaeth mewn rhwydweithiau o safleoedd gwarchodedig ar draws Cymru.[54] Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y byddai dull monitro mwy integredig a chydweithredol sy’n seiliedig ar bartneriaeth ehangach ar gyfer adferiad natur a chydnerthedd ecolegol yn hollbwysig er mwyn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau.

Cafodd yr angen am ddull partneriaeth o fonitro ei grybwyll hefyd yn y Fforwm Arbenigwyr. Nodwyd bod dull tîm Cymru gyfan o weithredu wedi’i drafod, ond nid o reidrwydd yng nghyd-destun newid deddfwriaethol. Yn yr Alwad am Dystiolaeth, roedd yna gwestiwn penodol ynghylch y ffordd orau o hwyluso’r fath ddull o fonitro safleoedd gwarchodedig. Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru sylwadau ar awydd gweinidogol am

amgylcheddol yn ddefnyddiol er mwyn penderfynu pa rywogaethau sy’n bresennol mewn cymuned benodol.

[54] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ymddiriedolaethau Natur Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol.

fodel cyflawni Tîm Cymru ar gyfer monitro a chasglu data, a fyddai'n cynnwys ystod o sefydliadau gan gynnwys elusennau a gwirfoddolwyr medrus. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn teimlo y gallai hynny arwain at gymhlethdod pe bai'n gysylltiedig ag unrhyw ddyletswydd statudol. Gwnaeth awgrymu y byddai'n well pe bai dyletswyddau statudol o'r fath yn canolbwyntio ar ofynion i gyhoeddi cynllun monitro sy'n darparu datganiad clir ynghylch cyd-gyfrifoldeb am gyflawni a chydweithio ar draws Cymru a chyhoeddi data sy'n gallu pennu cyflwr.

Roedd yna gonsensws y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru arwain gwaith monitro er mwyn sicrhau cysondeb, integriti, tryloywder ac atebolrwydd mewn arferion. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r gwaith o asesu cyflwr ardaloedd gwarchodedig gael ei gyflawni gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig. Roedd eraill yn teimlo y gallai partneriaid medrus megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar a'r Ymddiriedolaethau Natur helpu i gasglu data monitro cyflwr drwy drefniadau dan gontract/trefniadau ymgynghori.[55] At hynny, nododd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro y gallai Parciau Cenedlaethol fod mewn sefyllfa unigryw i gynorthwyo i fonitro Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Roedd yr achos cryf dros gadw Cyfoeth Naturiol Cymru fel corff arweiniol wedi'i seilio ar y ffaith bod ganddo'r wybodaeth a'r arbenigedd lleol eisoes i alluogi staff i gyflawni gwaith monitro sydyn. Roedd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yn credu y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn gyfrifol hefyd am asesu a sicrhau bod y data a ddarparwyd wedi'i gasglu gan bobl ag arbenigedd priodol a'i fod yn cyd-fynd â methodolegau priodol cyn pennu'r categori cyflwr terfynol ar gyfer y nodwedd ddynodedig neu ar gyfer uned safle gwarchodedig.

Cafodd tystiolaeth ynghylch materion yn ymwneud â darparu adnoddau ar gyfer monitro ei darparu gan gyfranogwyr yn y Fforwm Arbenigwyr a gan ymatebwyr i'r Alwad am Dystiolaeth. Yn y Fforwm Arbenigwyr, awgrymwyd bod yna berygl o gasglu llawer o ddata a/neu o ganolbwyntio ar bryderon na ellid eu monitro'n hawdd. Gellid

[55] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ymddiriedolaethau Natur Cymru.

mynd i'r afael â hynny drwy gydnabod bod gwerth monitro'n ymwneud â chael data a oedd 'yn ddigon da', a fyddai'n golygu bod angen y bobl gywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir. Un pryder allweddol oedd yr angen i sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi blaenoriaeth i fonitro safleoedd gwarchodedig, a bod y sefydliad yn cael ei ariannu'n ddigonol i gyflawni'r gwaith hwnnw'n effeithiol. Nodwyd hefyd y gallai graddau'r arbenigedd yn Cyfoeth Naturiol Cymru gyfyngu ar waith monitro effeithiol, a bod angen buddsoddi mewn sgiliau.

Roedd y dystiolaeth gan ymatebwyr i'r Alwad am Dystiolaeth yn adleisio'r pryderon hynny. Nodwyd, yn dibynnu ar y technegau a fabwysiedir, y bydd ar waith monitro effeithiol ac effeithlon angen adnoddau i brynu a gweithredu offer arbenigol a/neu drefniadau monitro pen desg/ar safleoedd gan staff medrus. Yng nghyd-destun ehangach adnoddau sy'n lleihau ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol, mae adnoddau'n fater allweddol ar gyfer monitro safleoedd gwarchodedig.

Rhoddwyd pwys mawr ar yr angen i sefydlu a chynnal cydberthnasau gwaith da rhwng deiliaid tir a staff lleol Cyfoeth Naturiol Cymru. Honnodd un ymatebydd fod yna achos cryf dros ddefnyddio'r un staff lleol i gyflawni gwaith monitro sydyn ac i gysylltu â rheolwyr tir/porwyr ynghylch rheoli'r tir. Byddai hynny'n ddefnydd mwy effeithlon o amser a byddai'n cynnig cyfle da i drafod â rheolwyr tir sut beth fyddai 'cyflwr ffafriol' a sut y gellid ei sicrhau. Fodd bynnag, awgrymodd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar y byddai angen asesiad mwy manwl a meintiol ambell flwyddyn bob hyn a hyn er mwyn sicrhau bod y dull Monitro Safonau Cyffredin yn cael ei roi ar waith yn gyson ar draws y wlad. Byddai hynny'n golygu bod angen i dimau monitro gasglu gwybodaeth am y sbardunau a'r pwysau sy'n effeithio ar gyflwr nodweddion; am gyflwr y nodweddion; am y math o waith rheoli a mesurau eraill; ac am eu heffeithiolrwydd. Awgrymwyd y byddai'n fanteisiol cael gwahanol aelodau o staff heblaw'r tîm monitro i gyflawni'r asesiad hwnnw.

Gwnaed sawl sylw ynghylch rôl rheolwyr tir o safbwynt monitro safleoedd. Awgrymwyd mai un ffordd o sicrhau effeithlonrwydd fyddai canolbwyntio ar waith monitro 'ar

safleoedd' gan ddeiliaid tir, heb waith monitro proffesiynol mynych. Pwysleisiwyd bod angen cynnal neu ddatblygu cysylltiadau da â deiliaid tir ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig er mwyn darganfod a ydynt eisoes yn cyflawni gwaith monitro, fel nad oes unrhyw ddyblygu'n digwydd. Er enghraifft, fel y nodwyd yn ymateb Ymddiriedolaethau Natur Cymru, mae'n bosibl bod Ymddiriedolaethau Natur eisoes yn cyflawni gwaith monitro at eu dibenion eu hunain, ac y gallai data'r gwaith hwnnw gael ei ddefnyddio i hybu'r ymdrechion monitro cyffredinol.

Nododd Ymddiriedolaethau Natur Cymru hefyd mai dechrau'r broses yn unig yw'r gwaith o gasglu data monitro, a phwysleisiodd yr angen am gronfa ddata ynghylch rheoli safleoedd gwarchodedig, a weinyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd y sefydliad yn deall bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi creu un, ond dim ond yn fewnol y caiff ei defnyddio ar hyn o bryd. Dadleuodd y dylai sefydliadau allanol sy'n rheoli tir gael mynediad iddi hefyd. Roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru o blaid rhannu data â rheolwyr tir yn ogystal â rhannu data rhwng sefydliadau llywodraeth. Awgrymwyd hefyd y dylai sefydliadau llywodraeth gynnwys rhai ar draws y DU, yn hytrach na bod data'n cael ei rannu rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig. Nodwyd yr ymddengys nad oes yna un lleoliad canolog lle mae modd cael gafael ar yr holl adroddiadau sy'n berthnasol i'r safleoedd dynodedig unigol.

### 7.4 Safbwyntiau AIDAC ar fonitro

Asesiad Gwaelodlin Safleoedd Gwarchodedig 2020 Cyfoeth Naturiol Cymru oedd yr asesiad llawn cyntaf ers 2003. Ni fyddem yn ystyried bod bwlch o 17 mlynedd yn foddhaol, hyd yn oed pe bai gwybodaeth am gyflwr pob safle'n cael ei darparu. Mae'r ffaith bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn methu â phennu cyflwr tua hanner y safleoedd rhestredig oherwydd tystiolaeth annigonol yn arwydd cryf bod rhywbeth mawr o'i le ar y modd y caiff gwaith monitro ei gyflawni.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi'n glir bod cyfyngiadau ar adnoddau wedi dylanwadu'n fawr ar ei raglen fonitro. Cwestiwn allweddol i AIDAC yw a fyddai'r sefyllfa yn well pe bai dyletswydd statudol yn cael ei rhoi ar Cyfoeth Naturiol Cymru i fonitro

safleoedd gwarchodedig. Efallai ei bod yn wir, fel yr awgrymwyd yn y dystiolaeth, nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn neilltuo digon o adnoddau i waith monitro oherwydd nad oes yn rhaid iddo ei gyflawni. Fodd bynnag, ni fydd gwneud gwaith monitro yn ddyletswydd statudol yn arwain o reidrwydd at ddata monitro gwell, oni bai bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu neilltuo'r adnoddau angenrheidiol ar ei gyfer. Ceir perygl, os na chaiff Cyfoeth Naturiol Cymru fwy o adnoddau, y bydd cydymffurfio â dyletswydd statudol i fonitro'n golygu bod agweddau eraill ar ei waith yn dioddef oherwydd bod arian yn cael ei ddargyfeirio. Un peth sy'n amlwg iawn i ni, fodd bynnag, yw na fyddai unrhyw ddiben gosod dyletswydd statudol i fonitro heb fod adnoddau digonol yn cael eu darparu ar gyfer hynny.

O ran y cwestiwn ynghylch a ddylai fod yna ddyletswydd statudol i fonitro safleoedd gwarchodedig, nid ydym yn credu bod modd ei ateb heb ystyried diben y gwaith monitro hwnnw. Cyffyrddodd ein Galwad am Dystiolaeth â hynny drwy ofyn ai canolbwyntio ar fonitro nodweddion yw'r dull cywir o weithredu ynteu a ddylid rhoi mwy o sylw i ddulliau seiliedig ar safle. Fel y trafodir isod, rydym wedi dod i'r casgliad bod y ddau ddiben yn bwysig. Aethom ati wedyn i ystyried a ddylid defnyddio'r un technegau monitro i gael gwybodaeth am statws nodweddion ac am gyfraniad ehangach safle mewn rhwydwaith cysylltiedig.

Mae'r dull Monitro Safonau Cyffredin yn ffordd sicr iawn o fonitro safleoedd gwarchodedig, ond mae'n gofyn am lawer iawn o adnoddau. Mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur[56] wedi awgrymu y gellid defnyddio'r dull yn ehangach ar gyfer asesiadau y tu allan i ardaloedd gwarchodedig. Nid ydym yn credu ei bod yn debygol y byddai digon o adnoddau'n cael eu darparu i ymestyn y defnydd a wneir ohono i'r cyfeiriad hwnnw. Rydym wedi nodi bod y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn cyfeirio at ddefnyddio technegau monitro newydd, er enghraifft Arsylwi'r Ddaear a DNA amgylcheddol, i wella'r gyfres o offer sydd ar gael ac i wneud iawn efallai am y

---

[56] Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (ar ran y Gweithgor Rhyngasiantaethol Monitro Safonau Cyffredin). 2022.
A Statement on Common Standards for Monitoring Protected Sites (2022). JNCC, Peterborough. Ar gael yma: https://hub.jncc.gov.uk/assets/0450edfd-a56b-4f65-aff6-3ef66187dc81

cyfyngiadau sydd ar adnoddau. Mae hefyd yn awgrymu y gellid annog sefydliadau partner megis cyrff anllywodraethol ac asiantaethau ymgynghori amgylcheddol i ddefnyddio'r dull Monitro Safonau Cyffredin fel bod modd rhannu data. Cafodd yr awgrymiadau hynny ynghylch defnyddio technoleg newydd a chynnwys partneriaid eu hadleisio yn y dystiolaeth a gawsom.

Rydym yn gyfan gwbl o blaid datblygu technegau monitro newydd a chynnwys partneriaid mewn gwaith asesu ehangach ar lefel safleoedd a thu hwnt, ond nid ydym wedi ein hargyhoeddi y byddent yn addas ar gyfer monitro nodweddion ar lawer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Rydym wedi dod i'r casgliad ei bod yn bwysig gwahaniaethu'n glir rhwng gwaith monitro nodweddion a gwaith asesu safleoedd. Mae dibenion y ddau beth yn wahanol, gellir eu cyflawni gan ddilyn amserlenni gwahanol, ac mae a wnelont â thechnegau gwahanol a gyflawnir gan bobl wahanol.

Yn achos safleoedd gwarchodedig, ceir perthynas sylfaenol rhwng deiliaid tir a Cyfoeth Naturiol Cymru. Dan y ddeddfwriaeth bresennol, diben rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yw gwarchod y nodweddion y mae'r safle wedi'i hysbysu o'u herwydd. Mae monitro Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar sail nodweddion yn rhan annatod o'r modd y caiff y tir ei reoli, neu dylai fod yn rhan annatod o hynny. Yn ogystal â darparu tystiolaeth ynghylch a yw arferion rheoli a gymeradwywyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael yr effaith a ddymunir, gall hefyd ddangos a yw'r deiliad tir wedi bod yn cydymffurfio neu beidio ag amodau Cyfoeth Naturiol Cymru. Gall methu â bodloni'r amodau hyn arwain at sancsiynau. Am y rheswm hwnnw'n unig, rydym wedi dod i'r casgliad bod yn rhaid mai cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru yw pennu statws y nodweddion. Mewn rhai sefyllfaoedd, gallai dulliau synhwyro o bell ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol, ond rhaid bod rhywfaint o wirio ar lawr gwlad yn digwydd.

Nid ydym yn credu ei bod yn briodol caniatáu i drydydd partïon gyflawni'r gwaith monitro hwn oni bai eu bod dan gontract â Cyfoeth Naturiol Cymru fel ei asiantiaid.

Fodd bynnag, gallai fod yna werth mewn caniatáu i'r deiliad tir gyflawni gwaith monitro ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae deiliaid tir nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru yn gyrff anllywodraethol amgylcheddol sy'n cynnwys, er enghraifft, yr Ymddiriedolaethau Natur a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar. Heb os, mae ganddynt y sgiliau i fonitro'r nodweddion y maent yn eu rheoli. Dylai fod yn bosibl iddynt ymrwymo i drefniant â Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni'r gwaith monitro hwn yn unol â rhaglen a drefnwyd. Byddai hynny'n lleihau'r baich sydd ar adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru.

Un o'r pryderon a fynegwyd yn y dystiolaeth oedd nad yw data monitro ar gael yn eang ac nad yw'n gyffredinol yn cael ei rannu â'r deiliaid tir. Rydym yn credu y dylai adroddiadau ynghylch statws cyflwr nodweddion gael eu rhannu â deiliad tir y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, nid yn lleiaf er mwyn llywio unrhyw newidiadau a allai fod yn ofynnol o ran rheoli. At hynny, mae gan y cyhoedd yn ehangach hawl i gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyflwr safleoedd gwarchodedig. Rydym yn sylweddoli bod gan y rhan fwyaf o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig berchnogion preifat ac y bydd yn rhaid i wybodaeth bersonol gael ei chadw'n gyfrinachol felly, ond mae angen bod yna ryw fath o waith adrodd. Fan leiaf, dylai Adroddiad Blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru gynnwys gwybodaeth am nifer y safleoedd sydd wedi'u monitro, pa fath o nodweddion a oedd wedi'u hysbysu ynddynt, a beth oedd cyflwr y nodweddion hynny.

Mae'r sefyllfa yn wahanol ar gyfer asesiadau ehangach lle caiff Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig hysbysedig yn ei gyfanrwydd ei ystyried o ran ei gysylltedd â safleoedd eraill. Gallwn weld potensial mwy helaeth i ddefnyddio technolegau newydd ar gyfer y math hwnnw o asesiad. Rydym hefyd yn credu y gallai, ac y dylai, llawer o wahanol sefydliadau fod yn ymwneud â darparu data ar gyfer hynny. Dyma lle mae'r potensial mwyaf yn perthyn i'r syniad o gael partneriaeth. Pwy bynnag sy'n cael y data, rydym yn cytuno mai Cyfoeth Naturiol Cymru ddylai fod yn sefydliad arweiniol ar gyfer ei ddadansoddi ac ar gyfer adrodd yn ei gylch. Un agwedd yn unig ar y darlun cyffredinol fydd cyflwr nodweddion ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Rydym wedi dod i'r casgliad y dylai monitro safleoedd gwarchodedig fod yn un o swyddogaethau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym wedi dod i'r casgliad bod y dull Monitro Safonau Cyffredin yn parhau'n briodol. Rydym yn cydnabod bod y math hwn o waith monitro'n gofyn am lawer o adnoddau, ac wrth i'r ddyletswydd statudol gael ei phennu rydym yn credu'n gryf bod yn rhaid sicrhau cynnydd mewn cyllid hefyd sy'n ddigonol i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i weithredu rhaglen fonitro sy'n golygu bod pob safle'n cael ei fonitro o leiaf bob chwe blynedd. Dylid adrodd bob blwyddyn ynghylch canlyniadau'r rhaglen honno.

Mae dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes i adrodd ynghylch asesiadau ehangach fel nad oes angen newid y ddeddfwriaeth i ddarparu ar gyfer hynny. Fodd bynnag, mae angen sefydlu rhaglen fonitro/asesu glir ar sail dull o weithredu mewn partneriaeth. Rydym wedi dod i'r casgliad y dylai'r rhaglen honno gael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru a'i harwain gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym wedi nodi bod y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi cyhoeddi canllawiau'n ddiweddar ynghylch dylunio rhaglenni monitro integredig sy'n cynnwys nifer o bartneriaid. [57]

Mae llawer o'r materion yr ymdrinnir â nhw yn yr adran hon wedi'u codi hefyd mewn mannau eraill yn y DU. Yn 2023, daeth Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd[58] i gasgliadau tebyg yn ei adroddiad ynghylch mynd i'r afael â'r her '30 erbyn 30'. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai fod dyletswydd statudol ar Natural England i fonitro Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a sicrhau bod y data a geir o ganlyniad i hynny ar gael i'r cyhoedd. Argymhellodd hefyd y dylid cyflwyno camau i fonitro safleoedd cyfan yn ogystal â chyflawni gwaith monitro sy'n seiliedig ar nodweddion, ac y dylid defnyddio cyfraniadau gwirfoddol i waith casglu data a monitro yn rhan o bolisi.

[57] https://data.jncc.gov.uk/data/13297db4-eb2f-40e4-8dbf-82864a4cc148/jncc-report-758.pdf.
[58] Argymhellion 8, 10 a 12 adroddiad Tŷ'r Arglwyddi: https://publications.parliament.uk/pa/ld5803/ldselect/ldenvcl/234/234.pdf.

# 8 Targedau ar gyfer safleoedd gwarchodedig

## 8.1 Cyflwyniad

Mae Dangosyddion Bioamrywiaeth y DU[59] yn cynnwys dangosydd ynghylch hyd a lled a chyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac mae Dangosyddion Llesiant Cymru[60] yn cynnwys dangosydd ynghylch ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru (a fesurir yn ôl hyd a lled y cynefin lled-naturiol a geir yng Nghymru). Mae'r darpariaethau hynny'n darparu dangosyddion defnyddiol o gynnydd ond nid ydynt, ynddynt eu hunain, yn gosod targedau.

Mae sefydliadau amgylcheddol wedi bod yn galw ers blynyddoedd lawer am gynigion ar gyfer targedau statudol ynghylch bioamrywiaeth yng Nghymru, gan gynnwys yn ystod hynt Deddf yr Amgylchedd (Cymru).[61] Mae cynigion pendant ar gyfer targedau o'r fath wedi'u cynnwys yn fersiwn drafft Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) a drafodir isod.

## 8.2 Tystiolaeth ynghylch targedau

Soniwyd bod targedau statudol ar gyfer safleoedd gwarchodedig yn bryder, yn y Fforwm Arbenigwyr, mewn ymateb i gwestiwn cyffredinol ynghylch newid deddfwriaethol posibl. Dyma'r cwestiwn a ofynnwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth:

*A ddylid gosod targedau ar gyfer ansawdd a chysylltedd safleoedd gwarchodedig? Os felly, beth ddylai'r targedau eu cwmpasu?*

### 8.2.1 Trosolwg

Yn gryno, er bod cefnogaeth gyffredinol dros gyflwyno targedau statudol ar gyfer safleoedd gwarchodedig, roedd yna ystod o safbwyntiau ar ffocws priodol y targedau hynny.

---

[59] https://jncc.gov.uk/our-work/ukbi-c1-protected-areas/.
[60] https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-dangosyddion-cenedlaethol.
[61] Gweler, er enghraifft, Cyswllt Amgylchedd Cymru – Statutory Targets for Biodiversity. Environment (Wales Bill) July 2025. Ar gael yma: https://business.senedd.wales/documents/s43441/Paperper cent 203per cent 20Saesnegper cent 20ynper cent 20unig.pdf.

### 8.2.2 Cefnogaeth i dargedau statudol a phryderon amdanynt

Gwnaeth y rhan fwyaf o ymatebwyr naill ai ddatgan yn bendant neu awgrymu yn eu geiriad y dylai fod yna dargedau cyfreithiol rwymol ar gyfer ansawdd a chysylltedd safleoedd gwarchodedig.[62] Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru o blaid y cyfle a ddarperir gan Argymhelliad 8 Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru[63] i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol i osod targedau adfer natur cyffredinol, a nododd fod y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd (Julie James, AS) wedi datgan bwriad i osod targedau cyfreithiol rwymol ar gyfer natur, a ategir gan gynllun gweithredu strategol newydd ar gyfer bioamrywiaeth.[64] Roedd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar o'r farn y dylai'r ddeddfwriaeth sylfaenol a addewir gynnwys gofyniad ynghylch targedau hirdymor ac interim ar gyfer cyflwr safleoedd gwarchodedig. Dylai'r manylion gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth eilaidd, gyda hyblygrwydd i'w tynhau a'u gwneud yn fwy uchelgeisiol os oes angen. Nodwyd bod yna ddyletswydd statudol eisoes i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac y byddai datblygu targedau ar gyfer ansawdd a chysylltedd safleoedd gwarchodedig yn allweddol o ran cyflawni'r ddyletswydd honno.[65]

Yn y Fforwm Arbenigwyr, fodd bynnag, cafodd sawl mater a phryder am dargedau a gosod targedau eu codi, a chafodd y rhain eu hadleisio yn yr ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- Ar gyfer pwy y mae'r targedau – Llywodraeth Cymru neu bawb?
- Ni ddylid gosod targedau ar frys.
- Dylai targedau fod yn ddigon hyblyg i ymateb i heriau'r newid yn yr hinsawdd.

---

[62] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Cymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon, Coed Cadw, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, Ymddiriedolaethau Natur Cymru, Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur.

[63] Argymhelliad 8: rhoi adferiad natur wrth wraidd polisi a strategaeth mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Ar gael yma: [https://www.llyw.cymru/plymio-dwfn-bioamrywiaeth-argymhellion-html](https://www.llyw.cymru/plymio-dwfn-bioamrywiaeth-argymhellion-html).

[64] Datganiad yn y Senedd ar 30 Ionawr 2024 ar lansio'r Papur Gwyn ynghylch Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth.

[65] Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol.

- Mae creu targedau ar gyfer safleoedd gwarchodedig yn heriol oherwydd, o gofio eu hanghenion penodol i safle, mae'n anodd eu monitro ac mae tipyn o oddrychedd yn perthyn i'r broses o bennu sut y dylid eu rheoli.
- Nid yw'n glir beth y byddai targedau'n ei gyflawni a sut y gallent gael eu pennu'n wrthrychol, o gofio'r ystod eang o nodweddion a all fod yn sail i statws gwarchodedig.
- Ceir pryderon am ddiffyg llwyddiant y llywodraeth o ran cyrraedd targedau.
- Ceir ofnau bod gosod targedau'n gallu arwain at newid gwaelodlin.
- Rhaid bod targedau'n cael eu cytuno yn gyffredinol a rhaid bod modd eu cyrraedd o fewn yr amserlen a bennwyd.
- Byddai angen technegau monitro priodol, a fyddai'n cynnwys defnyddio technoleg, a byddai angen i adnoddau priodol gael eu darparu i fesur cynnydd ar sail targedau.

#### 8.2.3 Natur targedau statudol ar gyfer safleoedd gwarchodedig

Cafwyd nifer o awgrymiadau ynghylch beth y dylai targed ar gyfer safleoedd gwarchodedig ymdrin ag ef. Roedd llawer ohonynt yn ymwneud â chyflwr nodweddion. Roedd yr awgrymiadau hynny'n cynnwys y canlynol:

- Dylai targedau fod yn benodol ac yn glir, a rhaid mai'r nod trosfwaol ar gyfer pob safle gwarchodedig yw bod â statws 'ffafriol' neu 'anffafriol ond yn ymadfer' erbyn 2030.[66]
- Dylid cael targedau meintiol ac ansoddol ar gyfer nodweddion safleoedd gwarchodedig[67]
  - gallai'r targed meintiol ymdrin â maint, cynefin a dosbarthiad cynefinoedd a rhywogaethau sydd mewn cyflwr ffafriol;
  - gallai'r targed ansoddol ymdrin â helaethrwydd ac amlder rhywogaethau allweddol ac ystyriaethau'n ymwneud â symudedd rhywogaethau a chynefin y tu hwnt i'r dynodiad ei hun.

[66] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
[67] Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru.

- Dylid cael targedau penodol ar gyfer ardal a nifer y nodweddion Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a ddylai fod mewn cyflwr ffafriol, ac ar gyfer ardal a nifer y nodweddion sy'n dangos arwyddion amlwg o adferiad ac sydd ar y llwybr iawn tuag at fod mewn cyflwr ffafriol.[68]
- Dylid cael targedau penodol i safle yn hytrach na thargedau generig, a dylai'r rheini gynnwys targedau interim a thargedau tymor hwy ar gyfer ystod o fetrigau.[69]
- Dylai targedau gael eu pennu'n unol â ph'un a yw'r nodweddion o ran rhywogaethau'n symudol neu a oes arnynt angen ardal fwy o faint na'r safle gwarchodedig ei hun. [70]

Cafwyd awgrymiadau hefyd ynghylch y rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Dylid cael targedau penodol sydd wedi'u diffinio yn glir ac sy'n ymwneud â chynyddu maint y rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig ledled Cymru.[71]
- Mae angen cryfhau ac ehangu'r rhwydwaith o safleoedd, gyda thargedau'n cael eu pennu i wneud y matrics ehangach o ran tirwedd yn fwy caredig i natur er mwyn sicrhau cysylltedd a chydnerthedd. Byddai angen i'r targedau hyn ganolbwyntio ar fwy na safleoedd gwarchodedig, o gofio y bydd cysylltedd pellach yn cael ei ddarparu drwy'r dirwedd amgylcheddol ehangach. Cydnabuwyd y byddai'r targedau hyn yn anos eu pennu na thargedau ynghylch ansawdd Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.[72]

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar y defnydd ehangach o dargedau y tu allan i safleoedd gwarchodedig, ac roeddent yn cynnwys y canlynol:

---

[68] Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.
[69] Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.
[70] Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
[71] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Ymddiriedolaethau Natur Cymru, Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol, Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru.
[72] Cymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol.

- Dylai targedau ar gyfer adferiad natur adlewyrchu'r fframwaith DECCA (Amrywiaeth, Graddau, Cyflwr, Cysylltedd, Hyblygrwydd (*Diversity, Extent, Condition, Connectivity*, *Adaptability*)) ar gyfer cydnerthedd ecosystemau.[73]
- Dylai targedau ar gyfer safleoedd gwarchodedig gael eu cyflwyno ochr yn ochr â thargedau ar gyfer rhywogaethau a/neu dargedau ynghylch iechyd ecosystemau.[74]
- Os ceir targedau sy'n canolbwyntio ar ecosystemau, yn hytrach nag ar rywogaethau a nodweddion unigol yn unig, bydd angen gwaith monitro integredig gyda'r dechnoleg gyfatebol angenrheidiol.[75]

### 8.3 Safbwyntiau AIDAC ar dargedau

Mae AIDAC o'r farn y byddai'n anodd dros ben gosod targedau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer safleoedd gwarchodedig, er enghraifft targed ar gyfer gwella cyflwr nodweddion gwarchodedig. Rydym yn teimlo y byddai'n well i rai cynigion ynghylch targedau, a ddarparwyd yn y dystiolaeth, gael eu hystyried yn ddyheadau. Rydym wedi nodi, i'r perwyl hwn, nad yw fersiwn drafft Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn cynnwys y targed pennawd a oedd wedi'i gynnig yn y Papur Gwyn ynghylch y Bil, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, sef:

> *gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050*.[76]

Nododd ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn fwriad i'w ddisodli â datganiad cenhadaeth natur-bositif.[77]

---

[73] Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
[74] Y Fforwm Arbenigwyr.
[75] Y Fforwm Arbenigwyr.
[76] https://www.llyw.cymru/egwyddorion-amgylcheddol-trefniadau-llywodraethu-thargedau-bioamrywiaeth-papur-gwyn.
[77] Ymateb y Llywodraeth i'r Papur Gwyn: Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-07/egwyddorion-amgylcheddol-trefniadau-llywodraethu-thargedau-bioamrywiaeth-papur-gwyn-ein-hymateb_0.pdf. Yn dilyn hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddisodli â fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth: *Fframwaith 30x30 i*

Fodd bynnag, rydym yn cefnogi targedau ar gyfer ardaloedd gwarchodedig sy’n dargedau:

- y gellir eu diffinio’n glir;
- y mae siawns resymol y byddant yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen a ragnodwyd; ac
- y gellir eu cyrraedd gan allbynnau y mae modd eu mesur mewn rhyw ffordd.

Rydym yn credu bod angen ystyried yn ofalus sut mae diffinio targedau a fydd yn sbarduno gweithredu tuag at gyrraedd y nod cyffredinol, sef cael rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig sydd mewn cyflwr ffafriol. Bydd hynny’n cymryd amser, ac ni fyddem yn disgwyl gweld y targedau hynny’n cael eu cadarnhau yn derfynol tan rywbryd ar ôl i Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) ddod yn gyfraith.[78] Rydym yn cytuno bod angen mynd i’r afael â’r argyfwng bioamrywiaeth ar frys ac, yn ddelfrydol, y byddai targedau bioamrywiaeth wedi bod ar waith mewn pryd i helpu i fodloni’r terfyn amser, sef 2030, ond ni allwn weld bod unrhyw fantais mewn gosod targedau i fodloni’r terfyn amser hwnnw os yw hynny’n golygu bod amser annigonol yn cael ei dreulio ar ddiffinio’r targedau.

Un targed a allai gael ei gyflwyno’n gynt, fodd bynnag, yw targed ynghylch monitro Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Rydym yn credu y byddai gosod targed o’r fath yn ddefnyddiol o safbwynt dwyn Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfrif.

Ni fydd gosod targedau’n cyflawni dim oni bai bod y camau gweithredu priodol sy’n angenrheidiol i’w cyflawni yn cyd-fynd â nhw. Rydym o’r farn y bydd yn hanfodol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cynllun gweithredu strategol wedi’i brisio yn cael ei roi

*Gymru*; cyhoeddwyd 18 Mehefin 2025. Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2025/6/4/1750349204/fframwaith-30x30-i-gymru.pdf.

[78] Mae adran 6C(5) Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn gosod rheoliadau drafft gerbron y Senedd cyn pen 3 blynedd ar ôl i’r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

ar waith, sy'n egluro'r gwaith sy'n ofynnol i sicrhau bod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig mewn cyflwr ffafriol.

# 9 Newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer safleoedd gwarchodedig

## 9.1 Cyflwyniad

Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn tarddu o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, ond mae wedi bod yn destun amryw ddiwygiadau ers hynny i geisio gwella'r modd y mae'n gweithredu er mwyn gwarchod rhywogaethau prin, rhywogaethau sydd mewn perygl a chynefinoedd sy'n agored i niwed. Roedd newid yn angenrheidiol hefyd er mwyn darparu ar gyfer datblygiadau yng nghyfraith yr UE ddechrau'r 1990au. Mae'r holl Ardaloedd Cadwraeth Arbennig tirol a'r holl Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, bron iawn, wedi'u hysbysu yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ond cânt eu gwarchod ymhellach hefyd dan y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau[79] fel y'u diwygiwyd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Roedd gan AIDAC ddiddordeb mewn clywed safbwyntiau ynghylch a fyddai newidiadau pellach i'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer safleoedd gwarchodedig yn ddymunol.

## 9.2 Tystiolaeth ynghylch newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol presennol

Dyma'r cwestiwn a ofynnwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth:

*Pa newidiadau y dylid eu gwneud i'r fframwaith cyfreithiol presennol, os o gwbl, er mwyn sicrhau bod cyflwr safleoedd gwarchodedig yn gwella yn gyffredinol? Er enghraifft, a allai unrhyw un o'r mecanweithiau cyfreithiol a ddefnyddir ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig fod yn fanteisiol i gategorïau eraill o safleoedd gwarchodedig?*

[79] OS 2017/1012 fel y'i diwygiwyd gan OS 2019/579

### 9.2.1 Trosolwg

Roedd sawl un o'r ymatebwyr i'r Alwad am Dystiolaeth yn teimlo bod diwygio'r ddeddfwriaeth i hybu gwarchod safleoedd gwarchodedig yn flaenoriaeth.[80] Roedd llawer o'r awgrymiadau ynghylch newidiadau'n ymwneud â phynciau yr ymdrinnir â nhw mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, ac roeddent yn cynnwys pennu targedau, cyflwyno dyletswydd i fonitro safleoedd, gorfodi, ac adnoddau. Dyma'r prif faterion eraill a godwyd:

- Cymhlethdod y fframwaith o ddeddfwriaeth, pwerau a gwahanol ofynion o ran cydsyniad, a'r dryswch y mae hynny'n ei greu ynghylch pwy sy'n gyfrifol am beth.
- Yr angen i'r broses ddynodi ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig fod yn fwy effeithlon a hyblyg er mwyn caniatáu dulliau rheoli addasol.
- Y berthynas rhwng Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.
- Y modd y mae'r gyfraith yn gweithredu ar derfynau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
- Pryderon nad yw gweithgareddau y tu allan i safleoedd gwarchodedig yn cael eu rheoleiddio'n ddigonol i sicrhau bod safleoedd gwarchodedig yn cael eu gwarchod neu i sicrhau bod buddiannau ehangach o ran bioamrywiaeth yn cael eu cynnal.
- Yr angen i ymestyn y gyfraith er mwyn caniatáu monitro a rheoli gweithgareddau oddi ar safle gwarchodedig, sy'n effeithio arnynt.

Cafwyd sawl awgrym ynghylch adolygu'r fframwaith cyfreithiol presennol. Roedd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn credu y dylid adolygu'r dynodiadau presennol er mwyn ystyried a ydynt i gyd yn ofynnol, yn enwedig y gyfundrefn ar wahân ar gyfer Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Fodd bynnag, awgrym arall oedd ychwanegu rhagor o safleoedd, i bob pwrpas, drwy uwchraddio'r warchodaeth a roddir i safleoedd bywyd gwyllt lleol anstatudol megis Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur.[81]

---

[80] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, Ymddiriedolaethau Natur Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Coed Cadw, Plantlife Cymru, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU.

[81] Ymddiriedolaethau Natur Cymru, Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol.

Roedd Plantlife Cymru yn croesawu adolygiad ond pwysleisiodd y dylai unrhyw ddiwygiadau i'r systemau cyfreithiol geisio egluro'r sefyllfa bresennol ac osgoi achosi mwy o ddryswch. Yn benodol, byddai'n bwysig sicrhau na fyddai unrhyw ganlyniadau gwrthnysig neu fylchau mewn gwarchodaeth yn cael eu creu drwy amryfusedd.

### 9.2.2 Hysbysu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a chael cydsyniad

Roedd yna bryderon bod y broses o ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn rhy gymhleth a'i bod yn gallu cymryd gormod o amser. Awgrymwyd[82] y dylid cyflwyno terfyn amser statudol ar gyfer penderfyniadau ynghylch dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig newydd, er mwyn cyflymu'r broses ddynodi. Gellid gwneud hynny drwy osod dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni'r swyddogaethau sy'n ymwneud â dynodi, dosbarthu, rhestru neu hysbysu safleoedd gwarchodedig 'yn brydlon' neu cyn pen cyfnod o 2 flynedd.[83] Fodd bynnag, nodwyd y byddai'n rhaid dyrannu adnoddau ychwanegol i fodloni'r gofyniad hwnnw. Holwyd hefyd a ddylem fod yn sianelu adnoddau at safleoedd newydd ynteu a ddylem sicrhau bod safleoedd presennol yn cyrraedd y safon ofynnol.[84]

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at anhyblygrwydd y system ddynodi bresennol, a oedd yn golygu ei bod yn anodd ymateb i fodelau cadwraeth sy'n newid, ac at yr angen i ymateb i newidiadau yn yr hinsawdd. Mae'r diffyg hyblygrwydd hwn yn golygu ei bod yn anodd cadw Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn ddeinamig ac yn addasol a hybu cydnerthedd ecosystemau. Ystyrid bod hynny'n broblem benodol os caiff safle ei hysbysu oherwydd rhywogaethau a/neu gynefinoedd y mae'r diffiniad ohonynt yn gul, nad yw'n darparu ar gyfer newid anochel. Roedd yna gefnogaeth dros ddiwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn caniatáu dull mwy addasol o weithredu, nid yn lleiaf gan y byddai hynny'n adlewyrchu yn well yr ystod o offer sydd ar gael i gyflawni'r rhwymedigaeth yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru), sef sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.[85] Dull amgen posibl o weithredu fyddai cyflwyno

82 Trafodaeth yn y Fforwm Arbenigwyr.
83 Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.
84 Trafodaeth yn y Fforwm Arbenigwyr.
85 Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Cyfoeth Naturiol Cymru, Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.

adolygiad bob degawd o amcanion cadwraeth ar gyfer safleoedd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu sbardunau, tystiolaeth ac arfer gorau presennol ac er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb iddynt.[86] Honnwyd y byddai hynny'n darparu mwy o hyblygrwydd er mwyn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur yn y tymor hir.[87]

Yn y Fforwm Arbenigwyr nodwyd bod y broses hysbysu lawn yn ofynnol ar hyn o bryd os yw Cyfoeth Naturiol Cymru am amrywio unrhyw fanylion hysbysu ar gyfer safleoedd presennol, er enghraifft er mwyn ystyried newidiadau o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r broses lawn honno'n cymryd llawer o amser, mae'n hirfaith ac mae'n gofyn am lawer o adnoddau. Roedd hynny'n arbennig o arwyddocaol ar y pryd oherwydd bod llawer o newidiadau wedi ôl-gronni, a oedd yn angenrheidiol ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig drwy broses ailhysbysu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'w diben. Roedd yna bryderon hefyd ynghylch defnydd amhriodol o'r pwerau i ddadhysbysu safle. Cydnabuwyd bod cynnwys pŵer o'r fath yn ddefnyddiol i gywiro camgymeriadau, ond pwysleisiwyd yn gryf na ddylid dadhysbysu safle mewn sefyllfa lle mae nodweddion Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig mewn cyflwr gwael oherwydd esgeulustod a diffyg buddsoddi.

Darparodd Cyfoeth Naturiol Cymru wybodaeth am ddadhysbysiadau ers 2000.[88] Roedd yna 16 o ddadhysbysiadau rhannol, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â gwaredu adeiladau neu gywiro camgymeriadau cartograffig. Roedd yna bedwar dadhysbysiad llawn ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig biolegol, a wnaed am y rhesymau canlynol:

- Dirywiad yn y nodwedd arbennig, i lefel a oedd islaw'r safon ofynnol genedlaethol ar gyfer dewis Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar y safle a lle'r oedd nodweddion wedi symud i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig cyfagos (2003).

[86] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
[87] Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.
[88] Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i gwestiynau AIDAC ynghylch safleoedd gwarchodedig; cafwyd ar 16 Awst 2024.

- Y diddordeb arbennig wedi'i golli oherwydd adeiladu Morglawdd Bae Caerdydd (2004).
- Y safle wedi'i hysbysu yn wreiddiol cyn Canllawiau 1989 ar gyfer dewis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, lle'r oedd asesiad dilynol wedi canfod nad oedd y safle'n cyrraedd y safon ar gyfer bod yn gymwys i fod yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a lle nad oedd ymchwiliad i ddichonoldeb adfer y safle wedi dod o hyd i dystiolaeth i awgrymu y byddai'n bosibl i'r safle gyrraedd safon Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (2006).
- Y safle wedi'i hysbysu yn wreiddiol cyn Canllawiau 1989 ar gyfer dewis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, lle'r oedd asesiad dilynol wedi canfod nad oedd y safle'n cyrraedd y safon ar gyfer bod yn gymwys i fod yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig; roedd poblogaethau rhywogaethau o ddiddordeb wedi gwella'n genedlaethol ond wedi dirywio ar y safle dan sylw (2012).

Honnwyd hefyd nad oedd y broses dewis safleoedd yn cwmpasu'r holl ystod o rywogaethau a chynefinoedd yr oedd angen iddynt gael eu gwarchod. Rhoddwyd dwy enghraifft benodol: coetir hynafol (dim ond 17 y cant ohono sydd wedi'i hysbysu yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig[89]) a nodweddion cynefinol (h.y. y rhywogaethau a'r cynefinoedd cyntaf i gytrefu tiroedd yr aflonyddwyd arnynt.[90] Roedd yna bryderon hefyd na fyddai modd hysbysu safleoedd y byddai'n bosibl eu hadfer ond na fyddent yn bodloni'r safonau ar gyfer bod yn gymwys i gael eu dewis yn eu cyflwr presennol, e.e. mawndir sydd wedi dirywio.[91]

[89] Roedd Coed Cadw yn pryderu bod hanner yr ecosystem gyfan yng Nghymru o ran coetiroedd a choed hynafol ar ffurf "coed y tu allan i goedydd", h.y. mewn gwrychoedd, porfeydd coediog ac ati, a bod yr hanner arall ar ffurf tameidiau bach gan mwyaf, ac mai dim ond 17 y cant o goetir hynafol Cymru sydd wedi'i ddynodi dan warchodaeth Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Gwnaeth fynegi'r farn y dylai holl goedydd hynafol Cymru gael eu gwarchod.
[90] Plantlife Cymru.
[91] Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU.

Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod diwygiadau i ganllawiau'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ar gyfer dewis safleoedd[92] yn golygu bod llawer o nodweddion cymwys nad ydynt wedi'u hysbysu yn nodweddion sydd heb unrhyw statws cyfreithiol ac sydd â gwarchodaeth gyfyngedig. Felly, roedd gan y sefydliad newidiadau a oedd wedi ôl-gronni ac yr oedd angen mynd drwy broses ailhysbysu ar eu cyfer. Nododd fod gan NatureScot y gallu i ddiwygio disgrifiadau o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig drwy ychwanegu neu ddileu nodweddion naturiol unrhyw bryd heb fod angen proses ailhysbysu lawn.[93]

Nid y broses hysbysu yn unig a oedd yn achosi pryderon. Dadleuwyd yn y Fforwm Arbenigwyr bod angen diwygio'r trefniadau ar gyfer cael cydsyniad. Awgrymwyd y dylem ystyried cyfleoedd i symleiddio'r gofynion o ran cydsyniad a gwneud y broses yn fwy cyson ac effeithlon i bawb dan sylw.

Mynegwyd pryder hefyd am y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chytundebau rheoli dan adran 16 Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Nododd un ymatebydd nad oes unrhyw system ar gyfer gwneud taliadau i drydydd parti sy'n cyflawni'r gwaith rheoli gofynnol, er enghraifft porwr neu gorff cadwraeth arall, os bernir nad oes gan y rheini fuddiant yn y tir. Gallai'r tirfeddiannwr fod yn wynebu rhai costau ei hun, ond gallai fod gan y porwr gostau sylweddol i'w talu a gallai fod yn treulio llawer o amser yn gofalu am y da byw.[94]

### 9.2.3 Ymestyn gwarchodaeth Ardaloedd Cadwraeth Arbennig i ddynodiadau eraill

Roedd yna gryn dipyn o gefnogaeth i'r awgrym[95] y dylai'r system o asesu ymlaen llaw unrhyw gynlluniau a phrosiectau sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar statws cadwraeth Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig gael

---

[92] Mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wrthi'n diwygio'r canllawiau ynghylch gwahanol fathau o gynefinoedd a grwpiau rhywogaethau. I gael rhagor o wybodaeth, gweler https://jncc.gov.uk/our-work/guidelines-for-selection-of-sssis/#part-2-species-chapters.
[93] Pwerau dan adran 8 Deddf Cadwraeth Natur (Yr Alban) 2004.
[94] Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
[95] Y Fforwm Arbenigwyr, Coed Cadw, Cyswllt Amgylchedd Cymru, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ymddiriedolaethau Natur Cymru.

ei hymestyn i bob Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Ystyrid bod y broses asesu ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn fanteisiol, a nodwyd ei bod yn cynnwys ystyriaeth i effeithiau gweithgareddau sy'n digwydd y tu allan i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Cynigiodd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar ymhellach y dylai'r amcan cyfreithiol o sicrhau statws ffafriol o ran cadwraeth gael ei ymestyn i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac i gadwraeth bioamrywiaeth mewn ardaloedd ehangach o gefn gwlad yn gyffredinol.

Cafwyd rhybudd, fodd bynnag, ynghylch ymestyn y gyfundrefn ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig/Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Nodwyd y gellir cael cydsyniad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gyflym, ond bod cael cydsyniad Ardal Cadwraeth Arbennig yn cymryd tipyn mwy o amser a bod y broses yn fwy beichus.[96] Er hynny, cydnabuwyd bod anghysondeb rhwng y ddwy system ar gyfer cael cydsyniad yn gallu arwain at broblemau ymarferol ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, oherwydd gall gwaith i warchod Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gael ei atal os yw hynny'n gwrthdaro â nodweddion Ardal Cadwraeth Arbennig.

At hynny, honnodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru nad yw nifer fach o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig tirol wedi'u hysbysu yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a bod angen mynd i'r afael â hynny.

#### 9.2.4 Gwarchodaeth ehangach

Un o fanteision dull Ardal Cadwraeth Arbennig/Ardal Gwarchodaeth Arbennig o weithredu yw ei fod yn ystyried gweithgareddau a gyflawnir y tu allan i'r safle gwarchodedig os ydynt yn debygol o effeithio'n negyddol ar y nodweddion gwarchodedig. Gwnaed sawl sylw ynghylch y modd y mae'r gyfraith yn gweithredu i warchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, neu'n hytrach yn gweithredu i beidio â'u gwarchod, rhag gweithredoedd sy'n digwydd y tu allan i'r safle.[97] Nodwyd

---

[96] Y Fforwm Arbenigwyr.

[97] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru.

nad oes angen cydsyniad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ffurfiol ar gyfer gwaith a gyflawnir ar dir cyfagos i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, er y gallai'r gwaith hwnnw effeithio'n anuniongyrchol ar y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Galwodd un ymatebydd am systemau cyfreithiol i alluogi ymyriadau y tu hwnt i derfynau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.[98] Roedd awgrymiadau penodol ynghylch newidiadau deddfwriaethol er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch hwn mewn gwarchodaeth yn cynnwys y canlynol:

- dyletswydd i adnabod a chynnwys nodweddion allweddol i'w monitro mewn llain glustogi o gwmpas safleoedd gwarchodedig;[99]
- cydlyniad rhwng amcanion cadwraeth y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'r ardaloedd cyfagos;[100]
- dyletswydd i sicrhau bod y modd y caiff tir cyfagos i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ei reoli'n cyd-fynd â gofynion ecolegol o fewn y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;[101]
- gwneud esgeuluso Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn drosedd.[102]

Roedd y mater a oedd yn ymwneud â'r gyfraith ynghylch gweithredoedd y tu hwnt i derfynau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gysylltiedig â phryderon ehangach am gysylltedd ac am ddulliau ar lefel y dirwedd o ymdrin â chydnerthedd ecolegol. Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dadlau dros gael deddfwriaeth glir ynghylch ffactorau allanol a all effeithio ar safleoedd gwarchodedig, sy'n cynnwys dyddodi nitrogen a gadael i garthion lygru afonydd. Roedd yn credu y byddai'n bwysig sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth ynghylch safleoedd gwarchodedig yn gydgysylltiedig ac yn cael ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau dull cydlynol o weithredu. Awgrym arall oedd canolbwyntio ar ddatblygu Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol enfawr.[103] Awgrymodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru y dylid rhoi mwy o sylw i rôl Datganiadau

[98] Coed Cadw.
[99] Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
[100] Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
[101] Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
[102] Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.
[103] Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.

Ardaloedd ar draws Cymru, gan gynnwys egluro eu rôl o ran ychwanegu cydnerthedd a chydgysylltu safleoedd gwarchodedig.

### 9.2.5 Cynllunio a datblygu

Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen rhoi mwy o gydnabyddiaeth i safleoedd gwarchodedig drwy gydol y broses gynllunio a datblygu, gan fod enghreifftiau wedi bod o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cael eu difrodi'n uniongyrchol gan ddatblygiadau allanol.[104] Roedd Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru o'r farn mai'r system gynllunio yw un o'r systemau allweddol ar gyfer atal difrod i safleoedd gwarchodedig, ac roedd yn credu ei bod yn hollbwysig bod y gyfraith bresennol ym maes cynllunio'n cael ei rhoi ar waith yn llawn er mwyn sicrhau gwarchodaeth ddigonol. Mynegodd yr Ymddiriedolaeth bryder bod datblygu'n fwy tebygol o ddigwydd ar safle yr aseswyd bod ei gyflwr yn anffafriol, sy'n golygu bod methu â sicrhau bod safleoedd yn cael eu rheoli'n briodol yn gallu arwain at wanhau eu gwarchodaeth a'u statws. Nododd yr Ymddiriedolaeth hefyd ei bod yn hanfodol bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod safleoedd gwarchodedig sydd wedi'u dynodi ar hyn o bryd mewn cyflwr ffafriol cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau nad oes modd i ddatblygu amhriodol ddigwydd. Gwnaeth ddadlau hefyd, os daw i'r amlwg bod safle arfaethedig yn haeddu cael ei hysbysu'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig wrth i gais cynllunio gael ei ystyried, y dylai'r safle gael ei drin fel pe bai wedi'i hysbysu, a hynny fel mater o bolisi Llywodraeth Cymru.

### 9.2.6 Defnydd effeithiol o ddeddfwriaeth bresennol

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen i sicrhau bod pwerau presennol yn cael eu defnyddio'n gywir.[105] Nododd Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, er bod y fframwaith cyfreithiol presennol yn rhoi sylw i warchod safleoedd gwarchodedig, serch yn amherffaith, mai prin y mae'r fframwaith cyfreithiol hwnnw wedi'i orfodi ac mai ychydig iawn o ddirwyon neu euogfarnau sydd wedi bod.

[104] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Coed Cadw.
[105] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.

Er i fwyafrif yr ymatebwyr bwysleisio'r angen brys i gyflwyno newidiadau deddfwriaethol sy'n hybu gwarchod safleoedd gwarchodedig, roedd yna ddau ymatebydd[106] a oedd yn amlwg iawn yn gwrthwynebu cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth newydd ac na allent weld pa fudd a fyddai'n deillio o wneud hynny. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn teimlo y gallai cynyddu gofynion cyfreithiol atgyfnerthu diffyg rheolaeth a rhewi unrhyw ymgais i ymwneud yn weithredol â'r safleoedd. Nododd fod fframwaith cymhleth o ddeddfwriaeth, pwerau a gwahanol ofynion o ran cydsyniad yn bodoli eisoes, ochr yn ochr â dryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am beth, a bod yna bryderon am adnoddau a gorfodi. Awgrymodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac Undeb Amaethwyr Cymru mai nid mesurau cyfreithiol sydd eu hangen ond hybu'r gwaith o feithrin cydberthnasau cadarnhaol ac ymddiriedaeth rhwng ffermwyr ac asiantiaid tir, cynyddu arbenigedd yn gyffredinol, sicrhau cyllid teg, a sicrhau digon o amser i ddatblygu cynlluniau i helpu i reoli'n rhagweithiol y rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig ar draws Cymru.

**9.3 Safbwyntiau AIDAC ar newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol presennol**

Rydym yn cytuno bod y broses hysbysu ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gallu cymryd llawer o amser ac yn gallu gofyn am lawer o adnoddau. Mae hefyd yn broses anhyblyg ac anaddas ar gyfer mynd i'r afael â newidiadau sy'n digwydd i fioamrywiaeth o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd. Er bod yr adran 28[107] ddiwygiedig erbyn hyn yn cynnwys darpariaethau i wneud newidiadau i gynnwys hysbysiad ac i ychwanegu ato neu ymhelaethu arno, mae'r pethau hynny hefyd yn gofyn am broses hysbysu ffurfiol. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi y byddai'r sefyllfa yn gwella drwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol ymhellach. Mae'n bosibl, maes o law, y dylid cynnal adolygiad mwy sylfaenol o'r gyfraith ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, rydym yn credu y byddai unrhyw newidiadau i'r gyfraith er mwyn symleiddio'r gweithdrefnau hysbysu yn wrthgynhyrchiol, oherwydd mae'n debygol y byddent yn digio tirfeddianwyr.

[106] Undeb Amaethwyr Cymru, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr.
[107] Adrannau 28A-C y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.

Nodwyd bod yr anallu i reoli gweithgareddau y tu allan i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a allai gael effaith niweidiol ar y nodweddion y cafodd y safle ei hysbysu o'u herwydd, yn bryder difrifol. Parodd hynny i sawl ymatebydd gynnig y dylai Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gael yr un warchodaeth gyfreithiol ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Er y gallwn weld manteision gwneud hynny, nid ydym yn credu y byddai'n briodol ym mhob sefyllfa. Fel y nodwyd yn y dystiolaeth, gellir cael cydsyniad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gyflym, ond mae cael cydsyniad Ardal Cadwraeth Arbennig yn cymryd tipyn mwy o amser ac mae'r broses yn fwy beichus. Cawsom ein calonogi gan y datganiadau sydd yn rhifyn 12 o Bolisi Cynllunio Cymru, sef bod yna ragdybiaeth yn erbyn unrhyw ddatblygiad mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig nad yw'n angenrheidiol ar gyfer rheoli'r safle ac, at hynny, bod yna ragdybiaeth yn erbyn datblygiad sydd y tu allan i'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ond sy'n debygol o'i ddifrodi.[108] Hoffem awgrymu mai dim ond ar sail asesiad ffafriol o effeithiau amgylcheddol y dylai unrhyw benderfyniad i wrthod y rhagdybiaeth honno gael ei wneud.

Ar gyfer gweithgareddau y mae angen awdurdodiadau heblaw caniatâd cynllunio ar eu cyfer, mae'n bosibl bod yna achos dros ymestyn y darpariaethau ar gyfer asesiad priodol, ond nid ydym o'r farn y byddai hynny o reidrwydd yn gofyn am newid yn y gyfraith. Mae adran 28G y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn mynnu bod ymgymerwyr statudol yn cymryd camau rhesymol i hybu cadwraeth a gwelliannau yng nghyswllt nodweddion hysbysedig. Gallai'r ddyletswydd honno, ynghyd â'r ddyletswydd gyffredinol ar gyrff cyhoeddus dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, gael ei defnyddio i sicrhau nad yw effaith gweithgareddau y tu allan i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn achosi difrod drwy amryfusedd.

[108] Gweler adran 3.1 uchod.

# 10 Rheoli a chytundebau rheoli

## 10.1 Y gyfundrefn gyfreithiol ar gyfer rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

Mae rheoli safleoedd gwarchodedig yn hollbwysig er mwyn eu cyflwr ac er mwyn gwarchod y nodweddion y cawsant eu dynodi o'u herwydd. Mae rheoli safleoedd o ddydd i ddydd yn dibynnu ar weithredoedd rheolwyr tir, ac mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer safleoedd gwarchodedig yn cynnwys darpariaethau i helpu i sicrhau bod y gweithgareddau hynny'n cael eu cynllunio a'u cyflawni yn unol â'r anghenion rheoli a nodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae adran 28 ddiwygiedig y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn mynnu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys, yn yr hysbysiad ar gyfer Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ddatganiad ynghylch ei safbwyntiau ar reoli safle. Mae hefyd yn bosibl, dan adran 28J, iddo lunio cynllun rheoli ar gyfer gwarchod a/neu adfer nodweddion, ond rhaid i hynny gael ei wneud gan ymgynghori â'r deiliad tir. Os yw'r deiliad tir yn methu â gweithredu cynllun rheoli ac os yw'r safle yn cael ei reoli'n annigonol, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau dan adran 28K i gyflwyno hysbysiad rheoli sy'n mynnu cydymffurfiaeth yn yr achosion lle mae wedi methu â chwblhau cytundeb rheoli â'r deiliad tir. Os oes raid, gall Cyfoeth Naturiol Cymru fynd i mewn i'r tir i gyflawni'r gwaith gofynnol ac adennill y costau oddi wrth y tirfeddiannwr.

Mae adran 51 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn rhoi pwerau mynediad i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer nifer o ddibenion sy'n ymwneud â safleoedd gwarchodedig, sy'n cynnwys:

- penderfynu cynnig ymrwymo neu beidio i gytundeb rheoli ar gyfer y safle;
- llunio cynllun rheoli ar gyfer y safle; a
- pharatoi hysbysiad rheoli ar gyfer y safle.

## 10.2 Cytundebau rheoli

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau dan adran 16 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) i ymrwymo i gytundebau rheoli â deiliaid tir safleoedd gwarchodedig at amrywiaeth o

ddibenion. Mae'r adran yn caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru lunio cytundeb rheoli tir ag unrhyw berson sydd â buddiant mewn tir yng Nghymru, a hynny ynghylch rheoli neu ddefnyddio'r tir, os yw'n ymddangos iddo y byddai gwneud hynny'n hybu cyflawni unrhyw amcan sydd ganddo wrth gyflawni ei swyddogaethau[109]. Mae ceisio sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yng Nghymru yn un amcan o'r fath. Mae'r diffiniad o 'adnoddau naturiol'[110] yn cynnwys yr holl nodweddion a all gael eu gwarchod gan hysbysiad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae adran 28E y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, sy'n egluro dyletswyddau deiliaid unrhyw dir mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yn datgan na ddylent gyflawni unrhyw weithrediad a nodir yn yr hysbysiad oni chaiff rhai amodau eu bodloni. Un amod o'r fath dan adran 28E(3)(b) yw bod y gweithrediad yn cael ei gyflawni'n unol â thelerau cytundeb dan adran 16 Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Gellir llunio cytundebau rheoli tir adran 16 er mwyn:

(a) gosod rhwymedigaethau mewn cysylltiad â defnydd o'r tir ar y person sydd â buddiant yn y tir;

(b) gosod cyfyngiadau ar arfer hawliau dros y tir ar y person sydd â buddiant yn y tir;

(c) darparu i unrhyw berson neu bersonau wneud y gwaith hwnnw a allai fod yn hwylus at ddibenion y cytundeb;

(d) darparu ar gyfer unrhyw fater y mae cynllun rheoli sy'n ymwneud â Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn darparu ar ei gyfer (neu y gallai ddarparu ar ei gyfer);

(e) darparu i'r naill barti neu'r llall wneud taliadau i'r parti arall neu i unrhyw berson arall;

(f) cynnwys darpariaeth gysylltiedig a chanlyniadol.

---

[109] Mae adran 5(2) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn diffinio diben Cyfoeth Naturiol Cymru fel "ymgyrraedd at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol".
[110] Adran 2 Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Cyn i Ddeddf 2016 gael ei chyflwyno, gallai cytundebau rheoli ar gyfer safleoedd gwarchodedig gael eu llunio dan adran 16 y Ddeddf Parciau Cenedlaethol ac adran 15 y Ddeddf Cefn Gwlad.[111]

**10.3 Statws cytundebau rheoli**

Pan gafodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei sefydlu, roedd 403 o gytundebau adran 15 a oedd yn dod i ben ar ôl 31 Mawrth 2013 mewn grym.[112] Yn dilyn hynny, ymrwymodd Cyfoeth Naturiol Cymru i 228 o gytundebau adran 15 yr oedd eu dyddiad cychwyn rhwng 1 Ebrill 2013 a 21 Mawrth 2016. Ar y pryd, roedd cytundebau rheoli fel rheol yn para o leiaf pum mlynedd. Ar 9 Gorffennaf 2024, roedd 19 o gytundebau adran 15 yn dal i fodoli. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi ymrwymo i 570 o gytundebau rheoli tir adran 16 a oedd yn cychwyn ar 21 Mawrth 2016 neu wedi hynny, ac roedd 311 o'r rheini yn dal yn weithredol ar 9 Gorffennaf 2024.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo i 16 o Gytundebau Gwarchodfeydd Natur dan adran 16 y Ddeddf Parciau Cenedlaethol, a oedd yn cychwyn ar 1 Ebrill 2013 neu wedi hynny. Nid oes unrhyw Gytundebau Gwarchodfeydd Natur adran 16 newydd â dyddiad cychwyn ar ôl 18 Mehefin 2021 wedi'u cofnodi. Roedd cyfanswm o 19 o Gytundebau Gwarchodfeydd Natur adran 16 yn dal yn weithredol ar 9 Gorffennaf 2024.

**10.4 Tystiolaeth ynghylch rheoli a chytundebau rheoli**

Dyma'r cwestiwn a ofynnwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth:

*A oes unrhyw beth yn atal cytundebau rheoli rhag cael eu cadarnhau? Os felly, sut y gellid goresgyn y rhwystrau hyn?*

---

[111] Roedd adran 16 y Ddeddf Parciau Cenedlaethol yn berthnasol i gytundebau ar gyfer gwarchodfeydd natur; roedd adran 15 y Ddeddf Cefn Gwlad yn ymestyn y ddarpariaeth i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae Atodlen 2 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn dileu'r darpariaethau ar gyfer y cytundebau hyn.
[112] Gwybodaeth a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar 16 Awst 2024.

Cafodd sylwadau ynghylch y pwerau sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu ar gyfer rheoli safleoedd eu cynnwys hefyd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn.

### 10.4.1 Trosolwg

Yn gryno, roedd y dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu mai'r prif rwystrau i gadarnhau cytundebau rheoli oedd:

- diffyg adnoddau ariannol;
- diffyg staff sydd â chymwysterau a phrofiad addas yn Cyfoeth Naturiol Cymru;
- diffyg cymhelliad; a
- phryderon ynghylch pontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd.

Nodwyd hefyd bod cytundebau rheoli ar waith ar gyfer cyfran fach yn unig o safleoedd ac nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud defnydd llawn o'i bwerau i gynnig cynlluniau rheoli a chyflwyno hysbysiadau rheoli.

### 10.4.2 Rhwystrau i gytundebau rheoli

Yn y dystiolaeth, nodwyd mai diffyg adnoddau oedd y prif reswm pam y mae nifer y cytundebau rheoli ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gymharol fach.[113] Efallai fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru yr awdurdod i greu, cefnogi a gweithredu cytundebau rheoli, ond heb gyllid digonol ni all ddefnyddio'r pwerau hynny i'r eithaf. Nododd ymatebwyr ei bod yn annhebygol y byddai'r problemau hyn yn cael eu datrys oni bai bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael mwy o adnoddau.

Ystyrid nad cyllid uniongyrchol ar gyfer cytundebau rheoli oedd yr unig rwystr i'w oresgyn, fodd bynnag. Honnwyd bod yna ddiffyg staff sydd â chymwysterau a phrofiad addas yn Cyfoeth Naturiol Cymru i hwyluso datblygu a gweithredu cytundebau

[113] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Plantlife Cymru, Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur.

rheoli.[114] Yn benodol, nodwyd bod yna brinder asiantiaid tir a swyddogion amgylcheddol yn Cyfoeth Naturiol Cymru, a bod llwyth gwaith y sawl a oedd yno mor feichus fel eu bod yn methu â hwyluso cytundebau rheoli'n effeithiol ar draws yr holl safleoedd a fyddai'n elwa ohonynt.

Mae bod yn rhan o gytundeb rheoli yn gam gwirfoddol, ac ni fydd deiliaid tir yn fodlon cyfranogi oni bai bod yna gymhelliad iddynt wneud hynny. Nodwyd bod nifer y cytundebau rheoli newydd yr ymrwymir iddynt yn tueddu i amrywio'n unol â'r adnoddau sydd ar gael ac yn unol â chydnawsedd â chynlluniau cyllid amaeth-amgylcheddol amgen. Awgrymwyd bod ffermwyr yn aml wedi ffafrio cynlluniau amaeth-amgylcheddol oherwydd eu bod yn cynnig cymelliadau ariannol mwy hael.[115] Roedd yna bryderon nad oedd amcanion a gofynion y cynlluniau hynny o reidrwydd yn gydnaws ag angen penodol Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.[116] At hynny, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr fod llawer o ffermwyr yn gyndyn o ymrwymo i gytundebau rheoli newydd oherwydd yr ansicrwydd ynghylch cyllid. Roedd y broses o bontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd https://www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-canllaw o'r Cynllun Taliad Sylfaenol wedi arwain at amharodrwydd ymhlith ffermwyr i ymrwymo i gytundeb adran 16 pum mlynedd, rhag ofn y byddai hynny'n anfanteisiol iddynt yn y dyfodol dan y cynllun ariannu newydd. Nes y byddai mwy o sicrwydd ynghylch y dirwedd ehangach o ran deddfwriaeth a chyllid ar gyfer amaethyddiaeth, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y byddai ffermwyr yn llai tebygol o ffafrio cytundebau neu gynlluniau a allai roi'r argraff eu bod yn cau'r ffermwyr hynny allan o'r diwygiadau ehangach sy'n digwydd yn y sector.

#### 10.4.3 Goresgyn y rhwystrau

I ddatrys y broblem ariannu, dywedodd sawl ymatebydd fod yn rhaid cael llawer o ailfuddsoddi ac adnoddau drwy fesurau ariannol er mwyn darparu'r cyllid a'r staff i

[114] Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol, Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur.
[115] Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur.
[116] Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur, Plantlife Cymru.

gefnogi cytundebau rheoli.[117] Byddai'n rhaid i'r cyllid hwnnw fod yn gyllid cyson a hirdymor yn hytrach na bod yn gyllid sy'n llenwi bwlch byrdymor yn unig. Nodwyd bod bylchau ariannol yn aml wedi'u llenwi gan becynnau cyllid byrdymor a allai danseilio pa mor gyflym ac ar ba raddfa y gall Cymru gyflawni ei nodau hirdymor.[118]

Roedd yna bryderon nad oedd digon o werth yn cael ei roi ar rôl y deiliad tir o ran rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.[119] Mae cytundebau rheoli'n cymryd llawer o amser i'w sefydlu ac yn cymryd llawer o amser y deiliad tir, felly rhaid bod ymrwymo i'r cytundebau rheoli'n fanteisiol iddynt yn y tymor hir. Mae'n bosibl nad yw cyllid i wneud iawn am dreuliau a cholli incwm yn ddigon o gymhelliad. Awgrymwyd bod angen taliadau adran 16 uwch efallai, a gytunir ar gyfer cyfnodau hirach, er mwyn rhoi digon o incwm i dirfeddianwyr yn y tymor hir.[120] Awgrym arall oedd y gellid darparu rhyddhad treth i ddeiliaid tir Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig fel un ffordd o gefnogi ariannu cytundebau rheoli.[121]

Hyd yn oed pe bai cyllid digonol ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru allu cynnig mwy o gytundebau rheoli, y gred oedd y byddai nifer y deiliaid tir a fyddai'n ymrwymo i gytundebau rheoli yn fach oni bai bod cydberthnasau rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a deiliaid tir yn cael eu gwella. I sicrhau llwyddiant, nododd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr fod angen i Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau bod rhwydwaith o swyddogion ar gael i ailsefydlu'r cydberthnasau gwaith cadarnhaol â ffermwyr ar lefel leol, ac yna i flaenoriaethu gwaith rheoli cadarnhaol dwy gytundebau rheoli a ariennir yn briodol. Yn yr un modd, nododd Ymddiriedolaethau Natur Cymru y gellid cael gwared ar un rhwystr wrth i staff lleol Cyfoeth Naturiol Cymru ddod i adnabod holl ddeiliaid tir Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn eu hardal nhw a dechrau meithrin perthynas gadarnhaol â nhw. Fel arall, roedd Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn

[117] Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Coed Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru.
[118] Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyfoeth Naturiol Cymru.
[119] Ymddiriedolaethau Natur Cymru, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru.
[120] Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr.
[121] Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

credu na fyddai'n bosibl i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gael eu rheoli'n ddigonol.

Y casgliad cyffredinol y daethpwyd iddo o'r dystiolaeth yw bod angen i gytundebau rheoli fod yn seiliedig ar berthynas gadarnhaol hirdymor a pharhaus rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a rheolwyr tir, ac y dylai taliadau a chymelliadau fod yn benodol i'r safle (sy'n rheswm dros beidio â dibynnu ar daliadau dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol).

### 10.4.4 Cynnwys cytundebau rheoli

Roedd rhai o'r sylwadau yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng trefniadau monitro ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'r gwaith o reoli'r safleoedd hynny. Nodwyd bod monitro'n hanfodol er mwyn ysgogi camau rheoli i wella'r modd y caiff safle gwarchodedig ei reoli. Awgrymwyd y dylai data monitro gael ei rannu â rheolwyr tir ac y dylai'r gwaith o reoli safle gael ei lywio gan argymhellion a wneir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn canlyniadau gwaith monitro cyflwr safle. Awgrymwyd hefyd, os yw data monitro'n dangos bod cyflwr safle heb newid neu'n dirywio, bod yn rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gymryd camau i fynd i'r afael â hynny drwy gytundeb rheoli neu drwy ddefnyddio pwerau eraill.[122]

Awgrymwyd hefyd y dylai fod yna gronfa ddata ynghylch rheoli safleoedd gwarchodedig, a weinyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac sy'n hygyrch i'r sector gwirfoddol. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrthym[123] ei fod yn defnyddio cronfa ddata fewnol at ddibenion storio a dadansoddi gwybodaeth sy'n ymwneud â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'r gwaith o'u rheoli. Gan fod y gronfa ddata honno'n cynnwys gwybodaeth bersonol sensitif, nid yw'n uniongyrchol hygyrch i'r cyhoedd. Aeth yn ei flaen i ddweud y gallai data perthnasol gael ei rannu dan drwydded â rhanddeiliaid y mae angen iddynt gael mynediad i'r gronfa ddata er mwyn hybu camau i reoli cadwraeth.

---

[122] Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.
[123] Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i gwestiynau AIDAC ynghylch safleoedd gwarchodedig, a gafwyd ar 16 Awst 2024.

Cafwyd rhai awgrymiadau penodol ynghylch cynnwys cytundebau rheoli. Un awgrym oedd y dylid cynnwys targedau interim mewn cytundebau rheoli er mwyn tracio cyfeiriad a chyflymder adferiad cynefinoedd.[124] Awgrym arall oedd y dylid cyflwyno dull seiliedig ar ganlyniadau o ymdrin â chytundebau rheoli.[125] Nodwyd hefyd y dylai camau gweithredu fod yn benodol i safle a bod angen i'r technegau a amlinellir yn y cytundeb gael eu teilwra i sgiliau ac adnoddau rheolwyr tir.[126]

Awgrymwyd hefyd y dylai cytundebau rheoli ystyried y bloc ehangach o gynefinoedd y mae nodweddion Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn rhan ohono (gan feddwl am yr hyn sydd y tu hwnt i derfynau dynodedig), er mwyn darparu adnoddau ar gyfer ymatebion rheoli priodol.[127]

### 10.4.5 Pwerau Cyfoeth Naturiol Cymru

Honnwyd nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud defnydd digonol o'i bwerau i reoli safleoedd. Roedd yna bryderon nad oedd unrhyw gytundeb rheoli ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Nodwyd mai dim ond 5.47 y cant o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn 2017 a oedd â chytundebau rheoli[128] er bod angen camau rheoli ar 67.1 y cant o safleoedd, yn ôl yr hyn a nodwyd.[129] Darparwyd tystiolaeth hefyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2023-2024 wedi rhoi'r gorau dros dro i lofnodi cytundebau rheoli tir newydd sbon a chytundebau rheoli tir a oedd yn cael eu hadnewyddu ac wedi rhoi stop dros dro ar daliadau blynyddol dan y cynllun Cymorth Grant.[130] Fodd bynnag, nododd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod wedi llofnodi 115 o gytundebau rheoli yn 2021, sef y nifer uchaf ers 2013.

---

[124] Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
[125] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
[126] Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
[127] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
[128] Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yn dyfynnu o'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol yma: https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/state-of-natural-resources-report-sonarr-for-wales-2020/?lang=cy .
[129] Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yn dyfynnu o https://www.whatdotheyknow.com/request/525403/response/1261404/attach/html/3/ATI%2016140a%20Response.pdf.html.
[130] Llythyr gan Cyfoeth Naturiol Cymru i Fforwm Rheoli Tir Cymru.

At hynny, roedd cyfanswm cost cytundebau'n eithaf isel: roedd cyfanswm cost 97 y cant o gytundebau rheoli tir yn ystod y 13 blynedd hyd at 2023 yn llai na £50,000 dros gyfnod o bum mlynedd.

Gellir llunio cytundeb rheoli tir yng nghyswllt unrhyw dir, nid dim ond yng nghyswllt tir sydd mewn safle gwarchodedig. Fodd bynnag, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrthym fod y trefniadau llywodraethiant mewnol a oedd ar waith ganddynt ym mis Chwefror 2023 yn ei alluogi i ddefnyddio cytundebau rheoli tir yng nghyswllt safleoedd gwarchodedig yn unig. Er hynny, roedd gweithgor wedi'i sefydlu i gyflwyno trefniadau llywodraethiant i'w alluogi i ddefnyddio ei gytundebau adran 16 at ddibenion cadwraeth y tu allan i safleoedd gwarchodedig.

Cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd ei fod wedi arfer ei bwerau yng nghyswllt cynlluniau rheoli unwaith yn unig, yn 2015, ac nad oedd erioed wedi arfer ei bwerau yng nghyswllt hysbysiadau rheoli.[131]

**10.5 Safbwyntiau AIDAC ar reoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig**

Mae AIDAC o'r farn bod y pŵer i ymrwymo i gytundeb rheoli tir, yng nghyswllt unrhyw dir, yn rhoi i Cyfoeth Naturiol Cymru y system gyfreithiol angenrheidiol i'w alluogi i gydweithio â deiliaid tir er mwyn gwarchod a/neu adfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Fodd bynnag, rydym yn cytuno nad yw'r pwerau hynny wedi'u defnyddio mor llawn ag y mae angen iddynt gael eu defnyddio.

Rydym yn sylweddoli y byddai deiliaid tir wedi bod yn amharod i raddau i ymrwymo i gytundebau newydd nes y byddai telerau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd wedi'u cadarnhau. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'i gyhoeddi bellach.[132] Yn ogystal â gweithred gyffredinol i gynnal cynefinoedd lled-naturiol neu gynefinoedd sydd newydd gael eu creu fel eu bod o fudd i fywyd gwyllt a da byw sy'n pori (UA5), mae UA7 yn weithred gyffredinol i wella'r modd y caiff safleoedd dynodedig eu rheoli, gan

[131] Atodiad 1 ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i gwestiynau AIDAC ynghylch safleoedd gwarchodedig; cafwyd ar 16 Awst 2024.
[132] Gweler https://www.llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-2026-disgrifiad-or-cynllun-html#175201.

gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu cynlluniau rheoli a chytuno ar raglenni gwaith. Ceir y posibilrwydd o gynnwys llain glustogi o gwmpas safle dynodedig, sydd i'w benderfynu fesul achos. Y nod cyffredinol yw bod pob safle dynodedig sydd yn y cynllun yn cael ei reoli'n effeithiol erbyn diwedd 2030. Yn ogystal â'r gweithredoedd cyffredinol, mae yna sawl gweithred opsiynol berthnasol hefyd, sy'n cynnwys rheoli cynefinoedd yn well, creu cynefinoedd newydd a gweithredu rhaglenni gwaith.

O'u cyfuno, gallai cytundebau rheoli tir a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyfrannu llawer mewn egwyddor at warchod ac adfer safleoedd gwarchodedig. Fodd bynnag, bydd llwyddiant yn dibynnu ar nifer o ffactorau a nodwyd yn y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, sef:

- gwybodaeth am statws presennol o ran cadwraeth y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig;
- camau i ddatblygu cydberthnasau gwaith da rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a deiliaid tir fel bod modd deall manteision camau rheoli yn llawn;
- argaeledd nifer addas o staff cymwys a phrofiadol Cyfoeth Naturiol Cymru i weithio gyda deiliaid tir;
- digon o arian i sicrhau bod cytundebau rheoli tir a/neu fathau eraill o daliadau'n gallu cael eu trefnu pryd bynnag y bernir bod hynny'n angenrheidiol;
- cymhelliad digonol i ddeiliaid tir ystyried ei bod yn werth chweil iddynt ymrwymo i ryw fath o gytundeb rheoli.

Yn ein barn ni, rhan bwysicaf yr adran 28 ddiwygiedig yw'r gofyniad i ddatganiad rheoli gael ei gynnwys yn y papurau hysbysu. Mae hynny wedyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer yr opsiynau sydd ar gael i gyflawni o ran yr anghenion rheoli. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl mai'r cyfan sydd ei angen o hyd yw'r rhestr o weithrediadau a allai fod yn andwyol ynghyd â'r angen am gydsyniad i gyflawni'r gweithrediadau hynny. Mewn achosion eraill, yn enwedig os oes angen camau rheoli cadarnhaol, efallai mai'r opsiwn a ffefrir fydd trafod telerau cytundeb rheoli tir.

Nid yw'n syndod o gwbl i ni mai prin yw'r defnydd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i wneud o'i bwerau i lunio Cynllun Rheoli, ac ni fyddem yn ei feirniadu am hynny. Gallwn weld mantais bosibl Cynllun Rheoli fel dull o berswadio deiliad tir cyndyn i fod yn rhan o drafodaethau am ddulliau rheoli arfaethedig. Byddai'r opsiwn i gyflwyno Hysbysiad Rheoli wedyn yn gymhelliad terfynol i annog y deiliad tir i gydymffurfio. Yn ein barn ni, fodd bynnag, dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y dylai'r dyfeisiau hyn gael eu defnyddio. Mae rheoli Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus os yw'r deiliad tir yn gyfranogwr bodlon. At hynny, mae'r gweithdrefnau ar gyfer Cynlluniau Rheoli ac ar gyfer Hysbysiadau Rheoli yn dilyn y gweithdrefnau ar gyfer hysbysu safle, a'r canlyniad yw y gallai gymryd misoedd iddynt gael eu cadarnhau a mwy fyth o amser pe bai'r deiliad tir yn dewis apelio yn erbyn yr Hysbysiad Rheoli.[133]

[133] Mae adran 28L yn darparu ar gyfer apêl i Lywodraeth Cymru.

# 11 Systemau gorfodi

## 11.1 Cyflwyniad

Mae'r ddeddfwriaeth ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cynnwys sawl trosedd a restrir yn Nhabl 1. Oni nodir fel arall, gallai'r cyfan arwain at ddirwy anghyfyngedig yn dilyn euogfarn.

Tabl 1 Troseddau

| Y drosedd | Y gosb | Rhif yr adran |
|---|---|---|
| Cyflawni gweithrediad a allai fod yn andwyol, heb gydsyniad Cyfoeth Naturiol Cymru | Euogfarn ddiannod neu dditiad | Adran 28P(1) |
| Difrod a achosir gan weithgaredd ymgymerwr statudol | Euogfarn ddiannod neu dditiad | Adran 28P(2-3 a 5A) |
| Difrod trydydd parti gan wybod bod yr ardal mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | Euogfarn ddiannod neu dditiad | Adran 28P(6) |
| Difrod trydydd parti heb wybod bod yr ardal mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | Euogfarn ddiannod sy'n destun dirwy lefel 4 | Adran 28P(6A) |
| Methu â chydymffurfio â Hysbysiad Rheoli | Euogfarn ddiannod neu dditiad | Adran 28P(8) |

Mae polisi gorfodi a sancsiynau Cyfoeth Naturiol Cymru yn amlinellu ei ddull o 'dargedu' camau gorfodi.[134] Mae hynny'n golygu defnyddio ystod o opsiynau gorfodi sy'n amrywio o ddarparu cyngor ac arweiniad i gyflwyno sancsiynau troseddol. Mae'n defnyddio dull haenog o orfodi, nad yw fel rheol yn cynnwys erlyn.

Wrth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, darparodd Cyfoeth Naturiol Cymru y wybodaeth ganlynol sy'n dangos ei ddull o orfodi. Gwnaeth y sefydliad gofnodi 69 o ddigwyddiadau'n ymwneud â safleoedd gwarchodedig ar ei system adrodd ynghylch digwyddiadau yn 2021. O blith y rheini, barnwyd bod 25 yn ddigwyddiadau 'lefel uchel'. Aeth Cyfoeth Naturiol Cymru i leoliadau 10 o'r digwyddiadau lefel uchel hynny a chadarnhau ac adnabod bod troseddau wedi'u cyflawni ym mhump ohonynt.

[134] https://naturalresourceswales.gov.uk/about-us/what-we-do/how-we-regulate/our-regulatory-responsibilities/enforcement-and-sanctions-policy/?lang=cy.

Arweiniodd hynny at ddau lythyr a oedd yn cynnwys rhybudd ffurfiol. Ymdriniwyd â'r tri digwyddiad arall drwy roi cyngor ac arweiniad. Aeth Cyfoeth Naturiol Cymru i leoliadau 14 o'r 44 o ddigwyddiadau 'lefel isel', a medrodd gadarnhau ac adnabod troseddau yn wyth ohonynt. Arweiniodd hynny at bedwar llythyr a oedd yn cynnwys rhybudd ffurfiol. Ymdriniwyd â dau ddigwyddiad drwy roi cyngor ac arweiniad. Ni chafodd unrhyw gamau pellach eu cymryd yng nghyswllt y ddau ddigwyddiad arall.

Yn ei Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol 2022,[135] nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod 45 o gyhuddiadau gorfodi wedi'u gwneud dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, Fodd bynnag, ni cheir dadansoddiad o'r troseddau hynny, felly ni wyddys faint ohonynt sy'n berthnasol i safleoedd gwarchodedig. Gwnaethom ofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru a allai roi rhagor o fanylion, a darparodd y wybodaeth a ddangosir yn Nhabl 2.[136]

Tabl 2 Cyhuddiadau troseddol dan adran 28 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad

| Adran | 2022 | 2023 |
|---|---|---|
| Adran 28E(1) | 11 | 13 |
| Adran 28P | 4 | 2 |
| Adran 28P(1) | 20 | 29 |
| Adran 28P(2)(A) | 5 | 1 |
| Adran 28P(2)(B) | 3 | 1 |
| Adran 28P(3) | | 2 |
| Adran 28P(6) | 1 | 5 |
| Adran 28P(6A) | | 1 |
| Adran 28P(6A)(a) | 4 | 4 |
| Cyfanswm | 48 | 58 |

[135] https://naturalresources.wales/about-us/how-we-are-performing/annual-regulation-report-2022/?lang=cy.

[136] Gwybodaeth a ddarparwyd mewn atebion ysgrifenedig i gwestiynau gan AIDAC ar 16 Awst 2024. Noder nad yw adran 28E(1) yn cynnwys trosedd, felly rhagdybir bod y cyhuddiadau a restrir wedi'u gwneud dan adran 29P(1).

Mae hefyd yn bosibl i Cyfoeth Naturiol Cymru ofyn am orchymyn adfer gan y llys os ceir euogfarn lwyddiannus dan adran 28P(1), (2), (3), (6) neu (6A) y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.[137]

Mae Natural England yn gallu defnyddio sancsiynau sifil ar gyfer troseddau'n ymwneud â bywyd gwyllt a difrod i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ond dim ond yn Lloegr y mae'r pŵer hwnnw'n berthnasol.[138] Yng Nghymru, nid oes sancsiynau sifil ar gael yng nghyswllt y troseddau hynny.

### 11.2 Tystiolaeth ynghylch systemau gorfodi

Dyma'r cwestiwn a ofynnwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth:

*Pa newidiadau i'r mecanweithiau gorfodi presennol, os o gwbl, fyddai'n cyflawni canlyniadau gwell ar gyfer safleoedd gwarchodedig?*

#### 11.2.1 Trosolwg

Yn gryno, dangosodd y dystiolaeth fod yna rywfaint o gefnogaeth i gosbau troseddol llymach gyda mwy o bwyslais ar erlyn. Fodd bynnag, cyfeiriwyd hefyd at gyfyngiadau o ran costau ac at broblemau o ran tystiolaeth yng nghyswllt erlyniadau troseddol yng nghyd-destun safleoedd gwarchodedig. Er hynny, awgrymwyd bod angen rhai erlyniadau er mwyn atal troseddau. Roedd yna gefnogaeth dros gyflwyno sancsiynau sifil ar gyfer troseddau yng nghyswllt safleoedd gwarchodedig. Awgrymwyd y gellid osgoi'r angen am orfodi mewn llawer o achosion pe bai yna welliannau i eglurder y wybodaeth sydd ar gael i ddeiliaid tir a thrydydd partïon.

[137] Adran 31 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.
[138] Dan Atodlen 5 Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Lloegr) 2010/1157.

### 11.2.2 Dull o orfodi

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu bod gorfodi'n ddull pwysig o warchod safleoedd, os caiff ei ddefnyddio'n gywir.[139] Fodd bynnag, roedd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yn pryderu nad oedd yr ystod o offer a oedd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar hyn o bryd ac mai ychydig iawn o erlyniadau a geir. Dywedodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru ei bod yn ei chael yn anodd deall a oedd y diffyg defnydd o systemau gorfodi yn ganlyniad polisi ynteu'n ganlyniad diffyg adnoddau.

Nodwyd y dylai gwaith gorfodi fod yn deg ac yn gymesur i'r drosedd a gyflawnwyd.[140] Roedd Ymddiriedolaethau Natur Cymru o blaid dull wedi'i dargedu o weithredu, sy'n canolbwyntio ar y sawl sy'n aildroseddu a'r sawl sy'n torri'r rheolau yn ddigywilydd neu'n bwrpasol, ond roedd hefyd yn teimlo bod angen cynyddu nifer yr erlyniadau. Ystyrid bod erlyniadau mor brin ar hyn o bryd fel mai bach iawn o effaith yr oeddent yn ei chael o ran atal troseddau.

Awgrymwyd yn y Fforwm Arbenigwyr bod angen cynyddu atebolrwydd Cyfoeth Naturiol Cymru am ei ddull a'i gamau gorfodi. Dywedwyd bod hynny ar y pryd yn dibynnu ar Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru, llythyrau cylch gwaith Llywodraeth Cymru a systemau craffu'r Senedd ond, yn ôl pob golwg, mai prin oedd y galwadau am dystiolaeth ynghylch perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru.

### 11.2.3 Defnyddio sancsiynau troseddol

Y pwynt cyntaf i'w nodi yn y Fforwm Arbenigwyr oedd yr angen am sylfaen dystiolaeth briodol ar gyfer mesurau gorfodi drwy fonitro'n ddiwyd. Dywedwyd hefyd, heb ymweliadau rheolaidd â safleoedd, bod y rhan fwyaf o ymchwiliadau Cyfoeth Naturiol

---

[139] Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Coed Cadw, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, roedd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr o'r farn na allwch gael safleoedd i gyflwr ffafriol drwy waith rheoleiddio. Yn hytrach, dylai'r pwyslais fod ar gydweithio â phobl i ddatrys problemau drwy gytundebau rheoli.

[140] Coed Cadw, Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur.

Cymru yn ymateb i bryderon a adroddwyd wrtho[141], ond dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrthym nad oedd hynny'n wir.[142]

Ar sail ei brofiad yn Sir Benfro, roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi dod i'r casgliad nad oes yna lawer o sefyllfaoedd lle mae camau gorfodi wedi bod yn ofynnol yn erbyn deiliad tir. Mewn achosion lle mae camau gorfodi wedi bod yn angenrheidiol, y rheswm am hynny'n aml yw bod yna reolwr tir newydd nad yw'n gwybod am y dynodiad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Dan adran 28Q, rhaid i berchennog Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru os yw'n gwaredu'r tir neu'n dod i wybod ei fod yn cael ei feddiannu gan ddeiliad ychwanegol neu wahanol. Mae methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd hon yn drosedd. Gwnaethom ofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru am ragor o wybodaeth. Dywedodd wrthym ei fod yn ymwybodol o nifer o achosion o fethu â chydymffurfio, ond nad oedd y rheini'n cael eu cofnodi fel mater o drefn. Er bod yna rai achosion lle'r oedd y methiant hwnnw wedi arwain at weithgareddau'n digwydd ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig heb gydsyniad, nid oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwybod am unrhyw achosion yn ystod y pum mlynedd blaenorol lle dyna oedd yr unig reswm neu'r rheswm pennaf dros ddifrod i nodwedd Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.[143]

Roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ymwybodol o nifer fach o safleoedd lle caiff troseddau eu cyflawni'n aml gan drydydd partïon, sy'n cynnwys tipio sbwriel yn anghyfreithlon a tharfu ar rywogaethau gwarchodedig ar safleoedd hygyrch. Roedd yn ymddangos i'r Awdurdod bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyndyn o

---

[141] Gall aelodau'r cyhoedd roi gwybod am ddifrod i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gan ddefnyddio cyfleuster Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau: https://naturalresources.wales/about-us/contact-us/report-an-incident/?lang=cy.

[142] Gwnaethom ofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn wir bod y rhan fwyaf o ymchwiliadau i safleoedd yn cael eu gwneud mewn ymateb i bryderon a fynegir gan drydydd partïon, a pha gyfran o gamau gorfodi sy'n deillio o ymweliadau sy'n digwydd fel mater o drefn i reoli safleoedd. Dywedodd wrthym nad oes ganddo ddata yn y fformat hwnnw ond, ar sail trafodaethau ag aelodau perthnasol o staff gweithredol, ei fod yn amcangyfrif bod tua 80 y cant o gamau gorfodi'n deillio o ymweliadau sy'n digwydd fel mater o drefn â safleoedd, a bod yr 20 y cant arall yn ganlyniad adroddiadau gan drydydd partïon. Gwybodaeth a ddarparwyd mewn atebion ysgrifenedig i gwestiynau gan AIDAC, 16 Awst 2024.

[143] Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i gwestiynau AIDAC ynghylch safleoedd gwarchodedig, 16 Awst 2024.

ddefnyddio teledu cylch cyfyng yn y mannau hynny. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod casglu tystiolaeth ynghylch troseddau gan drydydd partïon dan adran 28P(6) ac adran 28P(6A) yn waith beichus iawn, a'i bod yn aml yn anodd gwneud hynny oherwydd yr angen i ddangos bod y difrod yn ganlyniad gweithred fwriadol neu ddi-hid.

### 11.2.4 Awgrymiadau ar gyfer gwella

Galwodd rhai ymatebwyr am gosbau mwy o faint ar gyfer troseddau, ac awgrymwyd nad yw cosbau ar gyfer difrod bwriadol i nodweddion safleoedd gwarchodedig yn ddigon i atal gweithredwyr mawr sy'n barod i gymryd y risg ariannol.[144] Awgrymodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru hefyd y dylid ystyried dedfrydau o garchar ar gyfer troseddau bwriadol neu sylweddol neu ar gyfer achosion o aildroseddu.

Gwnaethpwyd awgrymiadau hefyd ynghylch gwelliannau a allai leihau'r angen am orfodi, a oedd yn cynnwys arweiniad gwell i berchnogion a rheolwyr safleoedd ac i'r cyhoedd am eu cyfrifoldebau yng nghyswllt Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Roedd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yn credu y dylid cael gwybodaeth glir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer perchnogion a rheolwyr safleoedd gwarchodedig, sy'n egluro ei ddull o sicrhau camau rheoli priodol ar gyfer safleoedd ac sy'n nodi'r camau gweithredu a gymerir os nad yw safle'n cael ei reoli'n briodol neu os oes difrod yn digwydd.

Roedd y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur yn credu y dylid anelu camau gorfodi'n well at y sawl sy'n aildroseddu a'r sawl sy'n torri'r rheolau yn ddigywilydd neu'n bwrpasol. Roedd y Rhwydwaith yn pryderu'n benodol am yr awgrym bod rhai ffermwyr yn ymgorffori cosbau ariannol yn eu costau busnes. Galwodd am gamau gorfodi gwell er mwyn dileu arferion o'r fath.

[144] Ymddiriedolaethau Natur Cymru, Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.

Roedd y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur hefyd yn teimlo bod angen cysylltiad agos rhwng rheoleiddio a chynghori mewn achosion lle canfyddir bod rheolwyr tir yn gweithredu'n groes i'r rheoliadau. Os oedd yna broblem reoli, dylai deiliaid tir gael cyngor o safon er mwyn eu helpu i gydymffurfio, a dylent gael amser priodol i unioni'r sefyllfa.

Awgrymwyd hefyd y dylid cyfathrebu'n well â'r cyhoedd yn ehangach, ac y dylai hynny gynnwys arwyddion gwell.[145] Roedd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi gwybodaeth glir ynghylch sut mae rhoi gwybod am bryderon am y modd y caiff safle gwarchodedig ei reoli, neu am ddifrod neu darfu posibl; dylai'r wybodaeth gynnwys manylion y dystiolaeth y mae'n rhaid ei chasglu a sut mae ei chyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu'r heddlu.[146]

### 11.2.5 Pwerau newydd arfaethedig

Gwnaed nifer o awgrymiadau ynghylch pwerau ychwanegol a throseddau, a oedd yn cynnwys sawl un a gynigiwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth.

Mae adran 31 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn rhoi i Cyfoeth Naturiol Cymru y pŵer i ofyn am orchymyn adfer gan y llys, ond dim ond yn dilyn erlyniad llwyddiannus y gellir gwneud hynny, ac mae wedi'i gyfyngu i droseddau dan adrannau 28P(1), (2), (3), (6) neu (6A). Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru pe bai modd iddo ofyn am orchymyn adfer mewn ymateb i unrhyw drosedd sy'n achosi difrod i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Roedd yna lawer o gefnogaeth dros ymestyn sancsiynau sifil i droseddau'n ymwneud â safleoedd gwarchodedig yng Nghymru fel ffordd o roi i Cyfoeth Naturiol Cymru ystod

---

145 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.

146 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Noder bod gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu manylion ynghylch sut mae rhoi gwybod am ddigwyddiad a pha wybodaeth y mae angen ei darparu; https://naturalresources.wales/about-us/contact-us/report-an-incident/?lang=cy.

ehangach o opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â throseddau, a fyddai'n esgor ar ganlyniadau gwell i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.[147]

Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru pe bai ei bwerau mynediad dan adran 51 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn cael eu hymestyn er mwyn ei alluogi i fynd ar dir trydydd parti i gyflawni gwaith rheoli gofynnol, ac adennill costau gwneud hynny oddi wrth y deiliaid tir. Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru ei bod yn aml yn amhosibl iddo ymrwymo i gytundeb rheoli tir ar gyfer tir comin oherwydd nad yw'r perchennog/deiliad yn hysbys. Gallai cael y pŵer i fynd ar y tir i gyflawni'r gwaith ei hun fod yn ateb i'r broblem honno, hyd yn oed pe na bai modd iddo adennill y costau yn y sefyllfaoedd hynny.

Mae casglu tystiolaeth ynghylch troseddau gan drydydd partïon yng nghyswllt Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dan adrannau 28P(6) a 28P(6A) yn waith beichus iawn, ac yn aml mae'n anodd gwneud hynny oherwydd bod angen i Cyfoeth Naturiol Cymru allu dangos bod y troseddwr wedi achosi difrod i'r nodweddion hysbysedig a'i fod wedi gweithredu'n fwriadol neu'n ddi-hid. Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru pe bai'r diffiniad o feiusrwydd troseddwr dan adran 28P ac adran 28P(6A) yn cael ei ehangu i gynnwys esgeulustod.

Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru pe bai modd iddo adennill costau ymateb i ddigwyddiadau ar safleoedd gwarchodedig, sy'n debyg i'r egwyddor 'y sawl sy'n llygru sy'n talu' ar gyfer troseddau'n ymwneud â llygredd dŵr dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991. Mae'n credu y gallai hynny atal troseddau a galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i adennill costau y tu allan i erlyniadau ffurfiol.

### 11.3 Safbwyntiau AIDAC ar systemau gorfodi

Mae AIDAC yn cytuno â Cyfoeth Naturiol Cymru mai dull wedi'i dargedu o orfodi yw'r ffordd orau o ymdrin â throseddau. Gall erlyniadau gymryd llawer o amser a bod yn

[147] Y Fforwm Arbenigwyr, Coed Cadw, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Cyfoeth Naturiol Cymru.

gostus, a dylid eu cadw'n ôl ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol, yn enwedig achosion o aildroseddu. Fel y nodwyd yn y Fforwm Arbenigwyr, y peth pwysicaf yw bod unrhyw ddifrod yn cael ei unioni os oes modd, a'i fod yn cael ei osgoi yn y dyfodol.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn cytuno bod y bygythiad o erlyniad yn offeryn defnyddiol i annog cydymffurfiaeth. Mae'r rhan fwyaf o droseddau adran 28 yn arwain at ddirwy anghyfyngedig. Nid ydym yn credu bod gan y llysoedd y gallu i roi gwerth ariannol ar y golled i gymdeithas yng Nghymru pan fydd yna ddifrod i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac mae'n fwy na thebyg bod yr un peth yn wir hefyd am y sawl sy'n achosi'r difrod. Felly, rydym yn cytuno bod angen gwneud mwy i esbonio i bobl pam y mae'r amryw droseddau'n bodoli.

Rydym o'r farn mai prin yw'r cyfle sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd i ymdrin â throseddau, ac rydym yn cytuno'n gyffredinol â'i awgrymiadau ynghylch pwerau newydd. Rydym yn gryf o blaid y syniad o ddiwygio Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010 fel ei fod yn cynnwys troseddau dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Pe bai gan Cyfoeth Naturiol Cymru y pwerau hyn, byddai'n gallu mynnu bod deiliad tir yn unioni difrod ar safle heb fod angen ei erlyn yn llwyddiannus.

Rydym hefyd yn cefnogi awgrym Cyfoeth Naturiol Cymru y dylai gael pwerau mynediad i gyflawni gwaith rheoli ar dir trydydd parti, ac adennill y costau, mewn achosion lle nad yw'n gallu ymrwymo i gytundeb rheoli tir.

Roedd cyflwyno troseddau trydydd partïon yn ychwanegiad i'w groesawu at y gyfraith ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ond, fel y nododd Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'n anodd ei ddefnyddio'n ymarferol. Yn ogystal â'r ffaith bod yn rhaid adnabod y parti sydd ar fai, rhaid dangos hefyd iddo weithredu'n fwriadol neu'n ddi-hid. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi y byddai ychwanegu gweithredu esgeulus yn briodol ar gyfer gweithredoedd trydydd parti, lle nad oes gan y person sy'n achosi'r difrod unrhyw fuddiant yn y tir ac nad oes ganddo felly unrhyw ddyletswydd gofal yn ei gyswllt.

Mae'r syniad y dylai dyletswydd gofal fod ar bawb sydd â buddiant yn y tir i ddiogelu ei fioamrywiaeth, ynghyd â'r posibilrwydd o erlyn oherwydd difrod a achoswyd drwy esgeulustod, yn ddeniadol mewn egwyddor ond mae'n esgor ar nifer o anawsterau ymarferol. Mae'n awgrymu bod y deiliad tir yn deall beth yr oedd y ddyletswydd yn ei olygu'n ymarferol, a bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru yr adnoddau i blismona gweithgareddau.

# 12 Dull addasol o reoli safleoedd

## 12.1 Cyflwyniad

Mae dull rheoli addasol yn broses sy'n golygu ei bod yn bosibl gwneud newidiadau wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael, yn hytrach na dibynnu ar ddull sefydlog nad yw'n newid. Mae'r gyfraith sy'n ymwneud ag ardaloedd gwarchodedig, yn enwedig Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, wedi'i gwreiddio yn yr angen i egluro natur y nodweddion y mae angen eu gwarchod a'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd ar yr adeg y caiff y safle ei hysbysu. Yn yr adran hon, rydym yn ystyried a allai'r gyfundrefn gyfreithiol bresennol gael ei diwygio, ac os felly sut y gallai gael ei diwygio, er mwyn cyflwyno'r hyblygrwydd sy'n ofynnol i alluogi safleoedd gwarchodedig i gyfrannu'n fwy effeithiol i'r gwaith o gynnal a chadw a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru yn y tymor hir.

## 12.2 Tystiolaeth ynghylch dulliau addasol

Dyma'r cwestiwn a ofynnwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth:

*Nodwch sylwadau ar unrhyw fecanweithiau cyfreithiol presennol neu yn y dyfodol a allai hwyluso ffordd fwy ymaddasol o reoli safleoedd gan arwain at wella cyflwr safle gwarchodedig yn gyffredinol.*

### 12.2.1 Trosolwg

Yn gryno, roedd y dystiolaeth yn dangos yn glir na fydd cyfundrefn sy'n seiliedig ar ddim ond gwarchod nodweddion diffiniedig mewn safleoedd gwarchodedig yn ddigon i fynd i'r afael â'r argyfwng natur ac i ddiogelu bioamrywiaeth yng Nghymru. Rhaid i safleoedd gwarchodedig gael eu hystyried yng nghyd-destun rhwydwaith ecolegol ehangach. Bydd eu gwerth o fewn y rhwydwaith hwnnw'n dibynnu ar ddull addasol o'u rheoli yn hytrach nag ar ddull rhagnodol nad yw'n newid.

Yn anffodus, fodd bynnag, er i lawer o sylwadau ddod i law ynghylch beth ddylai newid, ychydig o awgrymiadau pendant a gafwyd ynghylch pa newidiadau cyfreithiol ddylai

gael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth ar gyfer safleoedd gwarchodedig er mwyn sicrhau ei bod yn addas i ddibenion yn y dyfodol.

### 12.2.2 Beth ddylai newid

Mae'r sylw canlynol gan Coed Cadw yn crynhoi'r ymateb i'r cwestiwn hwn:

> *Beth bynnag fo'r system, mae angen iddi sicrhau ei bod yn bosibl adolygu terfynau newid derbyniol sy'n galluogi prosesau deinamig o fewn safleoedd ac sydd hefyd yn ei gwneud yn bosibl addasu i ffactorau megis y newid yn yr hinsawdd, clefydau coed, ac ati.*

Yn yr un modd, dywedodd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar y dylai'r fframwaith safleoedd gwarchodedig fod yn ddigon hyblyg i ymdopi â symud drwy'r rhwydwaith o safleoedd. Roedd y Gymdeithas yn bendant o'r farn y byddai safleoedd gwarchodedig presennol yn parhau'n hanfodol, ond roedd yn cydnabod y gallai fod yna botensial i ddatblygu systemau yn y dyfodol sy'n darparu ar gyfer hyblygrwydd a dull mwy addasol o reoli, mewn modd na fydd yn cael effaith ddinistriol gyffredinol ar rywogaethau a chynefinoedd.

Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru fod y fframwaith polisi yng Nghymru wedi symud y tu hwnt i graidd safleoedd gwarchodedig a bod yn rhaid i ddeddfwriaeth yn y dyfodol gefnogi'r modd y mae natur yn rhwydweithio, er mwyn creu rhwydweithiau ecolegol cydnerth. Mae dulliau addasol o reoli'n allweddol yn y broses honno. Aeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei flaen i ddweud bod angen gwneud mwy yn y dirwedd o ran deddfwriaeth a pholisi yng Nghymru er mwyn ymgorffori'r newid o ddull rhagnodol o reoli safleoedd i ddull addasol, a fydd yn cynnwys arloesi mewn atebion masnachol. Roedd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn cytuno y byddai'n fuddiol diwygio polisi safleoedd gwarchodedig, yn enwedig o ran cyflwyno mwy o hyblygrwydd er mwyn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd ac i'r argyfwng bioamrywiaeth.

Cafodd tri phrif faes ar gyfer newid eu nodi: maint a nifer safleoedd gwarchodedig, eu cysylltedd a'r gyfundrefn reoli.

Honnodd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar a Chyswllt Amgylchedd Cymru y bydd safleoedd mwy o faint sydd mewn cyflwr da'n cynnal poblogaethau mwy o faint o rywogaethau ac yn gwella gallu rhywogaethau i symud eu cynefin yn wyneb y newid yn yr hinsawdd.

Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru fod llawer o safleoedd gwarchodedig a chynlluniau amaeth-amgylcheddol fel pe baent wedi'u dylunio i gadw cyflwr cynefin fel y mae, neu yn y bôn i'w rwystro rhag symud o'r unfan, gan atal unrhyw olyniaeth o ran bod yn ddeinamig. At hynny, yn ôl adborth aelodau'r undeb, nid oedd rhai ohonynt wedi cael unrhyw gyngor ynghylch sut i reoli eu safleoedd a/neu nid oedd rhai ohonynt yn gwneud dim i'w safleoedd rhag ofn y byddent yn cael eu cosbi am unrhyw weithgarwch. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno nad yw'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn gweithio'n dda ar gyfer adferiad natur, oherwydd bod y meini prawf ar gyfer dewis yn rhoi mwy o bwyslais o lawer ar y cyflwr/gwerth presennol nag ar adferiad neu ar y potensial i adfer, ac oherwydd bod dulliau rheoli'n rhoi mwy o bwyslais o lawer ar atal colled neu ddifrod pellach nag ar ddulliau cadarnhaol a rhagweithiol o reoli/gwella.

Aeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei flaen i awgrymu y dylai newid deddfwriaethol yn y dyfodol groesawu newid o ddull rhagnodol i ddull addasol o reoli, a fyddai'n galluogi deiliaid tir a chynghorwyr safleoedd gwarchodedig i ymateb i newidiadau. Nododd fod yna lawer o newidiadau wedi ôl-gronni eisoes, a oedd yn angenrheidiol ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig drwy broses ailhysbysu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'w diben. Fodd bynnag, mae'r angen am broses hysbysu lawn er mwyn amrywio unrhyw fanylion hysbysu'n ei gwneud yn anodd iddo gadw Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn ddeinamig ac yn addasol.

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod angen i gytundebau rheoli yn y dyfodol gael eu dylunio mewn modd sy'n golygu eu bod yn ddigon hyblyg i ystyried y cynefin ehangach a'r dirwedd gyfagos.[148]

### 12.2.3 Sut mae cyflwyno newid

Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y pwerau a'r dyletswyddau sydd ar gael dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Nododd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau eisoes dan adran 22 i ofyn am i reoliadau gael eu hatal dros dro ar gyfer cynlluniau arbrofol, ond nid oedd yn siŵr i ba raddau yr oedd y pwerau hynny'n cael eu defnyddio. Roedd yn credu y gallai'r dull hwn o weithredu fod yn fwy dymunol na gofyn am newidiadau cyfreithiol.

Cyfeiriodd ymatebwyr eraill at y ddyletswydd statudol a osodir ar awdurdodau cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau. Awgrymodd y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol y byddai cyflwyno targedau statudol yn allweddol i gyflawni'r ddyletswydd honno.

Ystyrid bod cyflwyno targedau ar gyfer cysylltedd yn hanfodol er mwyn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol.[149] Roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn credu y dylai fod yna dargedau ar gyfer cysylltu pob Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig lle mae nodweddion dan fygythiad oherwydd bod y safle'n rhy fach neu'n dioddef effeithiau allanol andwyol. At hynny, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai fod yna dargedau amlwg sydd wedi'u diffinio yn glir ar gyfer cynyddu maint cyffredinol y rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig, sy'n cynnwys cynyddu nifer ac arwynebedd safleoedd unigol.[150] Roedd sawl un ohonynt yn credu y dylai'r targedau hynny gael eu cefnogi gan y gyfraith.[151]

---

[148] Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Cyfoeth Naturiol Cymru.
[149] Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol, Coed Cadw, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaethau Natur Cymru.
[150] Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol, Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Ymddiriedolaethau Natur Cymru.
[151] Y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.

Nododd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU nad oedd y broses letchwith o wneud newidiadau i hysbysiad yn gydnaws ag addasu i newid. Roedd Cymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon yn credu y dylai ychwanegu nodweddion neu ardaloedd at Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig presennol fod yn symlach os oes nodweddion newydd yn ymddangos neu os yw canllawiau ynghylch beth sy'n gymwys yn newid, er enghraifft oherwydd rhestrau coch sydd wedi'u diweddaru. Roedd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yn erbyn dadhysbysu unrhyw safle oherwydd bod nodweddion bellach yn absennol, boed hynny oherwydd ffactorau'n ymwneud â'r hinsawdd neu oherwydd ffactorau eraill.

Cafwyd awgrymiadau hefyd ynghylch ymestyn gwarchodaeth gyfreithiol. Er enghraifft, nododd y Gymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol y dylid rhoi mwy o warchodaeth gyfreithiol i Warchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, ac roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro o blaid cynyddu gwarchodaeth ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig er mwyn eu gwarchod rhag datblygiadau oddi arnynt.

Awgrymodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog y dylid gwneud newidiadau i'r weithdrefn gydsynio ar gyfer cyflawni gweithrediadau a allai fod yn andwyol, fel y gellid rhoi cydsyniad yn awtomatig ar gyfer ystod eang o fesurau y gwyddys eu bod yn fuddiol i'r nodweddion sydd o ddiddordeb arbennig ar safle. Awgrymodd hefyd y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru geisio trefniadau cydsynio/caniatáu hirdymor gydag awdurdodau statudol. Roedd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yn credu y dylid adolygu prosesau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cydsynio, er mwyn sicrhau dull cyson a chymesur o weithredu sy'n darparu'r trefniadau diogelu angenrheidiol ac sydd hefyd yn galluogi rheolwyr safleoedd i gyflawni gweithgareddau rheoli priodol yn effeithlon.

Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno bod yna angen cynyddol i ddulliau rheoli addasol fod yn un o nodweddion cytundebau neu gynlluniau rheoli hirdymor. Cyfeiriodd at enghreifftiau o'r cynlluniau hynny, a oedd yn cynnwys rhestrau blynyddol

o weithrediadau ar gyfer ymyriadau byrdymor y mae angen trwyddedau ar eu cyfer wedyn, ac roedd yn credu y byddai'n werth archwilio dulliau o symleiddio trwyddedau o'r fath dros gyfnodau byr i ganolig. Roedd yn cytuno bod yna le i wella cynlluniau rheoli hirdymor, rhestrau blynyddol o weithrediadau, trwyddedau a phecynnau cyllid fel eu bod yn symlach ac yn fwy ymatebol i angen safle yn hytrach nag i rowndiau gwario blynyddoedd ariannol.

Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru bwyslais arbennig ar bwysigrwydd sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol a'r fframweithiau cyllid yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd er budd adferiad natur. Honnodd na all arian cyhoeddus ar ei ben ei hun sicrhau llwyddiant ar gyfer safleoedd gwarchodedig.

Rhoddwyd rhybudd ynghylch unrhyw newidiadau a gyflwynir er mwyn darparu ar gyfer addasu a hyblygrwydd. Honnwyd y byddai angen i newidiadau o'r fath gael eu hystyried yn ofalus ac yn fanwl ar sail tystiolaeth.[152] Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y byddai dull newydd o weithredu'n gofyn efallai am newidiadau i rai cyfundrefnau trwyddedu er mwyn darparu ar gyfer ymyriadau tymor byr i ganolig ac er mwyn darparu hyblygrwydd o ran atal y cyfundrefnau hynny dros dro, eu diwygio a'u dirymu. At hynny, pwysleisiodd yr angen am adnoddau priodol ar gyfer camau monitro a rheoli.

### 12.3 Safbwyntiau AIDAC ar ddulliau rheoli addasol

Mae AIDAC yn cytuno nad yw'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer safleoedd gwarchodedig yn golygu eu bod yn y sefyllfa orau i fwynhau dulliau rheoli addasol. Rydym hefyd yn cytuno bod angen i'r safleoedd gwarchodedig presennol gael eu hintegreiddio mewn rhwydwaith o safleoedd y bwriedir iddynt gynorthwyo adferiad byd natur. Does dim dwywaith na fydd hyblygrwydd yn angenrheidiol ynghyd â'r gallu i newid arferion rheoli er mwyn ymateb i amgylchiadau sy'n newid.

[152] Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.

Rydym yn cytuno nad yw'r fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn addas ar gyfer anghenion yn y dyfodol; yn wir mae'n gallu golygu ei bod bron yn amhosibl cyflawni canlyniadau a ddymunir. Yn gryno, rydym yn credu mai'r prif rwystrau i ddulliau addasol o reoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yw:

- dull rhagnodol o hysbysu nodweddion
- proses hysbysu sy'n seiliedig ar statws presennol yn hytrach na rhagolygon ar gyfer y dyfodol
- proses hysbysu hirfaith
- yr angen i ailhysbysu ynghylch unrhyw amrywiad i fanylion y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- dibyniaeth ar restr o weithrediadau a allai fod yn andwyol fel sail ar gyfer gofynion rheoli
- pwyslais gormodol ar atal difrod neu golled yn hytrach nag ar reoli'n gadarnhaol.

Ni chafodd y gyfres bresennol o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ei llunio er mwyn creu rhwydwaith cysylltiedig. Rydym yn cytuno y dylai safleoedd fod yn ddigon mawr i roi'r warchodaeth a ddarperir, naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn cysylltiad â safleoedd eraill. Gallai targedau ar gyfer cysylltedd helpu i sbarduno camau i greu mwy o safleoedd, ond heb y wybodaeth angenrheidiol am statws presennol safleoedd bydd yn anodd penderfynu ble y mae'r angen mwyaf i weithredu. Mae monitro safleoedd yn hollol angenrheidiol, a bydd yn dod yn hanfodol ar gyfer llywio'r angen am ddulliau rheoli addasol yn y dyfodol.

Mae'n rhaid i'r gwaith o reoli Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig fod yn gydnaws â diben y safle. Os bwriedir caniatáu i'r pwrpas hwnnw newid gydag amser, rhaid bod yna hyblygrwydd yn y modd y caiff y safle ei reoli. Mae ysgrif ystyriol a gyhoeddwyd

gan Natural England[153] yn egluro pedwar opsiwn rheoli trosfwaol ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig:

- gwneud dim byd a gadael i systemau ymateb i'r newid yn yr hinsawdd heb ymyrraeth;
- cynnal y sefyllfa sydd ohoni a cheisio gwarchod y nodweddion y mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig wedi'i hysbysu o'u herwydd;
- cyflwyno newid a reolir, lle caiff cynefinoedd eu rheoli er mwyn cyflawni canlyniad mwy 'dymunol' o ran bioamrywiaeth; a
- rhagweld ecolegol, a allai gynnwys dynodi safleoedd newydd a/neu leiniau clustogi er mwyn darparu ar gyfer newidiadau annisgwyl yn y dyfodol i fioamrywiaeth.

Gallwn weld y potensial ar gyfer pob un o'r rhain, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Ar gyfer ardaloedd anghysbell mawr, gallai'r opsiwn o wneud dim byd fod yn fan cychwyn ar gyfer mentrau dad-ddofi tir. Nid yw'r opsiynau eraill yn anghydnaws â'i gilydd. Bydd cynnal y sefyllfa sydd ohoni er mwyn diogelu nodweddion hysbysedig yn hanfodol ar gyfer rhai nodweddion, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu y dylid peidio â rheoli safleoedd er mwyn iddynt allu esgor ar fanteision eraill o ran bioamrywiaeth. Byddai'n amhosibl dylunio rhwydwaith di-feth o safleoedd ar gyfer newidiadau anhysbys yn y dyfodol, felly rydym yn credu bod yna gryn dipyn o werth mewn dynodi safleoedd 'rhag ofn' er mwyn darparu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl.

Yn 2024, cyhoeddodd y cyrff cadwraeth natur ddatganiad ar y cyd a oedd yn egluro egwyddorion cyffredin ar gyfer rhwydwaith gwell o ardaloedd gwarchodedig.[154] Yr egwyddor gyntaf oedd edrych i'r dyfodol a bod yn barod i addasu. Awgrymwyd y gallai hynny gynnwys ystyried yn ofalus amryw ffyrdd o ymateb i fygythiadau a phwysau, megis dull 'gwrthsefyll-derbyn-hwyluso' o weithredu. Cyfeiriwyd at y fframwaith

---

[153] Galbraith, C.A. a Stroud, D.A. 2022. *Sites of Special Scientific Interest (SSSIs) in England: their historical development and prospects in a changing environment.* NECR414, Natural England. Ar gael yma: https://publications.naturalengland.org.uk/publication/4937362194038784.

[154] *A Joint Statement on Improving the Approaches to Protected Areas in the UK*. Ar gael yma: https://data.jncc.gov.uk/data/2f79ed3b-a46c-4084-9df1-ef03c91f6a87/joint-statement-protected-areas.pdf.

cyfreithiol cysylltiedig, ond ni chafwyd unrhyw awgrymiadau ynghylch sut beth y gallai fframwaith o'r fath fod.

Cafodd canllawiau ynghylch dewis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig eu cyhoeddi yn 1989 er mwyn darparu rhesymeg gyson ar gyfer gwerthuso a dewis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig biolegol. Mae Rhan 1 yr arweiniad yn egluro chwe egwyddor gyffredinol ar gyfer gwerthuso a dewis safleoedd: natur nodweddiadol, bregusrwydd, maint, amrywiaeth, naturioldeb a phrinder. Mae Rhan 2 yn darparu arweiniad manwl a phenodol ar gyfer gwahanol fathau o gynefinoedd a grwpiau rhywogaethau. Cafodd fersiwn diwygiedig o Ran 1 ei gyhoeddi yn 2013[155]. Erbyn hynny, roedd yn amlwg nad yw'r diddordeb arbennig sydd ar safle o reidrwydd yn aros yr un fath gyda threigl amser. Felly, nod y fersiwn diwygiedig oedd ei gwneud yn bosibl i'r broses o ddewis safleoedd ymdopi â newid deinamig drwy gyflwyno rhyw raddau o hyblygrwydd fel y gallai'r gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig dracio newidiadau yn yr amgylchedd. Wrth i ardaloedd newydd ddod yn ardaloedd o ddiddordeb arbennig, dylent gael eu hysbysu a dylent gael eu hailasesu wrth i'r diddordeb mewn ardaloedd eraill newid.

Y newid pwysicaf yw ychwanegu cydlyniad ecolegol fel egwyddor allweddol. Dylai'r gwaith o asesu safle gynnwys ystyried a yw'r safle yn rhan o rwydwaith ecolegol. At hynny, rhaid ystyried yr egwyddor o werth posibl, ond dim ond mewn sefyllfaoedd lle mae adfer yn ddichonol ac yn ddymunol.

Mae'r canllawiau diwygiedig i'w croesawu, a dylent sicrhau dull mwy hyblyg o ddewis safleoedd yn y dyfodol. Yn anffodus, cafodd 97 y cant o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru eu hysbysu cyn y broses ddiwygio yn 2013. Mae rhai ohonynt hyd yn oed yn rhagflaenu Canllawiau 1989 a chawsant eu dewis ar sail arweiniad mewnol y Cyngor Gwarchod Natur. Yn ôl adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru ynghylch dull Cyfoeth Naturiol Cymru o ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb

[155] https://data.jncc.gov.uk/data/dc6466a6-1c27-46a0-96c5-b9022774f292/SSSI-Guidelines-Part1-Rationale-2013.pdf.

Gwyddonol Arbennig,[156] mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod yr angen i ddiwygio ei arweiniad mewnol ar gyfer hysbysu, ailhysbysu a dadhysbysu.

Nid ydym yn credu bod yna arwydd y bydd newid sylfaenol yn digwydd i'r gyfundrefn gyfreithiol ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn y tymor byr. Ond mae yna obaith o hyd. Mae cael datganiad rheoli ar gyfer pob Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, sy'n egluro dyheadau'r dyfodol ar gyfer y safle, yn gam cyntaf pwysig. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau i ymrwymo i gytundeb rheoli tir yng nghyswllt unrhyw dir, a byddem yn annog Cyfoeth Naturiol Cymru i ddefnyddio'r pŵer hwnnw i warchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig rhag gweithgareddau oddi arnynt, a allai fod yn andwyol. At hynny, dylai cynnwys camau gweithredu penodol ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy alluogi dulliau rheoli gwell.

Fodd bynnag, mae'n debygol mai'r prif rwystr o ran symud ymlaen gyda'r mentrau hyn fydd adnoddau, ac rydym yn dal i bryderu na fydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau ariannol a digon o adnoddau o ran staff i gyflwyno'r dull rheoli angenrheidiol ar draws y gyfres o safleoedd gwarchodedig yng Nghymru.

[156] https://audit.wales/cy/cyhoeddiad/diogelu-natur-ar-gyfer-cenedlaethaur-dyfodol

# 13 Casgliadau

Un o ddyheadau Llywodraeth Cymru yw:

> *Trawsnewid y gyfres o safleoedd gwarchodedig er mwyn i'r gyfres fod yn well, yn fwy, a chael ei chysylltu'n fwy effeithiol*. [157]

Caiff y pwys a roddir ar safleoedd gwarchodedig ei bwysleisio ymhellach yn nogfennau cynllunio Llywodraeth Cymru. Mae polisi 9 Cynllun Cenedlaethol[158] Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at bwysigrwydd safleoedd gwarchodedig o ran datblygu rhwydweithiau ecolegol cadarn, ac aiff yn ei flaen i ddweud er eu bod yn hollbwysig i gadernid hirdymor ein hecosystemau na ddylid eu hystyried yn ynysoedd o fewn y dirwedd ond y dylent yn hytrach ffurfio nodau rhwydweithiau ecolegol cadarn a swyddogaethol mawr a seilwaith gwyrdd.

Dywed Polisi Cynllunio Cymru 12 y dylai cynlluniau datblygu lleol sicrhau bod rôl safleoedd gwarchodedig wrth wraidd rhwydweithiau ecolegol cydnerth yn cael ei diogelu.[159] Aiff yn ei flaen i ddweud fel a ganlyn:

> *Fel mater o egwyddor, mae cynigion mewn safleoedd dynodedig yn annerbyniol ac felly dylid eu hepgor o chwiliadau safleoedd a gynhelir gan ddatblygwyr ... Y safleoedd hyn yw calon y rhwydweithiau ecolegol cydnerth a rhaid diogelu, cynnal a gwella eu rôl a'r gwasanaethau ecosystem y maent yn eu darparu, a'u diogelu rhag datblygiad. Byddai'n ddigwyddiad cwbl eithriadol pe gellid cyfiawnhau datblygiad o dan yr amgylchiadau hyn.*[160]

[157] Amcan 1 y ddogfen Plymio Dwfn Bioamrywiaeth, a gyhoeddwyd yn 2022. Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/10/1/1664785851/plymio-dwfn-bioamrywiaeth-argymhellion.pdf.

[158] *Cymru'r Dyfodol. Y Cynllun Cenedlaethol 2040, Polisi 9 Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd*, t.77 Ar gael yma: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040.pdf.

[159] Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 6.4.3.

[160] Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 6.4.15 1(b).

Yn anffodus, nid yw'r fframwaith cyfreithiol yn addas iawn i gyflawni dyheadau'r Llywodraeth. Ni fwriadwyd i'r amryw ddynodiadau safleoedd gwarchodedig sydd ar gael yng Nghymru ategu ei gilydd, ac ni fwriadwyd i'r un ohonynt ddarparu ar gyfer adferiad yn dilyn argyfwng bioamrywiaeth. Bydd yn rhaid i unrhyw ymgais i'w defnyddio i wneud hynny ystyried y cyfyngiadau sy'n rhan annatod o'u fframweithiau cyfreithiol a'u fframweithiau polisi.

Efallai mai'r broblem fwyaf sylfaenol yw'r ffaith nad yw'r un ohonynt yn darparu ar gyfer bioamrywiaeth yn ei chyfanrwydd. Ni fwriadwyd erioed i'r gyfres o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig fod yn system ar gyfer cadwraeth natur gynhwysfawr a hollgynhwysol. Rhoddwyd pwyslais ar y rhywogaethau prin, y rhywogaethau sy'n agored i niwed a'r rhywogaethau sydd mewn perygl ac ar gynefinoedd naturiol penodol. Caiff safleoedd eu dynodi oherwydd y nodweddion arbennig y maent yn eu cynnwys yn hytrach nag oherwydd eu cyfraniad cyffredinol i gadwraeth bioamrywiaeth.

At hynny, ni chafwyd polisi erioed i warchod pob ardal ddiddorol. Caiff safleoedd sydd i'w hysbysu yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig eu dewis i fod yn enghreifftiau cynrychiadol mewn Ardal Chwilio benodol; dan gyfraith Ewropeaidd, mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig wedi'u dynodi yn gyfran gynrychiadol o gyfraniad y DU i'w rhanbarth bioddaearyddol Ewropeaidd.

Mae llawer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn fach ac mae hysbysiadau wedi'u gwneud ar sail y diddordeb sydd o fewn y safle'n unig, heb ystyried sut y gallai'r safle fod yn cyd-fynd â chyfres o safleoedd mewn rhwydwaith. Er bod Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn gyffredinol yn fwy o faint a'u bod wedi'u dynodi i fod yn rhan o rwydwaith, nid oedd cysylltedd o reidrwydd yn ystyriaeth yn y detholiad o safleoedd a roddwyd gerbron y Comisiwn Ewropeaidd er mwyn ystyried y posibilrwydd o'u dynodi.

Mae'r Canllawiau 2013 diwygiedig ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig biolegol yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Cyfoeth Naturiol Cymru o ran dewis

safleoedd newydd ac o ran ailhysbysu safleoedd presennol. Yn anffodus, mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod yn rhaid mynd drwy'r broses hysbysu lawn er mwyn amrywio'r manylion neu er mwyn ychwanegu at y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu'i ehangu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn wynebu tasg enfawr wrth geisio symud y gwaith hwn yn ei flaen. Mae eisoes yn ystyried camau ar gyfer llywio ei raglen barhaus ym maes Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, sy'n cynnwys yr angen i ddatblygu fframwaith gwneud penderfyniadau er mwyn darparu meini prawf ar gyfer blaenoriaethu trefn hysbysiadau, dadhysbysiadau ac ailhysbysiadau.[161]

Yn anffodus, mae'n bosibl hefyd y bydd defnyddio'r broses ailhysbysu er mwyn ceisio gwella gwerth Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig presennol mewn rhwydwaith yn esgor ar densiynau gyda deiliaid tir, sef yr union bobl y mae angen cael eu cefnogaeth er mwyn cyflawni'r gwaith rheoli. O'r cychwyn cyntaf, mae rhai wedi teimlo mai'r prif beth y mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn ei wneud yw tresmasu a tharfu ar hawliau deiliaid tir, yn hytrach na'i fod yn ddull o'u cynorthwyo i gyflawni gwaith rheoli.

Yn ddelfrydol, byddem yn hoffi gweld y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cael ei ddisodli gan ddynodiad ardal warchodedig newydd, gyda safleoedd yn cael eu dewis nid yn unig ar sail eu nodweddion cynhenid ond hefyd ar sail pa mor dda y maent yn cyd-fynd â'r jig-so o gysylltiadau a fydd yn creu'r rhwydwaith. Byddent wedyn yn destun cynlluniau parhaus sydd wedi'u teilwra yn unigol ac y bwriedir iddynt sicrhau bod y safleoedd bob amser yn addas i'w diben wrth i amodau newid yn y dyfodol. Ni fyddai yna fawr ddim angen, os o gwbl, i ddadhysbysu safleoedd.

---

[161] *Sites of Special Scientific Interest: a Review of the Current Series in Wales*. Adroddiad Tystiolaeth Rhif 878 Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar gael yma: https://www.google.com/url?sa=t&source=web&rct=j&opi=89978449&url=https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/uahbtlmi/nrw-evidence-report-no-878-sites-of-special-scientific-interest-a-review-of-the-current-series-in-wales-pdf.pdf&ved=2ahUKEwj3y4e-0PSQAxU5ZkEAHVr1OgQQFnoECBcQAQ&usg=AOvVaw1X1MOkgVcLF5wPrtPyBf9-

Fodd bynnag, oni bai neu nes bod hynny’n digwydd, rydym wedi dod i’r casgliad mai’r gofyniad unigol pwysicaf yw nid newid yn y gyfraith sy’n ymwneud ag ardaloedd gwarchodedig, ond llawer mwy o barodrwydd i neilltuo digon o adnoddau i ddarparu ar gyfer rheoli safleoedd yn effeithiol yn awr ac ar gyfer eu monitro’n barhaus fel bod modd gwneud penderfyniadau ynghylch sut y dylid eu rheoli yn y dyfodol.

## Atodiad 1 Rôl Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC)

Mae AIDAC yn rhoi i aelodau'r cyhoedd system annibynnol ar gyfer anfon cyflwyniadau ynghylch y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru. Mae AIDAC yn cynghori Gweinidogion Cymru os yw'r cyflwyniadau a anfonwyd yn perthyn i gylch gorchwyl AIDAC, ac mae'n gwneud argymhellion ynghylch unrhyw gamau gweithredu y mae o'r farn bod angen eu cymryd.

Mae'r mesurau interim yn rhai anstatudol, a'u prif ddiben yw:

- arolygu'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru; ac
- ystyried materion systematig sy'n ymwneud â'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio/gweithredu yng Nghymru.

Gallai arolygu'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu olygu ystyried:

- a yw'r gyfraith yn addas i'w diben neu'n dal yn berthnasol;
- a yw'r wybodaeth neu'r deunydd esboniadol am y gyfraith yn hygyrch, yn glir ac yn bendant; neu
- a yw'r modd y caiff y gyfraith ei rhoi ar waith yn ymarferol yn effeithiol.

Nid yw cwmpas y mesurau interim yn ymdrin â'r canlynol:

- achosion o weithredu'n groes i gyfraith amgylcheddol;
- meysydd lle na chydymffurfir â chyfraith amgylcheddol; a
- materion a godir y mae proses neu system gwyno arall yn ymdrin â nhw.

Nod AIDAC yw nodi ble y mae angen cymryd camau i gywiro problemau gweithredu efallai, a fydd yn gwella canlyniadau amgylcheddol. Amcanion strategol AIDAC yw:

- darparu gwasanaeth i aelodau'r cyhoedd, sy'n eu galluogi i anfon cyflwyniadau i AIDAC;
- cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch unrhyw gamau gweithredu a allai fod yn ofynnol; a

- chyfrannu at ddatblygu'r dull parhaol o ymdrin â llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru.

# Atodiad 2 Papur briffio ar gyfer Fforwm Arbenigwyr ynghylch rheoli a gwarchod safleoedd gwarchodedig

**Pwyntiau i'w hystyried gan y Fforwm Arbenigwyr:**

- Canfu Asesiad Gwerthuso Gwaelodlin 2020 nad oedd 80% o'r nodweddion a aseswyd mewn cyflwr ffafriol. Yn eich barn chi, beth yw'r rhesymau am hynny?
- A oes yna newidiadau deddfwriaethol y gellid eu gwneud i wella cyflwr safleoedd gwarchodedig? Os oes, pa newidiadau?
- Nid oedd Asesiad Gwerthuso Gwaelodlin 2020 yn medru pennu cyflwr tua hanner nodweddion y safleoedd, oherwydd tystiolaeth annigonol. A fyddai unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn gwella'r gallu i bennu cyflwr safleoedd gwarchodedig? Os felly, pa newidiadau?
- A oes angen gwella'r canllawiau neu'r prosesau ar gyfer safleoedd gwarchodedig? Os felly, sut?
- A oes angen gwella trefniadau gorfodi? Os felly, sut?

**Rôl Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC)**

Cafodd Dr Nerys Llewelyn Jones ei phenodi'n AIDAC ym mis Mawrth 2021 er mwyn ystyried pryderon a fynegir gan y cyhoedd am y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru ac er mwyn rhoi cyngor i Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Proses interim yw hon, a fydd ar waith nes y caiff corff parhaol ei sefydlu yng Nghymru i oruchwylio'r graddau y cydymffurfir â chyfraith amgylcheddol.

Mae AIDAC yn canolbwyntio ar y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu, ac nid ar achosion o weithredu'n groes i'r gyfraith honno. Ei nod yw:

- arolygu'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru;
- ystyried materion systematig sy'n ymwneud â'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio neu'n gweithredu yng Nghymru; a
- nodi ble y gellir cymryd camau i wella'r modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu, er mwyn gwella canlyniadau amgylcheddol.

Nid yw rôl AIDAC yn ymdrin â'r canlynol:

- achosion o weithredu'n groes i gyfraith amgylcheddol;
- meysydd lle na chydymffurfir â chyfraith amgylcheddol; a
- materion a godir y mae proses neu system gwyno arall yn ymdrin â nhw.

**<u>Cyflwyniadau a gafwyd am y modd y caiff safleoedd gwarchodedig eu rheoli a'u gwarchod</u>**

Cafodd AIDAC ddau gyflwyniad am y modd y caiff safleoedd gwarchodedig eu rheoli a'u gwarchod yng Nghymru. Disgwylir mai'r safleoedd gwarchodedig hynny – Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig; Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig; Ardaloedd Cadwraeth Arbennig; Safleoedd Ramsar a Pharthau Cadwraeth Morol – yw'r lleoedd gorau ar y tir a'r môr ar gyfer bywyd gwyllt, a'r lleoedd lle caiff anghenion rhywogaethau a chynefinoedd eu blaenoriaethu yn y modd y caiff y safleoedd eu hadfer, eu gwarchod a'u rheoli.

Bu Prosiect Gwerthuso Gwaelodlin 2020 Cyfoeth Naturiol Cymru yn asesu ansawdd pob safle gwarchodedig – yr asesiad llawn cyntaf ers 2003. Methodd Cyfoeth Naturiol Cymru â phennu cyflwr tua hanner nodweddion ei holl safleoedd (er enghraifft, ansawdd cynefinoedd neu nifer y rhywogaethau) oherwydd tystiolaeth annigonol. O blith y nodweddion y bu modd iddo eu hasesu, roedd 20% mewn cyflwr ffafriol, roedd 30% mewn cyflwr anffafriol, ac nid oedd 50% mewn sefyllfa a ddymunid. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n gweithio ar gynllun i wella dulliau presennol o weithredu, a bwriedir cynnal adolygiad tebyg yng nghyswllt dŵr croyw.

Roedd y cyflwyniadau'n dadlau bod llawer o safleoedd wedi'u difrodi ac wedi dirywio; nad oedd safleoedd yn cael eu rheoli'n briodol na'u gwarchod; a bod natur yn parhau i ddirywio yng Nghymru. Roedd un cyflwynydd hefyd o'r farn nad oedd y gyfres o bwerau sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn gwarchod safleoedd gwarchodedig tirol a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n briodol, yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial.

O ganlyniad, mae AIDAC yn bwriadu llunio adroddiad i Weinidogion Cymru gyda'r nodau canlynol:

- Asesu a yw'r fframwaith cyfreithiol presennol yn gweithio'n iawn;
- Nodi meysydd lle nad yw'r warchodaeth gyfreithiol bresennol efallai'n esgor ar y manteision a fwriedir;
- Nodi bylchau posibl yn y ddeddfwriaeth gyfredol; a
- Nodi'r ffactorau sy'n ein rhwystro rhag gweithredu'r ddeddfwriaeth yn ymarferol.

**<u>Deddfwriaeth ynghylch safleoedd gwarchodedig</u>**

Mae'r cyflwynydd wedi nodi bod y ddeddfwriaeth ganlynol yn berthnasol i'w gyflwyniad:

<u>Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)</u>

Mae'r adrannau canlynol yn egluro'r dyletswyddau i hysbysu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a darpariaethau ar gyfer eu rheoli.

- **Adran 28:** Mae'n egluro'r dyletswyddau sydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i hysbysu unrhyw ardal o dir sydd o ddiddordeb arbennig oherwydd unrhyw agwedd ar ei fflora, ei ffawna neu'i nodweddion daearegol neu ffisiograffig, ac i nodi unrhyw weithrediadau y mae'n ymddangos yn debygol y byddant yn difrodi'r fflora neu'r ffawna neu'r nodweddion hynny.
- **Adran 28G:** Mae'n egluro'r ddyletswydd sydd ar bob awdurdod cyhoeddus i gymryd camau rhesymol, sy'n gyson â chyflawni swyddogaethau'r awdurdod yn briodol, er mwyn hyrwyddo'r gwaith o warchod a gwella'r fflora, y ffawna neu'r nodweddion daearegol neu ffisiograffig y mae'r safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig o'u herwydd.
- **Adran 28J:** Mae'n egluro y gall Cyfoeth Naturiol Cymru lunio cynllun rheoli ar gyfer y cyfan neu ran o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru wneud taliadau yng nghyswllt cynlluniau rheoli.
- **Adran 28K:** Hysbysiadau rheoli: Os yw'n ymddangos i Cyfoeth Naturiol Cymru bod— (a) perchennog neu ddeiliad tir yn methu â gweithredu un o ddarpariaethau cynllun rheoli, a (b) o ganlyniad bod unrhyw fflora, ffawna neu nodweddion daearegol neu ffisiograffig, y mae'r tir o ddiddordeb arbennig o'u herwydd, yn cael eu gwarchod neu'u hadfer yn annigonol, gall roi hysbysiad iddo ("hysbysiad rheoli") os yw'n teimlo bod hynny'n addas.
- **Adran 28N:** Mae'n rhoi pŵer i Cyfoeth Naturiol Cymru brynu'n orfodol y cyfan neu unrhyw ran o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, os yw wedi methu â chwblhau cytundeb yn foddhaol â'r perchennog neu'r rheolwr ynghylch sut y dylai'r tir gael ei reoli, neu os gweithredwyd yn groes i'r cytundeb rheoli mewn modd sy'n golygu nad yw'r tir yn cael ei reoli'n foddhaol.
- **Adran 28P:** Mae'n egluro troseddau yng nghyswllt Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a phwerau Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd ar drywydd euogfarnau a dirwyon sy'n ymwneud â'r troseddau hynny.
- **Adran 28R:** Mae'n egluro pŵer Cyfoeth Naturiol Cymru i lunio is-ddeddfau er mwyn gwarchod Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

<u>Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009</u>

Creodd Rhan 5 y Ddeddf hon ddynodiad newydd ar gyfer ardaloedd morol sydd o bwys cenedlaethol – sef Parthau Cadwraeth Morol. Mae'r cyflwynydd yn tynnu sylw at yr adrannau canlynol:

- **Adrannau 116-123:** Maent yn egluro pwerau Gweinidogion Cymru a'r dyletswyddau sydd arnynt i ddynodi Parthau Cadwraeth Morol.
- **Adran 123:** Mae'n mynnu bod Gweinidogion yn dynodi Parthau Cadwraeth Morol er mwyn cyfrannu i'r amcan o ffurfio rhwydwaith a chyfrannu at warchod a gwella'r amgylchedd morol, gan sicrhau cynrychiolaeth o'r ystod o nodweddion sy'n bresennol yn ardal forol y DU.
- **Adran 124:** Mae'n mynnu bod Gweinidogion Cymru yn adrodd bob chwe blynedd ynghylch y graddau y mae'r amcanion trosfwaol ar gyfer y rhwydwaith hwn yn cael eu bodloni, ac ynghylch gwaith dynodi, amcanion cadwraeth a mesurau rheoli Parthau Cadwraeth Morol (gan gynnwys i ba raddau y mae amcanion cadwraeth ar gyfer safle'n cael eu cyflawni).

- **Adran 125:** Mae'n egluro dyletswyddau cyffredinol i gyrff cyhoeddus gyflawni eu swyddogaethau mewn modd sy'n hyrwyddo amcanion cadwraeth Parthau Cadwraeth Morol yn y ffordd orau posibl, a phennu gweithdrefn i'w dilyn os yw cyflawni swyddogaethau'n gwrthdaro ag amcanion cadwraeth.
- **Adran 126:** Mae'n egluro dyletswyddau a gweithdrefnau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus sy'n gwneud penderfyniadau a allai effeithio ar nodweddion Parthau Cadwraeth Morol.
- **Adran 134:** Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion er mwyn hyrwyddo amcanion cadwraeth Parthau Cadwraeth Morol yng Nghymru.

<u>Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ("y Rheoliadau Cynefinoedd") 'fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019'</u>

Mae'r rheoliadau hyn yn trosi ac yn gweithredu prif ofynion Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE a Chyfarwyddeb Adar yr UE yng nghyswllt safleoedd a rhywogaethau gwarchodedig, ac yn troi dyletswyddau cyffredinol yn gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd (fel y'u diwygiwyd) yn cynnwys:

- Dyletswyddau i ddynodi neu ddosbarthu Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Drwy'r Rheoliadau Brexit, bwriedir i'r safleoedd hyn ffurfio 'Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol',
- Darpariaethau ar gyfer rheoli Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, sy'n cynnwys:

    - **Rheoliad 20** sy'n ymdrin â chytundebau rheoli ar gyfer Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
    - **Rheoliad 27** sy'n cynnwys y pŵer i wneud gorchmynion cadwraeth natur arbennig
    - **Rheoliad 28** sy'n ymdrin â chyfyngiadau y gellir eu gosod, sy'n cynnwys hysbysiadau stop a'r gallu i erlyn os na chydymffurfir â gorchmynion
    - **Rheoliadau 32, 33 a 34** sy'n ei gwneud yn bosibl creu is-ddeddfau.

<u>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)</u>

Mae'n egluro dull Cymru o sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, sy'n cynnwys dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau (y Ddyletswydd Bioamrywiaeth). Mae'n darparu pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio cynlluniau rheoli ar unrhyw ardal o dir er mwyn sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy (cytundebau adran 16).

<u>Confensiynau rhyngwladol</u>

- **Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol:** Mae'n mynnu bod partïon yn sefydlu ac yn cynnal ardaloedd gwarchodedig sy'n cyfrannu i rwydwaith byd-eang

- **Confensiwn Oslo-Paris:** Mae'n ceisio gwarchod amgylchedd morol rhan ogledd-ddwyreiniol yr Iwerydd, gan gynnwys drwy sefydlu ardaloedd gwarchodedig morol
- **Confensiwn Bern:** Mae'n ceisio cadw a gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau a sefydlu'r Rhwydwaith Emrallt o Ardaloedd o Ddiddordeb Arbennig o ran Cadwraeth
- **Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwys Rhyngwladol:** Mae'n ceisio gwarchod gwlyptiroedd ac mae'n darparu ar gyfer dynodi safleoedd sydd o bwys byd-eang
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr:** Mae'n cynnwys darpariaethau penodol ynghylch safleoedd gwarchodedig, a mesurau sy'n ofynnol ar gyfer eu gwarchod ac ynghylch gweithgareddau morol a allai effeithio arnynt.

**Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth**

Yn ddiweddar, cynhaliodd y Gweinidog Newid Hinsawdd Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a oedd yn canolbwyntio ar ddull Cymru o weithredu targed Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, sef y dylid gwarchod o leiaf 30% o'r tir a 30% o'r môr erbyn 2030.
'30 erbyn 30' yw un o'r targedau a gynigiwyd ar gyfer y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ôl-2020, a chaiff ei fynegi fel a ganlyn yn nrafft 1 presennol y fframwaith ôl-2020:

> *'Ensure that at least 30 per cent globally of land areas and of sea areas, especially areas of particular importance for biodiversity and its contributions to people, are conserved through **effectively and equitably managed**, **ecologically representative** and **well-connected systems of protected areas** and other effective area-based conservation measures and integrated into the wider landscapes and seascapes.'*

**Cafodd argymhellion yr Archwiliad Dwfn Gweinidogol ynghylch Bioamrywiaeth eu cyhoeddi ar 3 Hydref (ac maent ynghlwm yn Atodiad A). Mae'r argymhellion sy'n cyfeirio yn benodol at ddeddfwriaeth ac at wella canllawiau cysylltiedig yn cynnwys:**

- Ystyried yr angen am ddeddfwriaeth yn y Senedd nesaf i ddiwygio'r dibenion, y dyletswyddau a'r trefniadau llywodraethu statudol ar gyfer cyrff tirweddau dynodedig er mwyn eu harfogi'n well i ysgogi adferiad natur. (O argymhelliad 3)
- Datblygu canllawiau cryfach ar gyfer Polisi 9 Cymru'r Dyfodol drwy brosiect peilot Gwastadeddau Gwent ar gyfer prif ffrydio bioamrywiaeth, gwytnwch ecosystemau a seilwaith gwyrdd i bolisïau cynllunio mewn Ardaloedd Rheoli Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yng Nghymru. (O argymhelliad 4)
- Datblygu deddfwriaeth sylfaenol i osod targedau adfer natur cyffredinol a sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i'w gosod mor gynnar â phosibl yn nhymor y Senedd hon, a chyfres o dargedau adfer natur statudol manylach sy'n

canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau amgylcheddol a sicrhau cyfraniad Cymru at y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ôl-2020.

## Atodiad A: Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth: Argymhellion

**Amcan**

Datblygu cyfres o gamau cydweithredol y gallwn eu cymryd ar unwaith i gyflawni nod '30 erbyn 30' y CBD, gan gydnabod y galluoedd sydd gennym yng Nghymru ac adlewyrchu ein dyletswyddau a'n ffordd o weithio a nodir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru.

**1. Trawsnewid y gyfres o safleoedd gwarchodedig er mwyn i'r gyfres fod yn well, yn fwy, a chael ei chysylltu'n fwy effeithiol**

Byddwn yn gweithredu ar unwaith i sicrhau bod y safleoedd gwarchodedig yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn deg erbyn 2030 drwy:

- Ehangu a chynyddu'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur i wella cyflwr, cysylltedd a gwytnwch safleoedd gwarchodedig. Yn ogystal â chefnogi camau i wella safleoedd gwarchodedig, mae'r rhaglen hefyd yn canolbwyntio ar gynnwys cymunedau lleol mewn modd gweithredol, gan greu rhwydweithiau o bobl yn ogystal â rhwydweithiau ecolegol gwydn.
- Bydd Map Rhwydweithiau Natur sy'n amlinellu ardaloedd ffocws allweddol yn cael ei gynhyrchu. Bydd Porth Safleoedd Gwarchodedig yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno er mwyn i bartneriaid gael mynediad at ddata safleoedd gwarchodedig CNC.
- Cynyddu capasiti cyflawni'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd drwy ddull graddol, er mwyn i'r rhaglen gyflawni ar raddfa sy'n gallu cyrraedd y targed sero net 2050 o adfer 45,000 hectar o fawndir erbyn 2030.
- Darparu cyllid ar gyfer Partneriaethau Natur Lleol i gefnogi camau gan bartneriaethau cydweithredol ar gyfer adfer natur ar lefel leol.
- Mynd i'r afael â'r rhwystrau ariannol i gyflawni sy'n atal cynnydd tuag at adfer a/neu gynnal a chadw safleoedd ar dir, dŵr croyw a moroedd i gyflwr ffafriol drwy:
    - Archwilio'r cyfle i ddefnyddio Cytundebau Rheoli Tir Adran 16 fel arian cyfatebol er mwyn ei gwneud yn bosibl sicrhau ffynonellau cyllid ychwanegol i gefnogi camau gweithredu mwy uchelgeisiol ar gyfer adfer natur.
    - Adolygu lefel y ffioedd cynllunio sy'n cael eu talu am waith cadwraeth sy'n gallu ychwanegu cost sylweddol at y broses o gyflawni.
- Cwblhau rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA) er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â diffygion o ran gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau o ddiddordeb cadwraeth, sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd yn cael eu cynrychioli'n dda, a bod y rhwydwaith wedi'i gysylltu ac yn gydlynol yn ecolegol. Bydd hyn yn dechrau gyda gwaith ymgysylltu cyn ymgynghori â rhanddeiliaid yn ystod y tri mis nesaf.

- Cwblhau'r gwerthusiad strwythuredig o'r modd y mae offer pysgota posibl yn rhyngweithio â nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac ymgynghori ar y mesurau rheoli angenrheidiol sydd eu hangen. Bydd atal niwed i nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn helpu i wella cyflwr a gwytnwch y rhwydwaith.
- Sefydlu cynllun wedi'i dargedu i gefnogi'r gwaith o adfer morwellt a chynefinoedd morfa heli ar hyd ein harfordir.
- Creu cyfleoedd i bysgotwyr morol a dŵr croyw i gefnogi adferiad natur, a lle bo hynny'n briodol mynd i'r afael â chamau rheoli ar gyfer gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd.
- Canfod ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar rôl Gwarchodfeydd Natur Lleol a chynefinoedd eraill nad ydynt o dan ddynodiad statudol, fel Safleoedd o Bwys er Cadwraeth Natur, i gyflawni ar gyfer y 30 erbyn 30.
- Sicrhau bod safleoedd gwarchodedig (rheoli, monitro, dynodi), tir a môr, yn flaenoriaeth i CNC drwy strategaethau corfforaethol a strategaethau ar gyfer y dyfodol a darparu cyllid digonol.
- Adolygu'r gyfres SoDdGA i lywio rhaglen hysbysu gyflymach, gan ei gwneud yn gydnaws â'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur.

Yn y tymor hwy, byddwn yn:

- Gwella effeithiolrwydd o ran amddiffyn rhag effeithiau niweidiol datblygiad a bygythiadau / pwysau eraill drwy gynyddu capasiti a gallu mewn cyrff cyhoeddus perthnasol i gymryd camau gorfodi effeithiol lle bo angen.
- Dechrau ar raglen uchelgeisiol o ddynodi safleoedd gwarchodedig gyda phroses hysbysu gyflymach i gyd-fynd â'r rhwydweithiau natur a'u cryfhau, gan flaenoriaethu'r ardaloedd hynny lle mae angen eisoes wedi'i nodi.

**2. Creu fframwaith i gydnabod Ardaloedd Enghreifftiol Adfer Natur a Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill ar sail Ardal (OECMs) sy'n cyflawni canlyniadau o ran bioamrywiaeth**

Yn ogystal â gwella'r ardaloedd gwarchodedig presennol, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd canfod ardaloedd ychwanegol a all wireddu ein huchelgais adfer natur ac atebion eraill i reoli'r rhain. Ar yr ochr reoli rydym am sefydlu cyfres o Ardaloedd Enghreifftiol Adfer Natur - cydweithrediadau presennol neu newydd ar raddfa tirwedd o gyfranogwyr cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol sy'n dod at ei gilydd i reoli ac adfer natur mewn ardaloedd gwarchodedig a'r dirwedd ehangach. Yn ogystal, rydym am archwilio rôl statws diffiniedig newydd yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) o OECMs wrth gydnabod ardaloedd y tu allan i safleoedd gwarchodedig a all gyfrannu at 30 erbyn 30.

Byddwn yn gweithredu ar unwaith i:

- Sefydlu gweithgor arbenigol (a dolenni at Weithgor Ardaloedd Gwarchodedig yr IUCN) i argymell prosesau a meini prawf ar gyfer cydnabod, monitro ac adrodd ar OECMs presennol ac Ardaloedd Enghreifftiol Adfer Natur posibl yng

Nghymru. Bydd y gweithgor yn adrodd ar argymhellion o ran canfod safleoedd a dulliau posibl i ariannu'r rhain o fewn chwe mis.

Mae cysylltiadau rhwng tir a dŵr yn cynrychioli ardal weithredol ar gyfer OECMs integredig. Bydd Dŵr Cymru (Tachwedd 2022) yn cynnal cyfres o weithdai yn eu cynhadledd flynyddol TarddLe i archwilio'r galluogwyr a'r rhwystrau wrth fynd ati i gyflawni camau gweithredu ar raddfa dalgylch dŵr croyw. Bydd allbynnau'r gweithdai yn cael eu rhannu ar ôl y gynhadledd yn Adroddiad TarddLe22.

**3. Rhyddhau potensial tirweddau dynodedig (Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) i gyflawni mwy ar gyfer natur a 30 erbyn 30**

Mae gan ein Tirweddau Dynodedig, ein Parciau Cenedlaethol a'n Hardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ran hanfodol i'w chwarae wrth gefnogi adferiad natur. Byddwn yn gweithredu ar unwaith i:

- Gefnogi'r Parciau Cenedlaethol ac AHNE i ddatblygu cynlluniau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer adfer natur gan roi'r rhain wrth wraidd y gwaith cynllunio strategol.

Yn y tymor hwy, byddwn yn:

- Ailosod blaenoriaethau Tirweddau Dynodedig i wella a chyflymu'r gwaith cyflawni ar gyfer adfer natur, wedi'i gefnogi gan bolisi, adnoddau a chanllawiau wedi'u diweddaru i adeiladu capasiti ac arbenigedd ac i dargedu gweithgarwch.
- Datblygu'r dystiolaeth a'r offer mapio i alluogi tirweddau dynodedig i osod llinell sylfaen, targedu a monitro ardaloedd o werth natur uchel y gellid eu sicrhau fel eu cyfraniad tuag at 30 erbyn 30.
- Sicrhau bod cyrff Tirweddau Dynodedig yn cael eu hariannu'n ddigonol, yn gynaliadwy ac mewn modd hyblyg er mwyn cyflawni adferiad natur ar raddfa tirwedd drawsnewidiol.
- Sicrhau bod dynodi Parc Cenedlaethol posibl newydd yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn cynnig cyfleoedd i liniaru ar effeithiau newid hinsawdd ac adfer natur fel blaenoriaethau cyflawni allweddol i'r Parc newydd.
- Ystyried yr angen am ddeddfwriaeth yn y Senedd nesaf i ddiwygio'r dibenion, y dyletswyddau a'r trefniadau llywodraethu statudol ar gyfer cyrff tirweddau dynodedig er mwyn eu harfogi'n well i ysgogi adferiad natur.

**4. Parhau i ddiwygio gwaith rheoli a chynllunio tir a morol (gan gynnwys gofodol) i gyflawni mwy ar gyfer safleoedd gwarchodedig a thir / morweddau yn ehangach**

Gall sut rydym yn defnyddio ein cynefinoedd tir, dŵr croyw a morol nawr ac yn y dyfodol gael effaith sylweddol ar gyflwr safleoedd a'r rhywogaethau sy'n rhan ohonynt. Byddwn yn gweithredu ar unwaith i:

- Ddatblygu canllawiau cryfach ar gyfer Polisi 9 Cymru'r Dyfodol drwy brosiect peilot Gwastadeddau Gwent ar gyfer prif ffrydio bioamrywiaeth, gwytnwch

ecosystemau a seilwaith gwyrdd i bolisïau cynllunio mewn Ardaloedd Rheoli Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yng Nghymru.

- Cryfhau'r amddiffyniad polisi a roddir i SoDdGA fel yr amlinellir yn Polisi Cynllunio Cymru 11.
- Archwilio'r posibilrwydd y bydd contract ar gyfer Cymru gyfan yn cael ei sefydlu gyda'r Canolfannau Cofnodion Lleol i sgrinio pob cais cynllunio.
- Gweithredu dull gofodol o gynllunio morol gan nodi'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau ecolegol ar gyfer gwahanol weithgareddau morol gan gynnwys ynni adnewyddadwy. Bydd yn cynnwys cyhoeddi canllawiau gofodol a defnyddio'r adolygiad o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP) i ystyried cyflwyno polisïau cynllunio gofodol i gynorthwyo cynllunwyr, datblygwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
- Buddsoddi mewn cynghorwyr medrus i ennyn diddordeb ffermwyr o ran y cynllun newydd a manteisio i'r eithaf ar y manteision posibl i fyd natur.
- Buddsoddi mewn cynlluniau peilot rheoli tir yn gynaliadwy i gasglu gwybodaeth a magu profiad o gyflawni ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd.

Yn y tymor hwy, byddwn yn:

- Dylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i sicrhau bod ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am ddarparu rheolaeth briodol o safleoedd gwarchodedig ac am gamau gweithredu sy'n gwella rhagolygon natur yn y dirwedd ehangach ac mewn cynefinoedd dŵr croyw.
- Datblygu a gorfodi safonau gofynnol i atal difrod pellach, gwarchod y cynefinoedd a'r ecosystemau allweddol a hwyluso'r gwaith o gywiro difrod pe bai hyn yn digwydd.

**5. Adeiladu sylfaen gref ar gyfer cyflawni yn y dyfodol drwy ddatblygu capasiti, newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth a datblygu sgiliau**

Rydym yn cydnabod y bydd angen dull gweithredu ar draws y gymdeithas ar gyfer adfer natur, ac na fydd camau i fynd i'r afael â'r argyfwng natur yn llwyddiannus os na wneir hynny law yn llaw â gweithredu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Byddwn yn gweithredu ar unwaith i gefnogi'r gwaith o gyflawni yn effeithiol nawr ac yn y dyfodol drwy:

- Integreiddio'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen ar gyfer adfer natur (e.e. ecolegwyr, cynllunwyr morol a biolegwyr ac ati) i'r Strategaeth Sgiliau Sero Net.
- Cynnwys camau i fynd i'r afael â'r argyfwng natur yn y rhaglen gyffredinol ar gyfer newid ymddygiad o ran newid hinsawdd.
- Ehangu a gwella cynlluniau adeiladu capasiti a gallu i gefnogi'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat i gyflymu'r gwaith o gyflawni ar gyfer adfer natur. Bydd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar gadernid ariannol a pharodrwydd i fuddsoddi.

Yn y tymor hwy, byddwn yn:

- Gwella addysg ac ymwybyddiaeth o'r argyfwng natur a hinsawdd a'r camau gweithredu y gall unigolion a sefydliadau eu cymryd.
- Adeiladu ar raglen Natur a Ni (a Chynllun y Bobl ar gyfer Natur), cynyddu cyfranogiad dinasyddion a chyfranogiad mewn camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd.

**6. Rhyddhau cyllid cyhoeddus a phreifat ychwanegol er mwyn cyflawni ar gyfer natur yn gyflymach ac ar raddfa fwy**
Rydym yn cydnabod y bydd angen cyllid digonol er mwyn cymryd camau effeithiol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur erbyn 2030. Byddwn yn gweithredu ar unwaith i nodi ffynonellau cyllid priodol ac ymyriadau'r llywodraeth y gallai fod eu hangen i sicrhau bod y rhain yn cyflawni er budd Cymru drwy:

- Ddatblygu safbwynt polisi clir ar fuddsoddiad preifat mewn adfer natur, gan nodi'r cyfleoedd posibl a rhag-weld y risgiau, gan gynnwys lle y gellid lliniaru'r rhain drwy ymyriadau ac egwyddorion priodol y llywodraeth ar gyfer buddsoddiad cyfrifol.
- Archwilio dulliau a chyfleoedd ariannu cynaliadwy i gefnogi gwaith sy'n cyflawni'r elfen forol o 30 erbyn 30, megis nodi dulliau ariannu o ddiwydiannau datblygol sy'n dod i'r amlwg, archwilio ardollau a rôl Budd Net Morol.

Yn y tymor hwy, byddwn yn:

- Cynyddu buddsoddiad cyhoeddus mewn adfer natur drwy sicrhau bod yr ymateb i'r argyfwng natur wedi'i integreiddio ar draws adrannau'r llywodraeth.

**7. Datblygu ac addasu fframweithiau monitro a thystiolaeth i fesur cynnydd tuag at y targed 30 x 30 a llywio'r broses o flaenoriaethu camau gweithredu**
Mae fframweithiau monitro a thystiolaeth effeithiol a fforddiadwy yn hanfodol os ydym am olrhain ein cynnydd tuag at y nod o 30 erbyn 30 a'r uchelgais mwy hirdymor o fod yn bositif dros natur. Mae angen i'r fframweithiau hyn gael eu llywio drwy werthuso anghenion data, adeiladu ar arferion da a setiau data presennol, a nodi'r hyn sydd ei angen yn y dyfodol. Byddwn yn mynd ati ar unwaith i:

- Sefydlu grŵp gorchwyl monitro a thystiolaeth i barhau â'r gwaith sydd ei angen i sefydlu fframweithiau monitro a thystiolaeth gadarn a phriodol ar gyfer 30 erbyn 30 a thargedau adfer natur ehangach, gan adeiladu ar y rhai sydd eisoes ar waith.

**8. Rhoi Adferiad Natur wrth wraidd polisi a strategaeth mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru**
Byddwn yn ailddatgan ein hymrwymiad i gymryd camau unioni i warchod ac adfer bioamrywiaeth a sicrhau bod cyrff cyhoeddus ledled Cymru yn cefnogi'r modd y mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei gyflawni. Byddwn yn gweithredu ar unwaith i:

- Adolygu'r Polisi Adnoddau Naturiol (NRP) a'n Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol (sef Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar hyn o bryd) i adlewyrchu

argymhellion yr archwiliad dwfn a Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ôl-2020.

- Cryfhau'r gwaith o gyflawni'r Polisi Adnoddau Naturiol ac Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) i gefnogi prif ffrydio'r gwaith o gyflawni ar gyfer natur ar draws holl bortffolios y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys:
    - Camau i leihau pwysau sy'n effeithio ar fioamrywiaeth ac ysgogi'r broses adfer.
    - Dod â pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru ynghyd sy'n effeithio ar waith rheoli defnydd tir a nodi sut maent yn cyd-fynd ar lawr gwlad gan integreiddio â chynllun Cymru'r Dyfodol a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru.
- Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i arwain drwy esiampl, gan ddangos ac archwilio cyfleoedd pellach i sicrhau bod cyflawni ar gyfer natur yn un o'r amcanion â blaenoriaeth ar gyfer Ystad Coetir Llywodraeth Cymru, gan newid arferion, lle y bo angen, sy'n niweidiol i natur.

Yn y tymor hwy, byddwn yn:

- Datblygu deddfwriaeth sylfaenol i osod targedau adfer natur cyffredinol a sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i'w gosod mor gynnar â phosibl yn nhymor y Senedd hon, a chyfres o dargedau adfer natur statudol manylach sy'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau amgylcheddol a sicrhau cyfraniad Cymru at y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ôl-2020.

## Atodiad 3 Cofnod o’r Fforwm Arbenigwyr ynghylch rheoli a gwarchod safleoedd gwarchodedig

Cafodd y digwyddiad hwn ei gynnal gan AIDAC ar 16 Tachwedd 2022 yn yr Ystafell Haearn, Eglwys-fach yn dilyn ymweliad â safle Gwarchodfa Ynys-hir y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar. Cytunwyd y byddai’r rheol Chatham House yn cael ei defnyddio yng nghyswllt y drafodaeth, felly mae’r cofnod wedi’i olygu er mwyn tynnu pob enw allan ohono. Yr unig eithriadau yw’r cyfeiriadau at gwestiynau penodol gan Nerys Llewelyn Jones.

**Y sawl a oedd yn bresennol**
Cafodd y sefydliadau canlynol eu cynrychioli yn y digwyddiad:

- Prifysgol Aberystwyth[162]
- Butterfly Conservation
- Cyngor Sir Ceredigion
- Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Cymru
- Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru
- Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU
- Llywodraeth Cymru
- Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Croesawodd Nerys Llewelyn Jones ei chydweithwyr. Esboniodd mai nod y Fforwm Arbenigwyr oedd trafod sut y mae’r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli a gwarchod safleoedd gwarchodedig yng Nghymru yn gweithredu, ac a ddylid ei adolygu ac, os felly, sut. Byddai’r safbwyntiau a fyddai’n cael eu rhoi yn y sesiwn yn cael eu defnyddio’n sail i adroddiad ar gyfer Gweinidogion Cymru.

Eglurodd mai ei rôl fel AIDAC oedd ystyried pryderon am y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru. Adeg y cyfarfod, roedd wedi cael dau gyflwyniad a oedd yn mynegi pryderon am y modd y caiff safleoedd gwarchodedig eu rheoli a’u gwarchod. Roedd y pryderon a fynegwyd yn cynnwys pryder bod llawer o safleoedd wedi’u difrodi ac wedi dirywio ac nad oeddent yn cael eu rheoli’n briodol, a phryder nad oedd y pwerau sydd ar gael i warchod safleoedd yn cael eu defnyddio’n llawn. Roedd Asesiad Gwerthuso Gwaelodlin 2020 Cyfoeth Naturiol Cymru wedi methu â phennu cyflwr tua hanner nodweddion y safleoedd, oherwydd tystiolaeth annigonol. O blith y nodweddion y gallai eu hasesu, roedd 20% mewn cyflwr ffafriol, roedd 30% mewn cyflwr anffafriol ac nid oedd 50% mewn sefyllfa a ddymunid.

[162] Mynychodd Lynda Warren y digwyddiad hwn cyn iddi gael ei phenodi i AIDAC

Eglurodd y byddai'n canolbwyntio i ddechrau ar safleoedd tirol yn hytrach na rhai morol.

Dywedodd Nerys Llewelyn Jones y byddai AIDAC yn recordio'r trafodaethau er mwyn sicrhau bod y pwyntiau'n cael eu cofnodi ond y byddai dymuniadau unigolion ynghylch y recordiad yn cael eu parchu. Ni wnaeth neb anghytuno â'r dull hwnnw o weithredu.

Dywedodd Nerys Llewelyn Jones y byddai'n hoffi pe bai'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Y rhesymau pam yr ystyriwyd nad oedd 80% o'r nodweddion a aseswyd mewn cyflwr ffafriol;
- A ellid gwneud newidiadau deddfwriaethol i wella cyflwr safleoedd gwarchodedig? Os gellid, pa newidiadau?
- A allai unrhyw newidiadau deddfwriaethol wella'r gallu i bennu cyflwr safleoedd gwarchodedig? Os felly, pa newidiadau?
- A oes angen gwella'r canllawiau neu'r prosesau ar gyfer safleoedd gwarchodedig? Os felly, sut?
- A oes angen gwella trefniadau gorfodi? Os felly, sut?

**Dull monitro**
Roedd y diffyg gofyniad gorfodol i fonitro'n golygu nad oedd digon o adnoddau a phobl wedi'u neilltuo i fonitro nodweddion Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Dylai fod gofyniad i fonitro, sy'n debyg i'r gofyniad sy'n berthnasol i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

Nodwyd bod yr Archwiliad Dwfn Gweinidogol ynghylch Bioamrywiaeth wedi trafod yn helaeth beth oedd gwerth rhaglen fonitro integredig a gwerth dull Cymru gyfan o weithredu.

Roedd monitro'n iawn os ydych yn gwybod beth yr ydych yn ei fonitro a pham. Fodd bynnag, roedd yna duedd i gynhyrchu gormod o wybodaeth fonitro nad yw'n dweud dim byd wrthych. Nid yw cynhyrchu tudalennau di-ri o ddata monitro, nad yw'n werthfawr ac sy'n cymryd llawer o amser, yn effeithiol. Roedd yna berygl o gael dull monitro a fyddai'n canolbwyntio ar eitemau y gellid eu mesur yn hawdd yn hytrach nag ar y materion sydd bwysicaf. Gallai gormod o ddata monitro olygu bod ffactorau allweddol a'r darlun ehangach yn cael eu hesgeuluso. Er nad oedd cael data am bopeth o reidrwydd yn beth gwael, dylid canolbwyntio ar dueddiadau cyffredinol.

Roedd yn bwysig cael sgwrs ynghylch pa fath o ddata monitro oedd yn ‘ddigon da’. At hynny, roedd angen canolbwyntio ar sut yr oedd safleoedd wedi’u cysylltu â’i gilydd yn ogystal ag ar gyflwr safleoedd cyfan.

Ni fyddwn fyth yn gallu deall yn iawn beth sy’n digwydd o ran yr amgylchedd, felly nid casglu peth wmbredd o ddata yw’r ffordd orau bob amser o ddefnyddio adnoddau.

Gofynnodd Nerys Llewelyn Jones pa wybodaeth fonitro allweddol y dylid ei chasglu.

Roedd angen i waith monitro gael ei wneud mewn partneriaeth. At hynny, roedd yn bwysig cael y bobl gywir ar y safleoedd cywir yn monitro’r nodweddion cywir.

Holodd Nerys Llewelyn Jones a oedd yr adnoddau angenrheidiol ar gael i helpu gyda’r gwaith monitro.

Roedd yr Archwiliad Dwfn Gweinidogol ynghylch Bioamrywiaeth eisoes wedi bod yn asesu data monitro, ac roedd yna berygl y byddai gwaith yn cael ei ddyblygu pe bai’r Fforwm Arbenigwyr yn ystyried hynny hefyd.

Gofynnodd Nerys Llewelyn Jones i’r grŵp a oedd casgliadau’r Archwiliad Dwfn ynglŷn â materion monitro’n ddigonol, a dywedodd nad oedd unrhyw elfen ddeddfwriaethol i’r grŵp hwn ei hystyried.

Gofynnwyd pam yr oedd pawb yn canolbwyntio gymaint ar fonitro nodweddion. Credid mai’r rheswm tebygol am hynny oedd dylanwad yr UE. Roedd monitro nodweddion yn bwysig, ond nid dyna oedd yr unig fater. Dylid canolbwyntio’n fwy helaeth ar y darlun ehangach, ac roedd y ddeddfwriaeth bresennol yn atal hynny rhag digwydd.

Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod o leiaf monitro nodweddion i ryw raddau yn bwysig. Roedd yna rai rhywogaethau yr oedd yn hollbwysig eu gwarchod, a gallai’r ffaith eu bod yn lleihau fod yn arwydd o broblemau ehangach. Roedd cornicyllod yn un enghraifft. Mewn ymateb, dywedwyd ei bod yn bosibl na fyddai unrhyw gornicyllod yn bodoli ymhen hanner can mlynedd pe na baent yn cael eu monitro. Fodd bynnag, gallai rhywogaethau eraill fod yn ffynnu ar y safle oherwydd bod ei gyflwr cyffredinol wedi’i fonitro a’i fod efallai wedi gwella.

Honnwyd nad oedd y dull presennol o fonitro’n gweithio erbyn hyn. Roedd y fframwaith Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig wedi’i ddatblygu yn yr 1940au, ac roedd fframwaith yr UE wedi’i gyflwyno wedyn ac wedi’i ychwanegu ato. Roedd y fframwaith wedi datblygu mewn modd braidd yn gynyddol ac yn ôl yr angen, ac roedd yn rhy gymhleth. Nid oedd hynny’n briodol mwyach – yn enwedig yng nghyd-destun polisi

amgylcheddol a oedd yn newid yn gyflym. Dylai'r fframwaith fod yn fwy hyblyg ac addasol. Gellid gwneud mân newidiadau iddo, ond yn y tymor hwy byddai'n rhaid ailddylunio'r gyfraith.

**Newidiadau deddfwriaethol i wella cyflwr safleoedd gwarchodedig**

Gofynnodd Nerys Llewelyn Jones a allai newidiadau deddfwriaethol wella cyflwr safleoedd gwarchodedig.

Dylai fod yna dargedau statudol ynghylch cyflwr safleoedd gwarchodedig, a rhwymedigaeth weinidogol i sicrhau bod y targedau hynny'n cael eu cyflawni. Byddent yn bodoli ochr yn ochr â'r targedau arfaethedig ar gyfer adferiad natur.

Holwyd ai Llywodraeth Cymru ddylai fod yn bennaf gyfrifol am gyflawni targedau ynteu a ddylent fod yn dargedau i bawb.

Holwyd hefyd a ddylai fod yna fwy o gydweithio er mwyn cyrraedd y targedau.

Y gred oedd bod gan dargedau bŵer os yw llywodraethau'n eu cefnogi. Roedd sefydlu targedau'n ffordd o sicrhau ffocws clir ar flaenoriaethau, ac yn ffordd o sicrhau ymrwymiad a gwariant gan lywodraethau er mwyn cyflawni'r targed. Gallai bodolaeth targedau hwyluso gwaith traws-swyddogaethol ac ymgorffori cydweithio ar draws adrannau perthnasol llywodraeth er mwyn eu cyflawni.

Nid oedd y dull o warchod safleoedd wedi gweithio mor belled, oherwydd gwaith blaenoriaethu ac adnoddau annigonol gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Os na ellid gwarchod y safleoedd gorau neu'r esiamplau hynny, pa obaith oedd yna i lesiant tirweddau eraill? Gallai fod yna ymrwymiadau a nodau gwych, ond heb drefniadau gweithredu da ni fyddai'r dyheadau hynny'n cael eu gwireddu'n llwyddiannus. Pe bai'r dull hwn o weithredu'n parhau, roedd yna amheuaeth a fyddai targedau'n gweithio. Nid oedd y safleoedd gwarchodedig presennol mewn sefyllfa dda ar hyn o bryd, felly pa obaith oedd y byddai eu cyflwr yn gwella?

Roedd yn drueni na allai Dr Kim Owen o Natural England fynychu'r Fforwm Arbenigwyr. Roedd wedi rhoi cyflwyniad ardderchog i Cyfoeth Naturiol Cymru ar brosiect Climate Smart y sefydliad. Roedd yn golygu defnyddio targedau i fesur iechyd ecosystemau, yn hytrach na niferoedd rhywogaethau unigol, a cheisio ymgorffori'r cysyniad o addasu er mwyn ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd. Roedd yn bwysig bod yn addasol yn hytrach na bod yn rhagnodol gyda thargedau.

Gofynnodd Nerys Llewelyn Jones pa fath o dargedau oedd yn ofynnol.

Roedd yn bwysig edrych y tu hwnt i nodweddion a rhywogaethau unigol. Dylai fod yna waith monitro integredig gyda'r dechnoleg gyfatebol angenrheidiol.

Roedd rhywfaint o nerfusrwydd ynghylch monitro iechyd ecosystemau. Credid bod angen parhau i fonitro cyflwr rhywogaethau unigol, gan gynnwys a oeddent mewn perygl o ddiflannu, er bod gan fonitro cyflyrau cyffredinol safleoedd rôl i'w chwarae o hyd hefyd. Roedd angen symud ymlaen o'r sefyllfa a oedd yn bodoli, ond heb golli golwg ar werth y system bresennol.

Roedd rhywfaint o nerfusrwydd hefyd ynghylch newid deddfwriaeth, oherwydd roedd yna berygl y gallai hynny lastwreiddio'r trefniadau gwarchod presennol. Ar hyn o bryd, nid oedd digon o bobl ar gael i sicrhau bod y gofynion hynny'n cael eu bodloni. Er enghraifft, dim ond un entomolegydd oedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd yn well canolbwyntio ar fodloni gofynion y ddeddfwriaeth bresennol.

Awgrymwyd mai'r rheswm posibl am hynny oedd ei bod yn rhy anodd gweithredu'r ddeddfwriaeth bresennol.

Nid monitro rhai rhywogaethau arbennig oedd y ffordd orau o weithredu bob amser, oherwydd roedd y rhywogaethau hynny'n cael eu gwarchod yn barod. Roedd yn well monitro'r darlun ehangach. Drwy fonitro nodweddion penodol yn unig, roedd yna berygl y byddai rhywogaethau eraill a allai fod mewn perygl yn cael eu hesgeuluso.

Roedd yn bwysig cael targedau strategol yn ogystal â thargedau ar lefel cyflwr safle, sy'n adlewyrchu helaethrwydd rhywogaethau a newidiadau heb golli golwg ar yr hyn yr oedd y rhwydwaith dan sylw'n ei gynnal.

Roedd angen newid y fframwaith deddfwriaethol. Nid oedd neb erioed wedi gwerthuso'r holl dystiolaeth ynghylch beth oedd yn gweithio a beth oedd yn methu. Roedd yn bwysig sicrhau bod tystiolaeth o'r fath ar gael. Roedd hefyd yn bwysig peidio â brysio i wneud newidiadau deddfwriaethol. Roedd yr argymhellion 30x30 yn golygu ymestyn y rhwydwaith o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ond holwyd beth fyddai'r budd os nad oedd y system yn gweithio ar hyn o bryd. Roedd yn well ystyried y gwahanol safbwyntiau ar feysydd sydd o ddiddordeb cyffredin. Roedd yn bwysig sicrhau bod yr ymchwil angenrheidiol yn cael ei chyflawni, ac adnabod y bylchau deddfwriaethol ar gyfer gwahanol Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, er enghraifft.

Holwyd ynghylch y rhesymeg dros rai o'r gofynion sy'n ymwneud â safleoedd gwarchodedig. Er enghraifft, pam y cafodd pellter o 6 metr neu 7 metr ei bennu fel y llain glustogi?

Nodwyd bod angen digon o bobl i wneud y gwaith monitro.

Roedd yna dystiolaeth bod safleoedd gwarchodedig yn gweithio. Yn aml, mae dynodiadau Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn gwneud gwaith gwell na dynodiadau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o ran gwarchod safleoedd, felly roedd yna wersi i'w dysgu o hynny. Roedd y modd y caiff Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig eu monitro yn well. Beth y gellid ei wneud i gael Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i'r un lefel er mwyn darparu gwarchodaeth gydradd?

Dim ond gwybodaeth am yr hyn a oedd yn digwydd i gyflwr hanner nodweddion y safleoedd gwarchodedig oedd yn hysbys, ac roedd hynny'n peri pryder. Roedd yn bwysig asesu beth oedd yn digwydd yn y safleoedd hynny cyn creu cyfundrefn fonitro newydd. Byddai angen i Cyfoeth Naturiol Cymru gael mwy o adnoddau i gyflawni hynny. Dylid canolbwyntio ar ddarparu'r adnoddau hynny er mwyn cael mwy o ddata ynghylch beth oedd y problemau.

Roedd yn bwysig deall beth yr oedd y cyhoedd yn dymuno ei gael o safleoedd gwarchodedig. Byddai'n costio miliynau o bunnoedd i warchod safleoedd yn llawn, ond dim ond cannoedd o filoedd o bunnoedd oedd ar gael.

Nid oedd y system safleoedd gwarchodedig yn gweithio ar gyfer mawndiroedd. Nid oedd yn bosibl dynodi ardaloedd newydd o fawndir yn safle gwarchodedig, er gwaethaf eu pwysigrwydd. Os yw safleoedd yn cynnwys mawn, ni ellir eu gwarchod oni bai eu bod hefyd yn cynnwys nodweddion gwarchodedig. Nid yw nodweddion o'r fath yn cynnwys mawn. Roedd mawn yn bwysig iawn ar gyfer mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ond nid oedd targedau bioamrywiaeth yn briodol ar gyfer y math hwn o safle. Mae angen sicrhau bod ein camau gweithredu o ran y newid yn yr hinsawdd yn cydweithio â'n camau gweithredu i gadw bioamrywiaeth.

Nodwyd bod gan Ddeddf Amgylchedd y DU 2021 egwyddor budd net o 10 y cant, ond nid oedd yr egwyddor honno'n ystyried mawn a ffactorau eraill sy'n bwysig yng Nghymru. Felly, mae'n bosibl na fydd dull gweithredu Lloegr yn gweithio yng Nghymru. Doedd yna ddim byd 'parod' y gallem ei gymryd a'i weithredu, ac roedd yna berygl mewn ceisio pennu targedau'n rhy sydyn. Roedd yn bwysig bod unrhyw dargedau'n cael eu cytuno, bod modd eu cyflawni o fewn yr amserlenni a bennwyd, a bod ganddynt yr adnoddau angenrheidiol a'r systemau monitro a'r systemau technolegol cyfatebol.

Mae'r syniad o gael targedau'n rhagdybio bod y Llywodraeth yn dda am weithredu, ond nid yw hynny'n wir. Mae angen canolbwyntio ar ddatrys y problemau hynny. Efallai mai nid gosod targedau ar gyfer y Llywodraeth yw'r ateb.

Gallai targedau ar gyfer safleoedd gwarchodedig fod yn effeithiol iawn. Er enghraifft, roedd y targedau ar gyfer gwastraff ac ailgylchu yng Nghymru wedi esgor ar rai o'r cyfraddau ailgylchu gorau yn Ewrop. Nodwyd hefyd bod y Cod Mawndiroedd yn llwyddiant.

Roedd yn bwysig edrych yn ôl ar y diben gwreiddiol ar gyfer gwarchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Roedd deddfwriaeth 1949 yn darparu y dylai safleoedd gael eu gwarchod os oeddent yn ddiddorol o safbwynt gwyddonol. Mae'n faen prawf eang iawn a oedd yn cwmpasu ystod eang o nodweddion. At hynny, nid oedd y ddeddfwriaeth yn amlinellu gwarchodaeth ar gyfer safleoedd o'r fath. Gellid dadlau bod modd defnyddio'r ysbryd hwnnw'n sail i ddynodi mawndiroedd.

Nodwyd bod llawer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig wedi'u dynodi oherwydd nodweddion daearegol yn hytrach na nodweddion biolegol. Bydd yr 50% o nodweddion nad oeddent wedi'u monitro yn cynnwys y nodweddion daearegol hynny.

Argymhellwyd y dylid ailystyried y rhesymeg ar gyfer dynodi safleoedd. Ni chafodd hynny ei wneud yn llawn pan gafodd y ddeddfwriaeth wreiddiol ei chreu yn yr 1940au. Ystyrid nad oedd y term Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn golygu dim byd.

Roedd y cysyniad o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn debycach i offeryn cynllunio ac yn ffordd o hysbysu awdurdodau lleol. Nhw oedd i benderfynu wedyn sut yr oeddent am ei ddefnyddio.

Roedd rhywfaint o nerfusrwydd ynghylch y posibilrwydd o gael gwaelodlin sy'n symud, lle caiff targedau eu gostwng dros gyfnod. Gallai hynny arwain at batrwm o blymio i'r gwaelod yng nghyswllt trefniadau gwarchod ar gyfer safleoedd.

Gwrthodwyd y syniad nad yw targedau'n gweithio. Yn hytrach, yn syml iawn, nid oedd targedau'n cael digon o adnoddau i allu gweithio. Roedd yna argyfwng natur yr oedd COP15 yn ei gymryd o ddifrif. Gwrthodwyd y cyfiawnhad dros adnoddau annigonol yng nghyswllt asesu safleoedd gwarchodedig. Ystyrid y gellid dod o hyd i fodelau cyllido priodol, er enghraifft systemau ariannu preifat. Yn absenoldeb safleoedd gwarchodedig, byddai materion mewn sefyllfa waeth.

Gofynnodd Nerys Llewelyn Jones pa agwedd ar gynnwys y ddeddfwriaeth a oedd yn atal safleoedd rhag cael eu gwarchod yn briodol, a beth y gellid ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth i helpu.

Roedd rôl safleoedd gwarchodedig yn hollbwysig. Roedd yna lawer o dystiolaeth i ategu pwysigrwydd y safleoedd hyn. Byddai diwygiadau er mwyn hwyluso'r defnydd o fwy o gytundebau rheoli rhwng tirfeddianwyr a rheolwyr yn ddefnyddiol. Dim ond ar gyfer canran fach o safleoedd yr oedd cytundebau o'r fath ar waith. Bernid bod Glastir yn ffordd o warchod safleoedd, ond gallai'r trefniadau gweithredu ymarferol fod yn rhy gaeth. Roedd yna broblemau hefyd ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd; roedd angen i dirfeddianwyr gael y math cywir o gyngor a chymorth. Nodwyd hefyd bod yna broblemau gyda thir nad yw wedi'i ddynodi ond sy'n ffinio â safle gwarchodedig. A fyddai ymestyn gofynion safle Ardal Cadwraeth Arbennig i safleoedd cyfagos yn darparu gwarchodaeth well? Gallai Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno cytundebau rheoli oddi ar safleoedd, ond nid oedd cytundebau o'r fath yn cael eu defnyddio'n helaeth.

Os oedd yna ragdybiaeth nad oedd Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cael eu gwarchod i'r un graddau ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, yna gallai'r trefniadau gwarchod ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig gael eu hymestyn i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Dywedodd Nerys Llewelyn Jones y gallai fod yna werth mewn asesu ai Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ynteu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig oedd fwyaf buddiol.

Roedd yna nerfusrwydd ynghylch sicrhau bod y trefniadau gwarchod ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn debycach i'r trefniadau gwarchod ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Gellid cael cydsyniad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn gyflym, ond roedd cael cydsyniad Ardal Cadwraeth Arbennig yn cymryd tipyn mwy o amser ac roedd y broses yn fwy beichus.

Holwyd a oedd yn fater a oedd yn ymwneud yn fwy â chyfraith cynllunio, ac a fyddai'n fuddiol pe bai elfennau da Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn cael eu hefelychu lle bo modd. Roedd rhai o'r gwahaniaethau rhwng y gwahanol ddosbarthiadau'n eithaf bach. Y prif wahaniaeth gydag Ardal Cadwraeth Arbennig oedd bod angen asesiad ymlaen llaw. Ni ddylid barnu bod y gwahanol ddosbarthiadau o safleoedd gwarchodedig yn creu hierarchaeth ffurfiol o bwysigrwydd.

Nodwyd bod gan Ardaloedd Cadwraeth Arbennig fwy o statws na Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, felly gallai gwneud gwaith i warchod Safle o

Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gael ei atal pe bai'n gwrthdaro â nodweddion Ardal Cadwraeth Arbennig. Nodwyd nad yw'r hierarchaeth hon yn bodoli yn y gyfraith ond ei bod yn tueddu i fod yn rhagdybiaeth ymhlith pobl. Ni ddylai un ffurf ar warchodaeth gael blaenoriaeth dros ffurfiau eraill.

Holwyd a oedd y safleoedd cywir yn cael eu dynodi ar y raddfa gywir. Nid yw rhywogaethau bob amser yn gweithredu o fewn terfynau safleoedd gwarchodedig. Wrth bennu terfynau, roedd yn bwysig ystyried beth yr oedd ei angen ar y rhywogaethau yn hytrach na pha dir a oedd ar gael gan y tirfeddiannwr. Dylid ystyried y safbwynt ehangach a'r cynefinoedd sydd y tu hwnt i'r terfynau ffurfiol.

Gofynnodd Nerys Llewelyn Jones am sylwadau ynghylch goblygiadau lleiniau clustogi o gwmpas y safleoedd gwarchodedig.

Honnwyd bod yna wallau yn y rhestr o ddeddfwriaeth a gafodd ei chynnwys yn y papur a gyflwynwyd i'r Fforwm Arbenigwyr. Er enghraifft, roedd yna wahaniaethau rhwng cynlluniau rheoli a'r cytundebau rheoli. Roedd cynlluniau rheoli'n cael eu gorfodi ar dirfeddianwyr, tra oedd cytundebau rheoli'n bethau gwirfoddol. Nodwyd bod yna ffocws ar gytundebau gwirfoddol ac mai dim ond un cynllun rheoli a oedd ar waith yng Nghymru. Roedd prynu gorfodol yn digwydd pan oedd popeth arall wedi methu. Byddai manylion y gwallau'n cael eu trosglwyddo i Ysgrifenyddiaeth AIDAC, yn ogystal â manylion y cynllun rheoli.

Canlyniad pennaf yr Archwiliad Dwfn ynghylch Bioamrywiaeth oedd yr angen am gysylltiadau gwell rhwng safleoedd gwarchodedig ac â rhaglenni eraill a chyllid cyfatebol, er enghraifft y rhaglen Rhwydweithiau Natur. Roedd yn bwysig sicrhau bod y cyllid cywir ar gael yn y mannau cywir. Roedd yn hanfodol bod argymhellion yr archwiliadau dwfn ynghylch coed a phren, ynni adnewyddadwy a bioamrywiaeth yn cael eu cysylltu â'i gilydd er mwyn osgoi meddylfryd ynysig.

Roedd yn werthfawr adnabod elfennau defnyddiol Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Un o'r rhesymau pam y gallai Ardaloedd Cadwraeth Arbennig fod yn cael eu gwarchod yn well oedd oherwydd bod gofynion y broses ar gyfer gwneud newidiadau'n golygu nad oedd datblygwyr yn awyddus i ddechrau arni. Er bod rhai manteision efallai'n perthyn i hynny, nid oedd yn ffordd ddelfrydol o weithio. Un o elfennau pwysig Ardaloedd Cadwraeth Arbennig oedd bod yn rhaid cynnal asesiad o unrhyw beth a allai gael effaith, gan gynnwys gweithgareddau sy'n digwydd y tu allan i'r Ardal Cadwraeth Arbennig. Y broblem fawr gydag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig oedd eu bod yn amhriodol ar gyfer rhywfaint o fywyd gwyllt y DU. Y rheswm am hynny oedd iddynt gael eu dylunio heb ystyried nodweddion y DU, a'u bod wedi'u dylunio yn hytrach ar gyfer bywyd gwyllt dynodedig yr UE. Fodd bynnag, dylai fod yn bosibl mynd i'r afael â

hynny. Dylid rhoi sylw i natur letchwith Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Gallai'r broses o gynnal 'asesiad priodol' fod yn hirfaith, ond nid oedd raid iddi fod felly. Un o oblygiadau Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2022 oedd y gallai Cymru gyflwyno ei systemau wedi'u teilwra ei hun.

Roedd y modd y cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei sefydlu'n golygu na allai newid ei brosesau mor gyflym ag sy'n angenrheidiol. Gallai gymryd misoedd i newid trwyddedau. Roedd yr arolwg Cam I yn 30 mlwydd oed ac roedd angen ei adolygu ar frys oherwydd bod pethau wedi newid gymaint. Ffordd sydyn o wneud cynnydd fyddai gwneud mwy o ddefnydd o Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer cynlluniau plannu coed, er enghraifft ar gyfer llai na 5 hectar o dir (sy'n esempt ar hyn o bryd). Roedd hynny'n arbennig o bwysig o ystyried y pwysau presennol i blannu mwy o goed.

Nodwyd bod yna drothwyau, ac mai sero oedd y trothwy ar gyfer plannu coed mewn safle gwarchodedig heb Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Cafwyd cadarnhad ganddi bod y rhan fwyaf o waith plannu coed yn cael ei gyflawni drwy gynllun rheoli Glastir a bod Glastir ac Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol yn defnyddio'r un prosesau a'r un rhestr wirio. Roedd y ddeddfwriaeth ynghylch Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol wedi'i hadolygu yn ddiweddar – yn 2019 – gan gynnwys ar gyfer coedwigaeth, ac roedd diwygiadau wedi'u gwneud. Nododd nad oes llawer o waith plannu'n digwydd heb Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

Roedd dynodiadau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig wedi ôl-gronni yng Nghymru. Roedd o'r farn bod yna botensial ar gyfer newidiadau deddfwriaethol er mwyn cyflwyno terfyn amser statudol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Roedd y gofyniad i fodloni terfynau amser ar gyfer dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig wedi diflannu ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Tynnwyd sylw at yr angen i fod yn ofalus wrth gyflwyno terfynau amser statudol, oherwydd byddai angen dyrannu adnoddau ychwanegol cyfatebol i fodloni'r gofyniad hwnnw. Holwyd a ddylem fod yn sianelu adnoddau at safleoedd newydd ynteu a ddylem sicrhau bod safleoedd presennol yn cyrraedd y safon ofynnol.

Roedd yna deimlad ymhlith ffermwyr bod gofynion yn eu cyrraedd oddi fry. Dylid ailgyflwyno'r dull gweithredu a arferai fodoli, sef gweithredu mewn partneriaeth, er enghraifft â swyddog lleol Cyfoeth Naturiol Cymru, ar sail cytundebau rheoli tymor hwy. Roedd gan ffermwyr brofiad gwerthfawr i'w gyfrannu. Roedd yn anodd gwybod pwy oedd y partneriaid lleol; o'r blaen byddent wedi bod yn hysbys. Ystyrid bod y pwyslais a gâi ei roi ar y broses hon o feithrin perthynas wedi lleihau. Roedd ffermwyr yn cael eu gorfodi i wneud gormod.

Honnwyd bod y dull hwn o weithio'n fwy helaeth mewn partneriaeth yn arfer gweithredu yn ystod dyddiau Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Nodwyd bod yr asiantiaid tir mwy profiadol yn gallu meithrin cydberthnasau lleol yn effeithiol.

Nid oedd gan y ddeddfwriaeth bresennol y grym angenrheidiol yng nghyswllt rhai mathau o geisiadau cynllunio, a all esgor ar ddifrod i safleoedd. Roedd yr egwyddor o weithredu'n rhagofalus yn ofynnol er mwyn atal datblygu niweidiol.

Dywedwyd bod cytundebau rheoli fel pe baent yn gweithio ond nad oeddent yn gyffredin iawn erbyn hyn. Gwnaed y sylw bod gweithgarwch yn dilyn yr arian, yn gyffredinol.

**Gorfodi**

Gofynnodd Nerys Llewelyn Jones am safbwyntiau ynghylch y gyfundrefn orfodi ar gyfer safleoedd gwarchodedig.

Roedd Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol diweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru – ar gyfer 2021 – ar gael yn awr. Roedd yn ymdrin â bywyd gwyllt, adnoddau dŵr a gwastraff. Roedd yn cyfeirio at y rheoliadau ynghylch Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop. Nid oedd unrhyw gamau gorfodi wedi'u cymryd yn ystod y cyfnod yr adroddid yn ei gylch. Mae'r Cod Rheoleiddwyr yn llywio rheoleiddwyr i gyfeiriad ceisio cydymffurfiaeth yn wirfoddol yn hytrach na chyflwyno dirwyon a chamau gorfodi a allai gostio llawer o arian. Roedd yn bwysig gweithio gyda phobl i ddatrys problemau. Gofynnodd Nerys Llewelyn Jones a oedd y systemau gorfodi sydd ar gael, sy'n arwain at erlyn, yn rhy gostus i'w gweithredu. Roedd angen dilyn yr egwyddorion rheoleiddio sy'n ymwneud ag unioni'r difrod yn hytrach na dwyn achos llys yn erbyn y sawl sy'n gyfrifol amdano.

Gofynnwyd a fyddai defnyddio'r sancsiynau sifil yn fuddiol.

Gofynnwyd pwy oedd yn sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni ei rwymedigaethau. Mewn ymateb, dywedwyd bod Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am Cyfoeth Naturiol Cymru gan ddefnyddio'r Adroddiad Blynyddol, llythyrau cylch gwaith a systemau craffu'r Senedd. Dywedwyd hefyd bod galwad am dystiolaeth yn arfer cael ei chyhoeddi ynghylch perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru, ond ei bod yn ymddangos nad oedd hynny'n digwydd erbyn hyn. Holwyd a oedd ymadael â'r UE wedi effeithio ar y systemau a oedd ar gael ar gyfer mynegi pryderon am Cyfoeth Naturiol Cymru.

A oedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru afael glir ar gyflwr safleoedd? Sut y gellid cymryd camau gorfodi os oedd cyflwr tua hanner nodweddion safleoedd gwarchodedig yn

anhysbys? Roedd yna deimladau cryf iawn y dylai'r mater gael ei ddatrys. Roedd angen prawf y tu hwnt i amheuaeth resymol ar gyfer euogfarnau. Roedd hynny'n golygu ei bod yn anodd cyrraedd y trothwy ar gyfer tystiolaeth.

Roedd mwyafrif ymchwiliadau Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u cynnal o ganlyniad i bryderon y cafodd wybod amdanynt. Roedd yn werth ystyried sancsiynau sifil fel opsiwn. Roedd yna gyfle i ehangu'r ystod o offer sydd ar gael i'r rheoleiddiwr.

Nodwyd bod y ddeddfwriaeth ar gyfer gorfodi yng nghyswllt llygredd dŵr yn eithaf llym. Roedd troseddau'n rhai atebolrwydd caeth, felly hyd yn oed os oedd darparwr yn ymdrechu'n galed i weithredu'n effeithiol ond wedyn yn achosi llygredd, gellid ei erlyn. Argymhellwyd y dylid ystyried a oedd yna unrhyw wersi y gellid eu dysgu o'r gyfundrefn honno.

Teimlid y gallai sefydlu cytundebau rheoli effeithiol fod yn ffordd dda o symud ymlaen. Roedd angen mynd i'r afael â'r bwlch gorfodi trosfwaol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Roedd yna heriau oherwydd dull Llywodraeth y DU o ymdrin â rheoliadau cynefinoedd ac Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol. Roedd yr ansicrwydd presennol a achosir gan Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn fygythiad mawr.

Dylid darparu'r adnoddau angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion yr amgylchedd. Ystyrid bod modd gwneud hynny. Rhoddwyd enghraifft o ddigwyddiad diweddar ym maes gofal cymdeithasol, lle canolbwyntiwyd ar ddarparu'r hyn a oedd yn ofynnol yn hytrach na chanolbwyntio ar b'un a oedd ganddynt yr adnoddau a oedd yn angenrheidiol.

Daeth Nerys Llewelyn Jones â'r sesiwn i ben, Dywedodd y byddai galwad am dystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei chyhoeddi'n fuan ac mai canol mis Ionawr 2023 fyddai'r dyddiad cau.

## Atodiad 4 Galwad am Dystiolaeth

Dear colleagues

I'm writing to issue a Call for Evidence on the management and protection of protected sites in Wales.

In my role as the Interim Environmental Protection Assessor for Wales (IEPAW, I have received a number of submissions about protected sites in Wales. As a result I plan to produce a report on protected sites to Welsh Ministers to:

- assess whether the existing legal framework is functioning correctly;
- identify areas where the existing legal protection may not be delivering the intended benefits, particularly in relation to the protection and enhancement of biodiversity;
- identify potential gaps in existing legislation;
- identify areas where the practical application of the legislation may be impeded; and
- produce draft recommendations for how the law could be improved.

The report scope at this stage only includes terrestrial protected sites: Sites of Special Scientific Interest (SSSIs), Special Protection Areas (SPAs) and Special Areas of Conservation (SAC). It does not include protected/designated landscapes.

NRW's 2020 Baseline Evaluation project assessed the quality of all protected sites - the first full assessment since 2003. They were unable to determine the condition of around half of the features of all sites (for example habitat quality or number of species) due to insufficient evidence. Of the features they were able to assess, 20per cent were in a favourable condition, 30per cent in an unfavourable condition and 50per cent not in a desired state.

In addition the Ministerial Biodiversity Deep Dive recommendations were published in October 2022. This focussed on Wales' approach to implementing the Convention of Biological Diversity (CBD) Global Biodiversity Framework target to protect at least 30per cent of the land and 30per cent of the sea by 2030. The current draft 1 of the

post-2020 framework states: 'Ensure that at least 30 per cent globally of land areas and of sea areas, especially areas of particular importance for biodiversity and its contributions to people, are conserved through **effectively and equitably managed**, **ecologically representative** and **well-connected systems of protected areas** and other effective area-based conservation measures and integrated into the wider landscapes and seascapes.'

With this in mind I'm seeking views and evidence on:

- Should there be a statutory duty to monitor protected sites? If so, as resources are finite, what is the best way of the key players contributing to an integrated monitoring strategy and facilitating a team Wales approach? Is focusing on monitoring features the right approach or should there be more sites based consideration and a more balanced methodology?
- Should there be targets on the quality and connectivity of protected sites? If so, what should the targets cover?
- What changes should be made to the existing legal framework, if any, to ensure there is an improvement in the overall condition of protected sites? For example, could any legal mechanisms used for Special Areas of Conservation (SAC) benefit other protected sites categories?
- Are there any barriers to agreeing management agreements? If so, how could these be overcome?
- What, if any, changes to the current enforcement mechanisms would achieve better outcomes for protected sites?
- Please comment on any current or future legal mechanisms which could enable a more adaptive approach to site management leading to the better overall condition of a protected site.

Please could any written comments or evidence on the above questions be sent to me by **<u>Friday 20 January 2023.</u>** If a little longer is needed just let me know. Please also let me know if you're content for your comments/evidence to be quoted in the final

report and attributed to you and/or your organisation. Further information about my role can be found at Raising a concern about the functioning of environmental law.

Many thanks.

*Ar rhan / On behalf of*

*Dr Nerys Llewelyn Jones*

*Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru / Interim Environmental Protection Assessor for Wales*

*E-bost / E-mail:* ***IEPAW@llyw.cymru*** */* ***IEPAW@gov.wales***

Annwyl gydweithwyr

Rwy'n ysgrifennu i gyhoeddi galwad am dystiolaeth ar reoli ac amddiffyn safleoedd gwarchodedig yng Nghymru.

Yn fy rôl fel Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW), rwyf wedi derbyn nifer o gyflwyniadau am safleoedd gwarchodedig yng Nghymru. O ganlyniad, rwy'n bwriadu llunio adroddiad ar safleoedd gwarchodedig i Weinidogion Cymru i:

- asesu a yw'r fframwaith cyfreithiol presennol yn gweithio'n iawn;
- nodi lle nad yw'r amddiffyniad cyfreithiol presennol yn esgor ar y manteision a fwriedir, yn enwedig mewn perthynas â diogelu bioamrywiaeth;
- nodi bylchau posibl yn y ddeddfwriaeth;
- nodi'r ffactorau sy'n ein rhwystro rhag gweithredu'r Ddeddfwriaeth yn ymarferol; a
- llunio argymhellion drafft ar gyfer sut y gellid gwella'r gyfraith.

Ar hyn o bryd, mae cwmpas y prosiect wedi'i gyfyngu i safleoedd gwarchodedig daearol yn unig, sef Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau),

Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau). Nid yw'n cynnwys tirweddau gwarchodedig/dynodedig.

Gwnaeth prosiect Asesiad Gwaelodlin CNC yn 2020 asesu ansawdd yr holl safleoedd gwarchodedig - yr asesiad llawn cyntaf ers 2003. Nid oedd yn bosibl iddynt benderfynu ar gyflwr tua hanner nodweddion yr holl safleoedd (er enghraifft ansawdd cynefinoedd neu nifer y rhywogaethau) oherwydd nad oedd digon o dystiolaeth. O'r nodweddion yr oeddent yn gallu eu hasesu, roedd 20per cent mewn cyflwr ffafriol, 30per cent mewn cyflwr anffafriol a 50per cent ddim yn y cyflwr a ddymunir.

Yn ogystal, ym mis Hydref 2022, cyhoeddwyd yr argymhellion a wnaed yn sgil yr Archwiliad Manwl Gweinidogol ar Fioamrywiaeth. Canolbwyntiodd hwn ar y ffordd y byddwn ni yng Nghymru yn gweithredu targed Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol i warchod o leiaf 30per cent o'r tir a 30per cent o'r môr erbyn 2030. Mae'r drafft cyntaf presennol o'r fframwaith ôl-2020 yn nodi: 'Dylid sicrhau bod o leiaf 30per cent o ardaloedd daearol ac ardaloedd morol ar lefel fyd-eang – yn enwedig ardaloedd o bwys arbennig o ran bioamrywiaeth a'i chyfraniadau at fywydau pobl – yn cael eu gwarchod drwy fesurau cadwraeth seiliedig ar ardal a thrwy systemau o **ardaloedd gwarchodedig a reolir mewn modd effeithiol a theg**, sy'n **ecolegol gynrychiadol** ac **wedi'u cysylltu'n dda**, a'u bod yn cael eu hintegreiddio yn y tirweddau a'r morweddau ehangach.'

Gyda hyn mewn golwg rwy'n chwilio am farn a thystiolaeth ar:

- A ddylid gwneud monitro safleoedd gwarchodedig yn ddyletswydd statudol? Os felly, gan fod adnoddau'n gyfyngedig, beth yw'r ffordd orau o ennyn cyfranogiad gan chwaraewyr allweddol mewn strategaeth fonitro integredig, a hybu ymagwedd 'tîm Cymru'? Ai canolbwyntio ar nodweddion monitro yw'r dull cywir, neu a ddylid rhoi mwy o sylw i ddulliau seiliedig ar safle a methodoleg fwy cytbwys?
- A ddylid gosod targedau ar gyfer ansawdd a chysylltedd safleoedd gwarchodedig? Os felly, beth ddylai'r targedau eu cwmpasu?
- Pa newidiadau y dylid eu gwneud i'r fframwaith cyfreithiol presennol, os o gwbl, er mwyn sicrhau bod cyflwr safleoedd gwarchodedig yn gwella yn gyffredinol?

Er enghraifft, a allai unrhyw un o'r mecanweithiau cyfreithiol a ddefnyddir ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig fod yn fanteisiol i gategorïau eraill o safleoedd gwarchodedig?

- A oes unrhyw beth yn atal cytundebau rheoli rhag cael eu cadarnhau? Os felly, sut y gellid goresgyn y rhwystrau hyn?
- Pa newidiadau i'r mecanweithiau gorfodi presennol, os o gwbl, fyddai'n cyflawni canlyniadau gwell ar gyfer safleoedd gwarchodedig?
- Nodwch sylwadau ar unrhyw fecanweithiau cyfreithiol presennol neu yn y dyfodol a allai hwyluso ffordd fwy ymaddasol o reoli safleoedd gan arwain at wella cyflwr safle gwarchodedig yn gyffredinol.

A fyddai'n bosibl i unrhyw sylwadau neu dystiolaeth ysgrifenedig am y cwestiynau uchod gael eu hanfon ataf erbyn **dydd Gwener 20 Ionawr 2023**. Os oes angen ychydig mwy o amser gadewch i mi wybod. Rhowch wybod i mi hefyd os ydych yn fodlon i'ch sylwadau/tystiolaeth gael ei ddyfynnu yn yr adroddiad terfynol a'i briodoli i chi a/neu eich sefydliad. Mae rhagor o wybodaeth am fy rôl i yn Codi pryderon am sut mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio | LLYW.CYMRU

Diolch yn fawr.

*Ar rhan / On behalf of*

*Dr Nerys Llewelyn Jones*

*Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru / Interim Environmental Protection Assessor for Wales*

*E-bost / E-mail:* ***IEPAW@llyw.cymru*** */* ***IEPAW@gov.wales***